# Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

Gorffenaf 2021 Fersiwn 1.1

## Llawlyfr y Cymhwyster

| Fersiwn a Dyddiad | Newid manylion | Adran |
|---|---|---|
| 1.1 Gorffennaf 2021 | Ymrestru ac ardystio adran wedi'i diweddaru | Gofynion canolfannau |

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Gofal plant ac iechyd |
| **Rhif City & Guilds** | 8041 |
| **Grŵp oedran cymeradwy** | 18+ |
| **Gofynion cofrestru** | Rhaid bod dysgwyr wedi cwblhau'r cymhwyster City & Guilds canlynol cyn eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:<br>8041-16 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |
| **Asesu** | 100% asesiad allanol |
| **Cymeradwyaethau** | Mae angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr y cymhwyster<br>Pecyn asesu |
| **Ymrestru ac ardystio** | Gweler y manylion ar wefan y Consortiwm |

| Teitl a lefel | Rhif cyfeirnod | Rhif achredu |
|---|---|---|
| Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer | 8041-18 | C00/1249/7 |

# Cynnwys


Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer 1

**Cipolwg ar y cymhwyster 2**

**Cynnwys 4**

**1 Cyflwyniad 7**

Nodau ac amcanion y pwnc 8
Strwythur 9
Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC) 11

**2 Gofynion canolfannau 12**

Cymeradwyo'r cymhwyster 12
Ymrestru ac ardystio 12
Staff canolfannau 13
Gofynion cofrestru dysgwyr 14
Cyfyngiadau oedran 14

**3 Cyflwyno'r cymhwyster 15**

Asesu cychwynnol a sefydlu 15
Deunyddiau cefnogi 16
Swyddogion Cyswllt/Penodedigion Allanol 16
Sicrhau Ansawdd Mewnol 18
Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol 18
Camymddwyn 19
Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig 19

**4. Asesu 21**

Crynodeb o'r asesu 21
Efelychu 21
Cyfyngiadau amser 21
Cydnabod dysgu blaenorol (CDB) 21
Dyfarnu'r cymhwyster 21
Cyfleoedd ailsefyll 21
Prosesau asesu allanol 22

**5 Unedau 24**

Argaeledd unedau 24
Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau 26

**Uned 501 Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog 28**

**Uned 502 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol 36**

Canllawiau cyflwyno 42
SGC cysylltiedig 43

Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 44

**Uned 503 Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad 45**

**Uned 504 Ymarfer proffesiynol 51**

**Uned 505 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant 56**

**Uned 506 Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd (security) yn y gweithle/lleoliad 62**

Canllawiau cyflwyno 64
SGC cysylltiedig 64
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 64

- **Rheoli'r risg o ddŵr ac arwynebeddau poeth yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol:** http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis6.htm **65**

**Uned 507 Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant 66**

Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 72

**Uned 508 Arwain a rheoli'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi 74**

Canllawiau cyflwyno 77
SGC cysylltiedig 77
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 77

**Uned 509 Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd i ddatblygu sgiliau rhianta 79**

Canllawiau cyflwyno 86
SGC cysylltiedig 90
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 90

**Uned 510 Arwain a rheoli lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu 92**

Gofynion tystiolaeth 98
Canllawiau cyflwyno 98

<u>1-2 oed:</u> 101
Bydd y rhan fwyaf o blant bach yn: 101
<u>2-3 oed:</u> 101

SGC cysylltiedig 102
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 103

**Uned 511 Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol 105**

**Uned 512 Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio 113**

Canllawiau cyflwyno 115

***Deddfwriaeth gysylltiedig*** **116**

Adnoddau 116

**Uned 543 Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol 118**

Canllawiau cyflwyno 121
SGC cysylltiedig 121
Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig 121

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 544** | **Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr** | **122** |
| | Canllawiau cyflwyno | 126 |
| | SGC cysylltiedig | 127 |
| **Uned 545** | **Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes** | **129** |
| | Canllawiau cyflwyno | 132 |
| | SGC cysylltiedig | 132 |
| | Adnoddau | 132 |
| **Uned 546** | **Arwain a rheoli tîm therapi** | **133** |
| | Canllawiau cyflwyno | 140 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 141 |
| **Uned 547** | **Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant** | **142** |
| | Canllawiau cyflwyno | 152 |
| | SGC cysylltiedig | 153 |
| | Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig | 153 |
| **Uned 415** | **Sgiliau astudio** | **155** |
| | Canllawiau cyflwyno | 157 |
| | Adnoddau | 158 |
| **Atodiad 1** | **Cysylltiadau â chymwysterau eraill** | **159** |
| | Cysylltiadau â chymwysterau eraill | 159 |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn cyflwyno'r cymhwyster hwn:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn swydd reoli mewn lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a gwasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed.<br>Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar ymarfer ac yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Lluniwyd y cymhwyster ar gyfer dysgwyr mewn dysgu seiliedig ar waith. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy eu gwaith.<br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant cyn iddynt ymgymryd â'r cymhwyster hwn. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Mae'r cymhwyster hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiad a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli lleoliadau gofal plant ac iechyd plant. |
| Pa gyfleoedd sydd i ddatblygu? | Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i wella eu cyfleoedd cyflogaeth neu i barhau ag astudiaethau pellach ar lefel uwch. |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.<br>Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. |

## Nodau ac amcanion y pwnc

Bydd Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth mewn lleoliad gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli a'u rhoi ar waith;
- myfyrio ar eu gwybodaeth a'u harddulliau rheoli ac arwain eu hunain ac eraill a deall sut y maent yn effeithio ar y rheini y maent yn gweithio gyda nhw, yn y lleoliad a'r tu allan iddo;
- arwain a rheoli'r broses o wella perfformiad mewn lleoliadau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;
- arwain a rheoli dulliau gweithredu plentyn-ganolog wrth ymarfer;
- arwain a rheoli'r broses o wella'r gwasanaeth yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant;
- gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn wybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl.

## Strwythur

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**, rhaid i ddysgwyr gyflawni cyfanswm o 120 o gredydau o leiaf.

- Rhaid cyflawni 90 o gredydau o'r grŵp Gorfodol
- Rhaid cyflawni o leiaf 30 o gredydau o'r grŵp Dewisol.

**Lleiafswm** yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 415.

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol | | | |
| 501 | Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog | 60 | 20 |
| 502 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | 65 | 18 |
| 503 | Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad | 70 | 16 |
| 504 | Ymarfer proffesiynol | 50 | 12 |
| 505 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant | 60 | 12 |
| 506 | Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad | 60 | 12 |
| Grŵp Dewisol | | | |
| 507 | Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant | 40 | 14 |
| 508 | Arwain a rheoli caffaeliad iaith newydd drwy drochi | 20 | 9 |
| 509 | Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd i ddatblygu sgiliau rhianta | 50 | 21 |
| 510 | Lead and manage speech, language and communication skills | 50 | 20 |
| 511 | Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol | 50 | 18 |
| 512 | Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio | 30 | 6 |

| Rhif yr Uned | Teitl yr uned | ODA | Credyd |
|---|---|---|---|
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol | 20 | 10 |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr | 10 | 9 |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes | 20 | 12 |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi | 80 | 20 |
| 547 | Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant | 50 | 30 |
| 415 | Sgiliau astudio | 30 | 8 |

Dylai dysgwyr ddewis unedau sy'n berthnasol i'w rôl a'r plant y maent yn gofalu amdanynt yn eu sefydliad/lleoliad.

## Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) a Chyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC)

Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o ran faint o amser dysgu ac asesu dan *oruchwyliaeth* sydd ei angen i gyflwyno uned a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Y Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrir ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Mae fformiwla sy'n cyfateb i werth y CAC wedi'i rannu â 10 yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r credyd.

Nodir y CAC ar gyfer y cymhwyster hwn isod.

| Cymhwyster | CAC |
|---|---|
| Lefel 5 Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant | 1200 |

# 2 Gofynion canolfannau

## Cymeradwyo'r cymhwyster

Bydd angen cymeradwyo canolfannau a chymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad desg.

Er mwyn cymeradwyo canolfan, rhaid i sefydliad allu bodloni'r meini prawf cymeradwyo canolfannau. Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi manylion sut i gael cymeradwyaeth am y cymhwyster hwn:

- Llawlyfr Gweinyddu (*Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC*)
- Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i geisio cymeradwyaeth canolfan a chymhwyster, fel sy'n briodol, cyn dechrau cyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Consortiwm yn anelu at gyhoeddi'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gan arwain at bedwar canlyniad posibl:

- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu
- Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster.

Tybir bod y ganolfan a'r cymhwyster wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r statws i'r ganolfan, ac nid cyn hynny.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn a bodloni'r gofynion penodol i ganolfannau a chymwysterau a amlinellir yn y ddogfen hon mewn perthynas â staff cyflwyno a chymhwysedd aseswyr. Bydd y gofynion hyn yn cael eu harchwilio a'u monitro fel rhan o'r broses cymeradwyo cymwysterau a'r broses o fonitro'r cymwysterau hyn yn barhaus.

## Ymrestru ac ardystio

Mae dysgwyr yn cael eu hymrestru a'u hardystio drwy ein system ymrestru ac ardystio ar y we a elwir yn Ardd Furiog. Mae system Gardd Furiog City & Guilds yn galluogi canolfannau i gyflwyno ymrestriadau drwy gydol y flwyddyn, h.y. gellir ymrestru unrhyw bryd ac mewn unrhyw nifer drwy gydol y flwyddyn galendr.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ymrestru ac ardystio, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Staff canolfannau

### Gofynion aseswyr mewnol

Ni fydd aseswyr mewnol yn llunio barn asesu sy'n cyfrif tuag at radd derfynol y cymhwyster; fodd bynnag, byddant yn cefnogi'r broses asesu drwy helpu i gytuno ar y project busnes a thrwy ddarparu tystiolaeth drwy arsylwi a thystio.  Rhaid i unigolion sy'n ymgymryd â'r rôl hon

- fod yn gymwys yn alwedigaethol mewn rôl Gofal Plant a/neu iechyd fel y bo'n briodol i rôl yr ymgeisydd ei hun. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus perthnasol y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar y cymwysterau cyfredol ar gyfer Aseswyr, neu fod yn gweithio tuag at eu cyflawni, e.e.
    - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith **neu**
    - feddu ar Ddyfarniad Aseswyr A1 neu unedau D32/33

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddynt ddangos eu bod yn gweithio'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall wrth iddynt helpu i asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr eraill a achredir yn genedlaethol. Mae rhestr gynhwysfawr o'r rhain i'w gweld ar dudalen we'r cymhwyster.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

Lle y cânt eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth gefnogol fel rhan o'r portffolio, rhaid bod tystion arbenigol

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu naill ai ar gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol a oedd yn cynnwys gwerthuso ymarfer beunyddiol staff.

### Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Bydd swyddogion sicrhau ansawdd mewnol yn gyfrifol am sicrhau y caiff y broses asesu a'r trefniadau asesu eu rhoi ar waith yn briodol, ac y caiff unrhyw dystiolaeth asesu a lunnir (e.e. tystiolaeth portffolio) ei dilysu.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar gymhwysedd fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
    - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu neu
    - Lefel 4 Dystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
    - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

### Cyd-destun Cymreig

Awgrymir bod unigolion, nad ydyn nhw wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, yn meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru i'w cefnogi yn eu swyddi.

### Datblygiad proffesiynol parhaus

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol ac o ran ymarfer gorau wrth gyflwyno mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Rhaid bod dysgwyr wedi cwblhau'r cymhwyster canlynol cyn iddynt ymrestru ar gyfer y cymhwyster hwn:

**8040-16 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant**

Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog (Walled Garden) – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

## Cyfyngiadau oedran

Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo i'r rhai dan 18 oed.

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesu cychwynnol a sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- a oes ganddo unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod eu hangen arno wrth weithio tuag at ei gymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau yn cynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

Dyluniwyd cynnwys yr unedau gorfodol (501 – 506) i adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a feithriniwyd gan y dysgwr wrth gwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r cymhwyster ymarfer yn ymgorffori'r cysyniadau, y damcaniaethau a'r canllawiau a ddatblygwyd yn ystod Lefel 4 yn gadarn wrth roi sgiliau a gallu ar waith ar Lefel 5.

Dylai'r sawl sy'n cyflwyno'r cymhwyster Lefel 5 sicrhau bod y broses o gyflwyno Lefel 5 yn seiliedig ar gynnwys Lefel 4 ond nad yw'n ceisio dyblygu'r cynnwys hwnnw yn ddiangen. Mae'n bosibl y bydd sesiynau gloywi neu ailadrodd elfennau penodol o'r cynnwys yn ddefnyddiol i gefnogi datblygiad; fodd bynnag, wrth gyflwyno dylid canolbwyntio'n bennaf ar feithrin sgiliau Lefel 5, gan ddeall bod dysgwyr eisoes wedi datblygu sail wybodaeth gadarn.

Fel enghraifft, mae'r sail wybodaeth a addysgir drwy uned 407 (Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol) yn sail i elfennau ymarfer uned 502 (Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol). Fel rhan o'r broses o gyflwyno 502, bydd yn fuddiol i'r sawl sy'n cyflwyno'r uned herio dysgwyr i fyfyrio ar y gwahanol fodelau, gwerthoedd ac egwyddorion arwain y maent wedi dysgu amdanynt yn flaenorol wrth iddynt ystyried cynnwys yr uned hon a rhoi eu sgiliau arwain ar waith. Bydd yn arbennig o ddefnyddiol i ddysgwyr fyfyrio ar yr heriau unigol a wynebir ganddynt wrth iddynt weithio fel arweinwyr sy'n cefnogi eraill wrth ymarfer. Dylai cynnwys yr uned hon herio dysgwyr i feithrin eu sgiliau a'u technegau arwain eu hunain, felly bydd yn ddefnyddiol annog dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau hunanddadansoddi pan fyddant yn myfyrio, wrth iddynt ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnwys aelodau o'u tîm (e.e. recriwtio, sefydlu, goruchwylio). Mae'r mathau o gwestiynau y gall fod yn ddefnyddiol eu gofyn yn cynnwys,

- Sut rwyf wedi perfformio yn y sefyllfa hon?
- Sut y gallwn fod wedi ymddwyn yn wahanol?
- Beth allai fod wedi digwydd pe byddwn wedi gweithredu mewn ffordd wahanol?

Bydd sesiynau goruchwylio rheolaidd a chefnogol yn amhrisiadwy wrth gyflwyno'r uned hon er mwyn helpu'r dysgwyr i ategu eu dealltwriaeth o ystyr arwain pobl, a sut y gallant barhau i addasu, datblygu a meithrin eu harddull arwain eu hunain yn effeithiol.

Dylai'r sawl sy'n cyflwyno'r cymhwyster Lefel 5 hefyd ystyried sut y caiff yr unedau dewisol a ddewiswyd gan ddysgwr eu haddysgu, wedi'u cefnogi gan y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sylfaenol sy'n rhan o gynnwys yr unedau gorfodol. Dylai'r dysgu atgyfnerthu'r ffaith bod yr unedau dewisol yn adlewyrchu'r sgiliau penodol sydd eu hangen o fewn y maes cynnwys dewisol, ond y bydd y cynnwys a ddatblygir drwy'r unedau gorfodol yn sail i'r sgiliau hyn.

Dylai'r sawl sy'n cyflwyno bob amser ystyried gofynion penodol dysgwyr unigol (e.e. y cyfnod o amser sydd wedi mynd heibio ers astudio'r cymhwyster gwybodaeth Lefel 4; unrhyw fylchau mewn cyflogaeth y tu allan i'r sector os ydynt wedi cwblhau cymhwyster amgen cymeradwy cydnabyddedig yn lle'r cymhwyster Lefel 4 ac ati), yn ogystal â natur gyfannol cynnwys y cymhwyster hwn, a'r modd y bwriedir iddo gael ei gyflwyno, wrth iddynt ddatblygu ac addasu eu dulliau addysgu er mwyn cynnig model cyflwyno effeithiol.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| Pecyn asesu | Gwefan y Consortiwm |

## Swyddogion Cyswllt/Penodedigion Allanol

Swyddogion Cyswllt/Penodedigion yw'r termau a ddefnyddir gan y Consortiwm i gyfeirio at unigolion a benodir gan City & Guilds neu CBAC i gyflawni rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol neu aseswyr allanol.

Pennwyd meini prawf gan y Consortiwm er mwyn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodedig yn meddu ar y wybodaeth/profiad a sgiliau galwedigaethol cywir i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod pob swyddog cyswllt/penodedig sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd ym meysydd cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gwneud penderfyniadau asesu wedi'i hyfforddi, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn gymwys yn alwedigaethol. Rhaid mynychu hyfforddiant a digwyddiadau safoni.

Mae staff y Consortiwm yn rheoli perfformiad pob swyddog cyswllt/penodedig. Os nodir pryderon am unigolyn, bydd pob partner Consortiwm yn cymryd camau cywirol a fyddai'n gallu cynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall problemau o ran ansawdd perfformiad arwain at derfynu contract Corff Dyfarnu gyda'r swyddog cyswllt/penodedig.

Ar gyfer y cymhwyster hwn, caiff cronfa o aseswyr allanol ei recriwtio gan City & Guilds a fydd yn cynnal yr asesiadau allanol ac yn gwneud y penderfyniad asesu ar gyfer pob dysgwr sy'n cwblhau'r asesiad ar gyfer y cymhwyster hwn.

Bydd pob aseswr allanol yn ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol ar y dull asesu. Bydd aseswyr allanol yn destun proses safoni a samplu aseswyr arweiniol. Cynhelir digwyddiadau hyfforddi a safoni blynyddol ar gyfer yr holl aseswyr.

Bydd aseswyr arweiniol yn helpu i recriwtio a hyfforddi aseswyr newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion gorau a rhoi cefnogaeth mewn perthynas â gweithgareddau asesu, fel arsylwi a thrafodaethau proffesiynol.

Bydd y Consortiwm yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodedigion dwyieithog yn cael eu recriwtio er mwyn diwallu anghenion canolfannau a dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Bydd y lefel o weithgarwch sicrhau ansawdd yn gyson rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

Bydd pob swyddog cyswllt/penodedig yr ystyrir ei fod yn ymgymryd â gweithgaredd rheoleiddiedig yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ac yn cael hyfforddiant Diogelu cyn ymweld â chanolfan.

## Gofynion aseswyr allanol

Rhaid bod aseswyr y cymhwyster hwn yn meddu ar gymhwysedd galwedigaethol – mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu bodloni'r gofynion llawn o fewn yr unedau cymhwysedd y maent yn eu hasesu.
Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus. Rhaid i aseswyr feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sydd o leiaf ar yr un lefel â chynnwys yr uned y maent yn ei hasesu.

Hefyd, rhaid iddyn nhw feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag atyn nhw:

- y Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; **a**
- chynnal eu gwybodaeth alwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir, sydd o leiaf ar yr un lefel â'r unedau y maen nhw yn eu hasesu.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Rhaid i'r rhai sy'n cyflawni rôl sicrhau ansawdd allanol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Bydd rôl Swyddogion

Sicrhau Ansawdd Allanol ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar yr elfen cymeradwyo canolfannau fel rhan o'r broses o ystyried canolfannau i'w derbyn.

Mae'r Consortiwm yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cyswllt/penodedigion feddu ar gymhwyster sicrhau ansawdd allanol, sef naill ai:

Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Allanol

D35 – Gwirio'r Broses Asesu'n Allanol (D35) neu V2 – Tystysgrif Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd y Broses Asesu yn Allanol (V2)

Bydd Swyddogion Cyswllt/penodedigion yn gweithio tuag at ennill y cymhwyster sicrhau ansawdd allanol cyfredol (TAQA) neu y byddant eisoes wedi'i ennill, neu byddan nhw'n meddu ar hen gymhwyster fel V2/D35

Lle y bo swyddog sicrhau ansawdd allanol yn gweithio tuag at fodloni'r gofynion ar gyfer swyddogion sicrhau ansawdd allanol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd allanol arall o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

**Cyd-destun Cymreig**

Awgrymir bod unigolion, nad ydyn nhw wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, yn meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru i'w cefnogi yn eu swyddi.

## Sicrhau Ansawdd Mewnol

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ganddyn nhw strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol ysgrifenedig.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dulliau sicrhau ansawdd mewnol yn:

- sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr o ran defnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennaeth y cymhwyster a/neu'r asesiad
- effeithlon ac yn gost effeithiol

Rhaid i unrhyw ofynion sicrhau ansawdd mewnol fodloni'r polisïau a'r arweiniad a amlinellir yng nghanllawiau'r Consortiwm i ganolfannau. Gellir cael manylion am y canllawiau hyn drwy'r Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol

Os bydd gwaith yn cael ei golli, dylid rhoi gwybod i City & Guilds yn syth am ddyddiad colli'r gwaith, sut digwyddodd hyn, a phwy oedd yn gyfrifol am ei golli. Dylai canolfannau ddefnyddio ffurflen CGC, JCQ/LCW, i roi gwybod i Wasanaethau Cwsmeriaid City & Guilds am yr amgylchiadau.

Mae'n bosibl y bydd angen sylw unigol ar ddysgwyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae'r camau gweithredu posibl yn dibynnu ar yr adeg pan mae'r dysgwr yn symud. Dylai canolfannau gysylltu â City & Guilds cyn gynted â phosibl i ofyn am gyngor ar drefniadau priodol mewn achosion unigol.

## Camymddwyn

Gweler nodiadau canllaw City & Guilds, *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn adnabod achosion o gamymddwyn gan ddysgwyr a/neu staff canolfan a rhoi gwybod amdanynt, a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr a chanolfannau ac yn esbonio cyfrifoldebau staff canolfannau i roi gwybod am gamymddwyn gwirioneddol neu gamymddwyn a amheuir. Gall canolfannau weld ar y ddogfen hon ar wefan City & Guilds.

Nodir enghreifftiau o gamymddwyn gan ddysgwyr isod (sylwer nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cydgynllwynio ag eraill
- copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh er mwyn helpu i wneud hynny), neu ganiatáu i waith
- gael ei gopïo
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- datganiadau dilysrwydd anwir mewn perthynas ag asesiadau
- personadu.

Mae gweithredu fel hyn yn gyfystyr â chamymddwyn, a bydd cosb (e.e. diarddel o'r asesiad) am wneud hyn.

Gweler y ffurflen yn y ddogfen *Managing cases of suspected malpractice in examinations and assessments*.

## Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig

Ystyr trefniadau mynediad yw addasiadau sy'n galluogi dysgwyr ag anableddau, anghenion addysgol arbennig ac anafiadau dros dro i sefyll yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud cyn i asesiad gael ei gynnal.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau ar ddechrau rhaglen ddysgu y bydd y dysgwyr yn cael cyfle i fodloni gofynion y cymhwyster.

Gweler *Access Arrangements, Reasonable Adjustments and Special Consideration y Cyd-gyngor Cymwysterau ac Access arrangements – when and how applications need to be made to City & Guilds*, am ragor o wybodaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael afiechyd, anaf neu anhwylder dros dro ar adeg yr asesiad. Lle y byddwn yn gwneud hyn, bydd yn digwydd ar ôl yr asesiad.

Dylai'r Swyddog Arholiadau (neu unigolyn sy'n cyflawni rôl gyfatebol) yn y ganolfan gyflwyno ceisiadau am drefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig i City & Guilds. Am ragor o wybodaeth, gweler y fersiwn gyfredol o ddogfen JCQ, *A guide to the special consideration process*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds:
**http://www.cityandguilds.com/delivering-ourqualifications/ centre-development/centre-document-library/policies-andprocedures/access-arrangements-reasonable-adjustments**

# 4. Asesu

## Crynodeb o’r asesu

Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- portffolio o dystiolaeth
- project busnes
- trafodaeth broffesiynol

Gellir llwytho pecyn asesu i lawr sy'n nodi gofynion yr asesiad o wefan y Consortiwm.

## Efelychu

Creu sefyllfa artiffisial at bwrpasau asesu yw efelychu. Dylai unrhyw efelychu gael ei gyfyngu i gael tystiolaeth lle nad yw'n bosibl ei gynhyrchu'n naturiol drwy weithgareddau gwaith arferol (e.e. oherwydd pryderon yn ymwneud ag iechyd a diogelwch).

Ar gyfer y cymhwyster hwn, **ni** chaniateir efelychu fel tystiolaeth o ymarfer at ddibenion asesu crynodol.

Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau wedi'u hefelychu fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gan y dysgwr.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid rhoi'r cyfyngiadau canlynol ar waith wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cyflawni pob uned, a chwblhau ac asesu gofynion cysylltiedig. o fewn cyfnod ymrestru'r ymgeisydd.

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad neu gymwysterau blaenorol dysgwyr a gyflawnwyd yn barod i gyfrannu tuag at gymhwyster newydd. Caniateir cydnabod dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am gydnabod dysgu blaenorol a pholisi'r consortiwm yn hyn o beth, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y consortiwm yn www.dysguiechydagofal.cymru.

## Dyfarnu'r cymhwyster

Dyfernir y cymhwyster yn seiliedig ar farn gyfannol derfynol a gymhwysir gan aseswr allanol ar ôl adolygu'r dystiolaeth a welwyd ym mhob un o'r asesiadau.

## Cyfleoedd ailsefyll

Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran sawl gwaith y gall dysgwyr ailsefyll/ailgyflwyno tasgau y byddant wedi'u methu fel rhan o'r cymhwyster hwn.

Gweler y pecyn asesu am ganllawiau ar y cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr sy'n ailsefyll yr asesiadau os oes angen, ac am ganllawiau i'w dilyn pan fydd dysgwr yn methu â chwblhau unrhyw elfen o'r asesiad ar yr ymgais gyntaf.

## Prosesau asesu allanol

Mae'r pecyn asesu yn amlinellu'r adegau yn ystod y broses asesu lle y mae'n ofynnol i'r ganolfan gydgysylltu a threfnu gwasanaethau un o aseswyr allanol City & Guilds.

## Rolau

Bydd y rolau canlynol yn ymwneud â'r gwaith o asesu'r cymhwyster hwn.

**Tiwtor** – yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor hwyluso'r broses asesu ond ni fydd yn gyfrifol am lunio unrhyw farnau asesu.

**Aseswr mewnol**[1] – aseswr cymwys, sy'n rhoi cefnogaeth wrth gynnal yr asesiadau. Bydd yr aseswr mewnol yn cefnogi'r broses asesu er mwyn darparu tystiolaeth sy'n ategu penderfyniad yr asesiad allanol. Bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am gadarnhau dilysrwydd cyfle project busnes a chynllun project y dysgwr, darparu digon o dystiolaeth asesu a chynnal o leiaf ddwy sesiwn arsylwi ar y dysgwr yn rhoi ei broject ar waith. Bydd hefyd yn helpu'r dysgwr i ddarparu tystiolaeth fel rhan o'i bortffolio, yn ogystal â darparu sesiynau arsylwi a thystio ychwanegol lle y bo'n briodol.

**Rheolwr/cyflogwr** – yn deall prosesau mewnol arferol y lleoliad, dogfennaeth, systemau cyfathrebu ac ati, ac yn gallu asesu a yw'r dysgwr yn eu defnyddio'n briodol. Lle y bo'n briodol gall ddarparu tystiolaeth fel tyst arbenigol o ran ymarfer dyddiol y gweithle. Mae'r rheolwr/cyflogwr yn gyfrifol am gadarnhau dilysrwydd prosiect busnes y dysgwr, gan sicrhau bod y cyfle a gyflwynwyd yn hyfyw o safbwynt gweithredu busnes.

**Gweithiwr Proffesiynol Arall** – tyst arbenigol – ar gyfer gweithdrefnau arbenigol neu unedau y mae angen arbenigedd penodol ar eu cyfer, gall lleoliadau ddarparu tystiolaeth ychwanegol gan dyst arbenigol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** – mae'n sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol.

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol –** bydd yn cefnogi ymweliad cychwynnol â'r ganolfan fel rhan o broses y corff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo cymwysterau, gan sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith yn y ganolfan.

**Aseswr Allanol City & Guilds**[2] – aseswr cymwys, a benodir gan City & Guilds, ac sy'n gyfrifol am gynnal sesiynau arsylwi uniongyrchol ar y dysgwr yn ymarfer, yn ogystal â chynnal y drafodaeth broffesiynol. Bydd yr aseswr allanol yn adolygu'r holl dystiolaeth derfynol a gyflwynir ar gyfer y portffolio a'r project busnes ac yn llunio'r farn asesu derfynol ar gyfer y dysgwr.

---

1 Er mwyn cael cadarnhad o ofynion asesu mewnol y cymhwyster hwn, gweler adran '**Gofynion canolfannau**' Llawlyfr y Cymhwyster hwn.

2 Er mwyn cael cadarnhad o ofynion asesu allanol y cymhwyster hwn, gweler adran '**Cyflwyno'r cymhwyster hwn**' Llawlyfr y Cymhwyster hwn.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds –** bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r barnau asesu a lunnir gan aseswyr allanol.

# 5 Unedau

## Argaeledd unedau

Mae'r holl unedau wedi'u cynnwys yn y llawlyfr hwn;

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned |
|---|---|
| 501 | Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog |
| 502 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol |
| 503 | Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad |
| 504 | Ymarfer proffesiynol |
| 505 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant |
| 506 | Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad |
| 507 | Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant |
| 508 | Arwain a rheoli caffaeliad iaith newydd drwy drochi |
| 509 | Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd i ddatblygu sgiliau rhianta |
| 510 | Arwain a rheoli sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu |
| 511 | Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol |
| 512 | Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio |
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi |
| 547 | Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant |
| 415 | Sgiliau astudio |

Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys yr unedau ac sy'n berchen arno.

Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

## Canllawiau ar gyflwyno cynnwys yr unedau

Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi canllawiau ar y gwahanol elfennau sydd i'w cael yn yr unedau a gwybodaeth am gyflwyno'r unedau.

### Crynodeb o'r uned

Yn y rhan hon mae crynodeb byr, lefel uchel o gynnwys yr uned gan gynnwys pa wybodaeth ac ymarfer sydd dan sylw. Hefyd, gall y crynodeb o'r uned roi gwybodaeth am fathau o leoliadau mae'r uned yn berthnasol iddyn nhw neu wedi'i hatal rhag cael ei chyflwyno ynddyn nhw.

### Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. yr hyn y mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu.

### Meini prawf asesu

Mae meini prawf asesu'n rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w cyflawni. Gall meini prawf asesu gael eu hategu gan amrediad, a nodir gan eiriau neu gymalau mewn testun **trwm.**

### Amrediad

Bydd rhai geiriau neu gymalau yn y meini prawf asesu mewn testun **trwm**. Golyga hyn fod amrediad wedi cael ei chyflwyno a fydd i'w gweld ar waelod y deilliant dysgu. Mae'r amrediad yn cynnwys gwybodaeth am faint a dyfnder y manylion sydd eu hangen ar gyfer meini prawf asesu penodol. Nid yw'r amrediad yn rhestr gynhwysfawr, gallai enghreifftiau eraill fod yn addas i'r maes testun hwn. Y gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr amrediad yw'r rheini sy'n allweddol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned – **rhaid ymdrin â'r holl elfennau a restrir yn yr amrediad fel rhan o gyflwyno'r uned.**

Mae'n ofynnol cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond nid oes disgwyl arsylwi holl elfennau'r amrediad yn rhan o'r broses asesu; gan adlewyrchu'r ffaith mai barn gyfannol yw'r farn asesu, a'i bod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu.

### Canllawiau cyflwyno

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr wrth addysgu'r uned ac maen nhw'n cynnwys ystyriaethau penodol ar gyfer cyflwyno cynnwys yr uned lle bo hynny'n berthnasol.

Mae'r canllawiau cyflwyno hefyd yn cynnwys diffiniadau o derminoleg allweddol y cyfeirir ati yn yr uned, ac yn darparu cefndir a chefnogaeth bellach mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y cynnwys.

### Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig

Cyflwynir y rhain fel canllaw i diwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr sy'n cyflwyno'r cynnwys ac maen nhw'n dangos ble y gall cynnwys yr unedau fod yn berthnasol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol cysylltiedig. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gael eu cyflwyno fel

rhan o unedau. D.S. – er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y rhai a restrir yn gyfredol, mae'n bosibl y bydd fersiynau newydd neu ddiwygiedig o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn disodli'r rhai a restrir.

**Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig**
Darperir y rhain er hwylustod cyfeirio ac er mwyn rhoi cyd-destun i'r uned, a gellir eu defnyddio er mwyn helpu i gyflwyno'r cynnwys a rhoi cyd-destun ehangach i'r sector Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Dim ond canllaw yw'r rhestr hon ac nid yw'n gynhwysfawr. Dylid sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth, canllawiau, gwefannau a dogfennau ac ati a restrir yn gyfredol ac yn berthnasol cyn cyflwyno cynnwys yr uned.

**Gwerth oriau dysgu dan arweiniad (ODA)**
Mae'r gwerth hwn yn nodi faint o Oriau Dysgu dan Arweiniad y bydd eu hangen ar gyfer cyflwyno uned i ddysgwr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â thiwtoriaid, hyfforddwyr neu hwyluswyr fel rhan o'r broses ddysgu, a dysgu ffurfiol gan gynnwys dosbarthiadau, sesiynau hyfforddi, seminarau a thiwtorialau. Mae'r gwerth hwn hefyd yn cynnwys yr amser a gymerir i baratoi ar gyfer yr asesiad ar gyfer yr uned a chwblhau'r asesiad hwnnw. Mae oriau dysgu dan arweiniad yn cael eu talgrynnu i'r pum awr agosaf.

**Gwerth credyd**
Mae'r gwerth hwn yn seiliedig ar yr oriau dysgu dan arweiniad yn ogystal ag unrhyw amser dysgu ychwanegol neu weithgareddau ychwanegol y bydd angen i'r dysgwr eu gwneud er mwyn cwblhau'r uned. Er enghraifft, gall hyn gynnwys amser ar gyfer dysgu anffurfiol, astudio preifat, ymarfer, myfyrio ac ati. Mae cyfanswm yr oriau yn cael ei rannu â 10 i roi'r gwerth credyd. Mae gwerthoedd credyd yn cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

# Uned 501 Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain y defnydd o ymchwil ac ymarfer y mae tystiolaeth yn sail iddo ar gyfer datblygiad cyfannol a llesiant plant

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Ymchwil gyfoes ac ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth ar gyfer sicrhau datblygiad cyfannol a llesiant plant

1.2 Sut i ddadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, modelau a fframweithiau sy'n cefnogi datblygiad cyfannol

1.3 Sut y gellir cymhwyso tystiolaeth ymchwil ochr yn ochr â damcaniaethau, modelau a fframweithiau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Arwain y defnydd o ymchwil, tystiolaeth, damcaniaethau, modelau a fframweithiau er mwyn llywio ymarfer sy'n cefnogi datblygiad cyfannol a llesiant plant

1.5 Sicrhau y caiff enghreifftiau cadarnhaol o arferion da eu rhannu yn y gweithle/lleoliad

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu hawliau plant a llais y plentyn

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall:

- sut i roi egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith
- rôl 'sylwadau cyffredinol' perthnasol ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

- sut i annog cyfranogiad a llais plant
- manteision cymryd risgiau mewn perthynas â datblygiad cyfannol a llesiant plant
- camau gweithredu i'w cymryd os bydd safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn yn gwrthdaro â safbwyntiau a dymuniadau ei deulu/gofalwyr

2.2 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:

- rhoi dulliau seiliedig ar hawliau ar waith
- sicrhau bod gan blant ddewis ac y cânt eu cynnwys mewn penderfyniadau
- sicrhau y caiff plant eu cefnogi i fynegi eu teimladau a 'beth sy'n bwysig'
- ystyried a thrafod anghenion plant
- sicrhau bod gweithwyr yn cydbwyso manteision cymryd risgiau â'r angen i sicrhau diogelwch

2.3 Datblygu diwylliant sy'n sicrhau y caiff gweithwyr eu cefnogi i fynd ati i herio ymarfer nad yw'n arddel hawliau plant

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli lleoliadau sy'n defnyddio eu dealltwriaeth o ddamcaniaethau datblygiad plant

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall:

- damcaniaethau am dwf, dysgu a datblygiad cyfannol
- camau allweddol datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd yn ystod:
  - y cyfnod cyn-geni
  - plentyndod cynnar
- ffactorau posibl a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a allai effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
- y posibilrwydd y gall straen a thrawma beri niwed i ddatblygiad a llesiant cyffredinol plant drwy gydol eu hoes
- sut y gall camdriniaeth a thrawma effeithio ar niwroddatblygiad plant wrth iddynt dyfu i fyny
- sut y gall arddulliau bondio ac ymlynu effeithio ar y ffordd y bydd plant yn ymddwyn mewn cymdeithas, yn meithrin perthnasoedd ac yn ymateb i eraill
- y posibilrwydd y gall ymddygiad plant sydd wedi cael eu cam-drin neu sydd wedi profi trawma newid
- cysylltiadau rhwng ymddygiad, camau datblygiadol, a phrofiadau o gam-drin a thrawma

3.2 Sicrhau y caiff gweithwyr eu cefnogi i roi eu dealltwriaeth o ddatblygiad plant ar waith

Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu ac yn cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:
- ystyr y term 'canlyniadau cadarnhaol' a'u rôl wrth helpu plant i'w cyflawni
- sut i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant
- ystyr 'atal' ac 'ymyrryd yn gynnar' a sut y gall hyn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant
- dulliau o arsylwi ac asesu er mwyn monitro a nodi camau dysgu, twf a datblygiad cyfannol gan gynnwys sgema
- y broses ar gyfer cofnodi canlyniadau arsylwadau ac asesiadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad a chanllawiau cenedlaethol
- pwysigrwydd cynllunio ar gyfer cynnydd
- sut i hybu'r broses o feithrin sgiliau annibyniaeth yn unol ag oedran a cham datblygu
- sut y gellir addasu ymarfer er mwyn gwahaniaethu a chynnig cyfleoedd estynedig
- pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i ddysgu, twf a datblygiad cyfannol
- rôl y teuluoedd/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf a phartneriaid mewn dysgu, twf a datblygiad parhaus
- cysylltiadau rhwng darparu amgylchedd diogel ac ysgogol a datblygiad plant
- sut y mae dysgu drwy brofiad yn cyfrannu at ddysgu, twf a datblygiad cyfannol
- sut i sicrhau bod datblygiad cyfannol plant yn cael ei gefnogi, gan sicrhau amgylchedd diogel ac ysgogol
- rôl atgyfnerthu cadarnhaol wrth gefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.2 Arwain a rheoli **amgylcheddau** sy'n cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad

4.3 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:
- defnyddio arsylwadau i nodi cam twf a datblygiad cyfannol plant a'r broses o ddatblygu sgema
- cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau ystyrlon a phleserus a chefnogi trefnau dyddiol
- rhoi cyfleoedd dysgu ar waith, drwy ddarparu gweithgareddau sy'n gwahaniaethu, yn cynllunio ar gyfer dilyniant ac yn cynnig cyfleoedd estynedig
- hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol
- defnyddio atgyfnerthiad cadarnhaol a chanmoliaeth sy'n cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

4.4 Gweithredu os nad yw plentyn yn datblygu yn unol â'i oedran a'i gam datblygu disgwyliedig

### Amrediad

**Amgylcheddau:** Cynhwysol, dwyieithog/amlieithog, diogel, meithringar, ysgogol a chreadigol

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli'r defnydd o chwarae i gefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i gefnogi **eraill** i ddeall pwysigrwydd creu amgylchedd chwarae cyfoethog o ansawdd wedi'i arwain gan y plentyn er mwyn manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer dysgu, twf a datblygiad cyfannol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer cynllunio, hybu a defnyddio gwahanol fathau o chwarae i gefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol plant

### Amrediad

**Eraill:** Teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill

---

Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli'r broses gynllunio i blant

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.1 Arwain a rheoli ymarfer ar gyfer datblygu, adolygu a gwerthuso cynlluniau sy'n cefnogi twf, dysgu a datblygiad cyfannol plant

6.2 Sicrhau bod gweithwyr yn deall eu rôl, eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd mewn perthynas â'r broses gynllunio

6.3 Sicrhau y caiff gweithwyr eu cefnogi i nodi adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion plant

6.4 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** er mwyn monitro ac adolygu cynlluniau yn y gweithle/lleoliad er mwyn cadarnhau'r canlynol:
- cynnydd plant unigol
- effeithiolrwydd cyffredinol y broses gynllunio ac ymarfer yn y gweithle/lleoliad
- meysydd i'w gwella

6.5 Sicrhau y caiff gwybodaeth o'r broses o fonitro ac adolygu cynlluniau ei chyflwyno i unigolion eraill perthnasol yn unol â gofynion y gweithle/lleoliad

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli'r broses o gefnogi newid a throsglwyddiadau

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.1 Cefnogi plant ac **eraill** i ddeall effaith bosibl newid a throsglwyddiadau ar ganlyniadau cadarnhaol

7.2 Arwain a rheoli ymarfer sy'n helpu plant, eu teuluoedd/gofalwyr ac eraill i nodi'r canlynol:
- effaith bosibl newidiadau a throsglwyddiadau
- ffactorau sy'n atal newid a throsglwyddiadau llwyddiannus
- canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â newid a throsglwyddiadau

7.3 Galluogi gweithwyr i nodi unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn helpu plant yn ystod newid a throsglwyddiadau

7.4 Arwain a rheoli dulliau cydweithredol o gefnogi plant yn ystod newid a throsglwyddiadau

### Amrediad

**Eraill:** Teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill

# Uned 501 Arwain a rheoli ymarfer plentyn-ganolog

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plan, yn arbennig:

- Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog – Deilliannau dysgu: 1; 3; 4; 6
- Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli – Deilliannau dysgu: 2;
- Uned 407 Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol – Deilliannau dysgu: 2;

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 501.

Mae **cyfranogiad plentyn** yn cyfeirio at y broses o gynnwys plant mewn penderfyniadau a chofnodi eu hoff bethau a'u cas bethau. Dylid gwneud hyn gyda phlant o bob oedran ac yn achos plant iau a babanod, gallai gyfeirio at gyfathrebu ar lafar a chyfathrebu di-eiriau fel crïo, aflonyddwch, diflastod. Dylai hefyd gynnwys strategaethau gwrando gweithredol ac ymgysylltu a chyfranogi.

**Mae gan blant ddewis a chânt eu cynnwys mewn penderfyniadau** fel sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plentyn.

**Caiff plant eu cefnogi i fynegi eu teimladau a 'beth sy'n bwysig'** fel sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plentyn.

Caiff **Sylwadau Cyffredinol** ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) eu cyfeirio at lywodraethau'r gwledydd hynny sydd wedi cadarnhau'r Confensiwn). Eu diben yw ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o agwedd benodol ar y Confensiwn, ac adlewyrchu'r amodau cyfnewidiol y mae plant yn eu hwynebu wrth dyfu i fyny.

Mae **Arferion Da** yn cyfeirio at arferion a nodwyd gan arolygiaethau/sefydliadau/gwaith ymchwil mewn adroddiadau ac adolygiadau. E.e. adroddiadau ac adolygiadau thematig ESTYN, adroddiadau AGC/AGIC. Gallent hefyd gynnwys cymeradwyaethau a gwobrau.

Gallai **her gadarnhaol a sicrhau atebolrwydd** gyfeirio at achosion lle nad yw cydweithwyr yn ystyried llais y plentyn nac yn gweithio mewn ffyrdd plentyn-ganolog. Gallai hefyd gynnwys her mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag iaith, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Gweithredu** os nad yw plentyn yn datblygu yn unol â'i oedran a'i gam datblygu disgwyliedig: gallai gynnwys arsylwi amlach, trafodaethau â theuluoedd/gofalwyr/eraill, atgyfeirio'r achos at asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill.

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCB2:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau sy'n hyrwyddo lles unigolion
- **SCDLMCB3:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy’n ymdrin yn effeithiol â chyfnodau o drosglwyddo a digwyddiadau pwysig mewn bywyd
- **SCDLMCB6:** Arwain a rheoli darpariaeth gwasanaethau gofal sy’n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
- **SCDLMCE1:** Arwain a rheoli arfer a systemau cyfathrebu effeithiol

## *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)
- Deddf Plant 1989 a (2004)
- Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 2017 Llywodraeth Cymru
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015
- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
- Deddf Diogelu Data (1998)
- Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)
- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Strategaeth Atal (2015)
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (2006)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (2015)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (lleol)
- Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) (2017)
- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg
- Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant (2004)

## *Adnoddau*

- Arolygiaeth Gofal Cymru – https://arolygiaethgofal.cymru/ein-hadroddiadau
- ESTYN –
- Adolygiadau thematig – **https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig**
- Adroddiadau blynyddol – **https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol**
- Arweiniad ar gyfer arolygu mewn lleoliadau nas cynhelir – **https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/llawlyfr-arweiniad-ar-gyfer-arolygu-addysg-gofal-mewn-lleoliadau-reoleiddir-heblaw-ysgolion**
- Arolygiaeth Iechyd Cymru
- https://agic.org.uk/ein-hadroddiadau
- Cyhoeddiadau Comisiynydd Plant Cymru
- https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/
- Cymru Ifanc
- http://cymruifanc.cymru/
- Hawliau a chyfranogiad plant

- https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/07/Childrens_participation_in_decision-making_-_survey_of_participation_workers.pdf
- Chwarae Cymru
- https://www.chwaraecymru.org.uk/cym/cartref
- Saith nod craidd
- **https://gweddill.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/implementation-of-childrens-rights/index1b1b.html?force=cy**
- Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at 12 oed **https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf**
- Llywodraeth Cymru:
- Cynllun gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar
- https://gweddill.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/childcare-play-early-years-workforce-plan/index1b1b.html?force=cy
- Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/early-years/early-years-outcomes-framework/?lang=cy
- Damcaniaeth trosglwyddo
- **www.younglives.org.uk/sites/www.younglives.org.uk/files/BvLF-ECD-WP48-Vogler-Early-Childhood-Transitions.pdf**
- Canllawiau NICE i blant a phobl ifanc
- https://www.nice.org.uk/guidance/population-groups/children-and-young-people/products?ProductType=Guidance&Status=Published

# Uned 502 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 65 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y galluoedd sydd eu hangen i arwain a rheoli perfformiad tîm. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain datblygiad diwylliant cadarnhaol sy'n ysgogi ac yn ysbrydoli

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 Defnyddio modelau arwain, fframweithiau damcaniaethol ac arferion gorau a welwyd/a brofwyd gan arweinwyr/rheolwyr eraill er mwyn datblygu eich ymarfer eich hun fel arweinydd

1.2 Arwain datblygiad diwylliant ac amgylchedd sydd:
- yn agored, yn dryloyw ac yn atebol
- yn ddiogel ac yn gynhwysol
- yn cydnabod, yn gwerthfawrogi ac yn parchu tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth
- yn cydnabod ac yn ymgorffori pwysigrwydd gofal tosturiol
- yn cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- yn gwerthfawrogi cyfraniadau gweithwyr tuag at gyflawni canlyniadau cadarnhaol a chyflenwi gwasanaethau
- yn annog arloesedd a chreadigrwydd
- yn annog dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar atebion
- yn cymell gweithwyr

1.3 Helpu gweithwyr i ddeall gweledigaeth a rennir a chyfeiriad strategol y gweithle/lleoliad a'u rôl wrth helpu i gyflawni ei amcanion

1.4 Defnyddio arddulliau a dulliau arwain i roi gweledigaeth y gweithle/lleoliad ar waith mewn ffyrdd sy'n fyfyriol, yn gymhellol, yn arloesol ac yn gynhwysol

1.5 Sicrhau y caiff cyfraniad cadarnhaol gweithwyr ei gydnabod a'i werthfawrogi

1.6 Gweithredu fel model rôl cadarnhaol ar gyfer arloesedd, creadigrwydd a newid

1.7 Ymateb mewn ffordd effeithlon, gadarnhaol ac adeiladol i broblemau, canmoliaeth, pryderon neu gwynion a gaiff eu codi

1.8 Myfyrio ar eich rhinweddau a'ch ymddygiad arwain eich hun a'u gwerthuso, ac ystyried i ba raddau y maent yn cefnogi diwylliant cymhellol ac ysbrydoledig o fewn y tîm ac wrth weithio gydag eraill

---

Deilliant dysgu:

2. Rheoli prosesau recriwtio a dethol effeithiol seiliedig ar werthoedd

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi prosesau recriwtio seiliedig ar werthoedd
2.2 Sicrhau bod prosesau recriwtio a dethol yn bodloni gofynion dethol diogel
2.3 Gweithio o fewn gofynion y sefydliad er mwyn:
- gwerthuso'r wybodaeth, deall y profiad a'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithlu a nodi unrhyw fylchau
- helpu i ddatblygu ac adolygu disgrifiadau swydd a manylebau person sy'n diwallu anghenion y gwasanaeth a ddarperir ac unrhyw fylchau a nodwyd
- cytuno ar brosesau recriwtio a dethol gydag eraill
- cytuno sut y gall plant gymryd rhan yn y broses recriwtio a dethol a sut y gellir cynnwys eu safbwyntiau a'u dewisiadau
- hybu amrywiaeth yn y gweithlu

2.4 Gweithio o fewn gofynion y sefydliad er mwyn:
- defnyddio prosesau recriwtio a dethol seiliedig ar werthoedd y cytunwyd arnynt
- darparu gwybodaeth ac adborth clir a chywir i ddysgwyr lle y gofynnir am hynny
- Cadw cofnodion clir a chywir o'r broses recriwtio a dethol

2.5 Gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau recriwtio a dethol a ddefnyddir yn eich gweithle/lleoliad

**Amrediad**

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

3. Rheoli cyfnod cynefino gweithwyr seiliedig ar werthoedd effeithiol

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi prosesau sefydlu seiliedig ar werthoedd

3.2 Sicrhau y caiff trefniadau eu gwneud ar gyfer gweithwyr sy'n bodloni gofynion deddfwriaethol, gofynion rheoleiddiol a gofynion y gweithle/lleoliad

3.3 Sicrhau y caiff **gweithwyr** gopïau ysgrifenedig a disgwyliadau clir o ran y canlynol:
  - eu disgrifiad swydd, rôl, manyleb person, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau
  - eu contract gan gynnwys telerau cyflogaeth
  - gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
  - unrhyw Godau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol a chymwys
  - y gweithdrefnau a'r arferion y mae'n rhaid iddynt eu dilyn yn y gwaith

3.4 Sicrhau y caiff gweithwyr gyfleoedd i drafod materion sy'n ymwneud ag ymarfer, eu cynnydd a'u hanghenion dysgu a datblygu yn rheolaidd

3.5 Sicrhau bod gan weithwyr gynllun datblygiad personol sy'n ystyried y canlynol:
- eu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad presennol
- disgwyliadau eu rôl
- y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen

3.6 Sicrhau bod pob penodiad parhaol neu gyfnod penodol yn amodol ar fodloni'r amodau cyflogaeth

3.7 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer sefydlu gweithwyr asiantaeth a/neu wirfoddolwyr lle y cânt eu defnyddio

3.8 Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd prosesau sefydlu

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Gweithwyr:** sy'n newydd i'r rôl, sy'n newydd i'r lleoliad, sy'n caffael sgiliau neu gyfrifoldebau newydd, sy'n dychwelyd ar ôl seibiant o weithio neu staff sy'n gwirfoddoli/staff asiantaeth

---

### Deilliant dysgu:

4. Rheoli datblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr drwy oruchwylio ac adolygu perfformiad

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer goruchwylio a chynnal adolygiadau o berfformiad

4.2 Sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig ar waith ar gyfer goruchwylio a chynnal adolygiadau o berfformiad ar gyfer pob gweithiwr

4.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall sut y mae eu gwaith a'u datblygiad parhaus yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant

4.4 Sicrhau bod cofnodion sesiynau goruchwylio ac adolygiadau o berfformiad yn gywir ac y cânt eu cwblhau o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt

4.5 Defnyddio sesiynau arsylwi ac adborth gan eraill i asesu ymarfer gweithwyr yn erbyn eu rolau a'u cyfrifoldebau diffiniedig

4.6 Creu amgylchedd cadarnhaol a diogel sy'n gwneud y canlynol:
  - hybu hunanfyfyrio

- cefnogi deialog agored
- cefnogi prosesau cyfnewid gwybodaeth ac adborth adeiladol

4.7 Defnyddio sesiynau goruchwylio â gweithwyr i wneud y canlynol:
- rhoi adborth cytbwys ac adeiladol ar eu hymarfer
- myfyrio ar sut y mae eu hymarfer yn cefnogi canlyniadau cadarnhaol i blant
- cytuno ar gamau gweithredu, terfynau amser a nodau
- monitro a gwerthuso'r broses o gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt
- nodi meysydd dysgu a datblygu a'r gweithgareddau a'r dulliau a ddefnyddir i'w cefnogi
- cefnogi ymdrechion i fyfyrio ar ymarfer ac i ystyried i ba raddau y mae gweithgareddau wedi diwallu eu hanghenion dysgu a datblygu
- eu hannog i gymryd cyfrifoldeb personol dros eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain
- deall unrhyw ofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol neu sefydliadol ar gyfer dysgu a datblygu
- deall sut y caiff eu cyfraniad at ansawdd y gwasanaeth ei gydnabod a'i werthfawrogi
- trafod a chytuno ar gamau gweithredu mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag iechyd neu lesiant
- eu helpu i addasu i newid

4.8 Cynnig cyfleoedd datblygu er mwyn helpu gweithwyr i ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol

4.9 Cael mynediad i gefnogaeth ychwanegol i weithwyr nad ydynt yn teimlo eu bod yn gymwys i ymgymryd ag unrhyw agwedd ar eu gwaith

4.10 Gwerthuso sut y mae eich ymarfer chi eich hun yn cefnogi sesiynau goruchwylio ac adolygiadau o berfformiad effeithiol

## Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

5. Rheoli perfformiad gwael

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n gysylltiedig â rheoli perfformiad gwael a sut a phryd y dylid ceisio cyngor arbenigol.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer ymdrin ag achosion posibl o berfformiad gwael a chamymddwyn

5.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag achosion posibl o **gamymddwyn a pherfformiad anfoddhaol**
5.4 Sicrhau bod gweithwyr yn cael adborth clir, teg a rheolaidd ar unrhyw broblemau posibl o ran ymddygiad a pherfformiad anfoddhaol
5.5 Datblygu diwylliant ac amgylchedd lle mae plant a/neu deuluoedd/gofalwyr/eraill yn teimlo y gallant herio ymddygiad a pherfformiad nad yw o bosibl yn cyrraedd y safonau disgwyliedig
5.6 Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cefnogi'r broses o roi gwybod am bryderon ynghylch ymddygiad a pherfformiad
5.7 Cytuno ar opsiynau rheoli os bydd ymddygiad a pherfformiad gweithwyr yn is na'r safon ddisgwyliedig
5.8 Defnyddio sesiynau goruchwylio i ystyried a mynd i'r afael â'r resymau dros ymddygiad a pherfformiad sydd o bosibl yn is na'r safonau disgwyliedig gyda gweithwyr, er mwyn nodi'r achosion sylfaenol ac atebion posibl
5.9 Asesu a yw gweithwyr yn llwyddo i gyflawni'r amcanion ymddygiad a pherfformiad a bennwyd ar eu cyfer er mwyn cadarnhau a gyflawnwyd gwelliannau
5.10 Sicrhau cyfrinachedd mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chamymddwyn neu berfformiad anfoddhaol yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Camymddwyn a pherfformiad anfoddhaol:** gan gynnwys Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol

---

Deilliant dysgu:

6. Rheoli gwrthdaro mewn timau

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.1 Nodi sefyllfaoedd a all arwain at wrthdaro, mwy o bwysau neu argyfwng ac ymyrryd er mwyn osgoi sefyllfaoedd o'r fath
6.2 Rhoi strategaethau, modelau a fframweithiau damcaniaethol ar waith i ddatrys achosion o wrthdaro o fewn y tîm os byddant yn codi

---

Deilliant dysgu:

7. Rheoli'r broses o ddirprwyo tasgau

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer dirprwyo tasgau
7.2 Sicrhau bod gweithwyr yn glir o ran y canlynol:

- diben y tasgau a ddirprwywyd iddynt
- eu rôl, cyfrifoldeb ac atebolrwydd dros y tasgau
- y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau
- y camau gweithredu i'w cymryd os nad ydynt yn teimlo'n gymwys, neu os ystyrir nad yw'r dasg yn ddiogel, gan gynnwys gwrthod ymgymryd â'r dasg
- unrhyw hyfforddiant neu gefnogaeth a fydd ar gael i'w cefnogi wrth ymgymryd â'r tasgau
- sut y caiff eu gwaith ei fonitro

7.3 Dilyn gweithdrefnau llywodraethu y cytunwyd arnynt pan gaiff tasgau eu dirprwyo gan asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill

7.4 Cael mynediad i gefnogaeth ac adnoddau ychwanegol er mwyn galluogi gweithwyr i ymgymryd â'r tasgau a ddirprwywyd iddynt lle bo angen hynny

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

8. Arwain a rheoli arloesedd a newid

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.1 Nodi meysydd drwy hunanwerthuso lle y gellid arloesi neu newid yn y gweithle/lleoliad

8.2 Nodi rhanddeiliaid posibl i gefnogi a datblygu newid neu arloesedd

8.3 Defnyddio dulliau gweithredu cydweithredol i gynnwys plant a'u teuluoedd/gofalwyr wrth arloesi a newid

8.4 Hwyluso dealltwriaeth a rennir o'r angen i arloesi a newid a sut y mae hyn yn cefnogi'r canlynol:

- gweledigaeth a rennir ac amcanion y gweithle/lleoliad
- y gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol

8.5 Sicrhau bod gweithwyr ac eraill yn cael eu cefnogi i ddeall unrhyw gynlluniau rheoli newid, eu rôl a'u cyfrifoldebau a sut y caiff y cynlluniau eu gwerthuso

8.6 Asesu'r heriau a'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig a gweithio gydag eraill i ddatblygu atebion

8.7 Addasu cynlluniau ac ymarfer er mwyn ystyried problemau neu rwystrau wrth iddynt godi

8.8 Nodi mesurau i asesu llwyddiant y datblygiad arloesol neu'r newid

8.9 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y cynhelir ansawdd y gwasanaeth yn ystod cyfnodau o newid

# Uned 502 Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plan, yn arbennig:

- Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog – Deilliannau dysgu: 2
- Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli – Deilliannau dysgu: 1; 2; 3
- Uned 407 Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol – Deilliannau dysgu: 1; 3; 4: 5; 6; 7

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 502.

Byddai **gweithwyr asiantaeth** hefyd yn cynnwys gweithwyr ar gontractau annibynnol

**Cynllun rheoli newid:** gall gynnwys:

- Cynllun datblygu'r gweithlu
- Cynllun adnoddau
- Cynllun cefnogaeth ar gyfer unigolion ac eraill y bydd y newid yn effeithio arnynt
- Cynllun cyfathrebu
- Cynllun rheoli risg
- Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Dylai'r **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

**Gofal tosturiol:** yn galluogi canlyniadau cadarnhaol. Darparu gofal cyson sy'n dosturiol ac yn sensitif i anghenion plant. Gallai hyn gynnwys deallusrwydd emosiynol, caredigrwydd deallus ac ymwybyddiaeth ofalgar

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddiant, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau â grwpiau o gyfoedion

Gallai **nodi** gynnwys dulliau ar gyfer nodi meysydd lle y gellid arloesi a newid, gan gynnwys hunanwerthuso ac asesu, gwaith myfyrio tîm ac adborth gan blant, teuluoedd/gofalwyr a/neu weithwyr proffesiynol eraill.

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r ymddygiad a hyrwyddir ganddynt. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

Ystyr **rheoli** yw'r gallu i bennu cyfeiriad gweithredol a threfnu i'r gwasanaethau a ddarperir gael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau y gall eraill berfformio hyd eithaf eu gallu, gan eu galluogi i ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

**Opsiynau rheoli:** cefnogaeth ychwanegol gan gynnwys hyfforddiant, pennu amcanion, hyfforddi/mentora, cyfryngu, opsiynau disgyblu gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y gŵyn, atgyfeirio achosion addasrwydd i ymarfer at gyrff rheoleiddio

**Amodau cyflogaeth:** y cyfnod o amser lle y disgwylir i weithwyr a recriwtiwyd gyrraedd y safonau a nodir yn y fanyleb person ar gyfer eu rôl, y cyfeirir ato weithiau fel cyfnod prawf. Mae'n bosibl y bydd rhai sefydliadau yn defnyddio terminoleg wahanol ar ei gyfer, ac os felly, byddai'n cyfeirio at ofynion a phrosesau penodol y sefydliad a ddefnyddir i gadarnhau bod gweithwyr newydd yn addas ar gyfer y swydd

**Strategaethau:** gallai gynnwys sgyrsiau cadarnhaol, cyfweliadau cymhellol a chyfryngu

**Achosion sylfaenol:** gallai gynnwys problemau gartref, salwch corfforol neu salwch meddwl, anghenion ychwanegol nas nodwyd, dioddef bwlio neu aflonyddu, diffyg cefnogaeth yn eu rôl, diffyg cyfleoedd hyfforddi a datblygu, camddefnyddio sylweddau

**Lle mae ymddygiad a pherfformiad gweithwyr yn is na'r safon ddisgwyliedig:** byddai hyn yn cynnwys Codau Ymddygiad ac Ymarfer, y rôl a'r cyfrifoldebau a nodwyd yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person, gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCS A1:** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A2:** Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A3:** Ymwneud yn weithredol â dethol a recriwtio gweithwyr yn ddiogel a'u cadw mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC A5:** Rheoli dyraniad, cynnydd ac ansawdd gwaith mewn darpariaeth gwasanaeth gofal
- **SCDLMC E2:** Arwain wrth reoli perfformiad darpariaeth gwasanaeth gofal
- **SCDLMC E10:** Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal

### ***Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig***

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- **www.nice.org.uk/guidance**
- Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015
- Polisi a Chanllawiau Gweithwyr Unigol 2010

# Uned 503 Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 70 |
| **Credyd:** | 16 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol a gofynion y gweithle/lleoliad. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

Deilliant dysgu:

1. Deall damcaniaethau, dulliau a modelau y gellir eu defnyddio i gefnogi'r gweithle/lleoliad i fodloni gofynion safonau ansawdd

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y safonau ansawdd y mae'n rhaid i'r gweithle/lleoliad eu cyrraedd
1.2 Damcaniaethau, dulliau a modelau rheoli perfformiad, sicrhau ansawdd a rheoli'r gweithle/lleoliad
1.3 Modelau busnes ac adnoddau sy'n cefnogi'r broses o nodi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn y gweithle/lleoliad
1.4 Sut i ddefnyddio tystiolaeth ymchwil, ymholiadau, adolygiadau ac adroddiadau cyfredol i gefnogi'r broses o wella'r gweithle/lleoliad
1.5 Cyfrifoldeb pobl a sefydliadau allweddol dros sicrhau ansawdd y gweithle/lleoliad

Deilliant dysgu:

2. Rheoli'r broses o weithredu systemau, gweithdrefnau ac ymarfer er mwyn monitro, mesur a gwella perfformiad y gweithle/lleoliad

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Meithrin dealltwriaeth yn y gweithle/lleoliad o'r safonau ansawdd y mae angen eu cyrraedd

2.2 Sicrhau bod gweithwyr yn deall eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd mewn perthynas â'r canlynol:
- cyrraedd safonau ansawdd
- gwella a datblygu darpariaeth o ansawdd

2.3 Arwain gwaith i nodi sut y caiff perfformiad y gweithle/lleoliad ei fesur, gan gynnwys dangosyddion allweddol a rolau a chyfrifoldebau

2.4 Nodi dulliau priodol ar gyfer casglu data er mwyn mesur perfformiad y gweithle/lleoliad mewn ffordd wrthrychol

2.5 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n gwneud y canlynol:
- cynnwys pob gweithiwr wrth nodi cryfderau'r gweithle/lleoliad a'r meysydd i'w gwella
- ystyried safbwyntiau gweithwyr, teuluoedd/gofalwyr, plant a rhanddeiliaid eraill
- defnyddio adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol
- nodi'r newidiadau sydd eu hangen ac unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn gallu eu cyflawni
- datblygu cynlluniau gweithredu sy'n amlinellu canlyniadau ac amcanion clir

2.6 Arwain a rheoli'r broses o roi cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith

2.7 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i ymgymryd â'u rolau er mwyn bodloni gofynion ansawdd

2.8 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer monitro a mesur cynnydd y gweithle/lleoliad yn erbyn dangosyddion perfformiad y cytunwyd arnynt

2.9 Nodi'r newidiadau pellach sydd eu hangen i ymateb i'r meysydd i'w gwella a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn gallu eu cyflawni

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

3. Defnyddio dadansoddiadau o ddigwyddiadau, canmoliaethau, pryderon a chwynion i wella'r gweithle/lleoliad

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu o ddigwyddiadau, canmoliaethau, pryderon a chwynion

3.2 Datblygu diwylliant lle yr ystyrir digwyddiadau, canmoliaethau, pryderon a chwynion fel ffordd o wella'r gweithle/lleoliad

3.3 Arwain gwaith i gynnal adolygiadau rheolaidd o ddigwyddiadau, canmoliaethau, pryderon a chwynion er mwyn nodi tueddiadau, meysydd o arferion da a meysydd i'w gwella yn y gweithle/lleoliad
3.4 Sicrhau bod gweithwyr a phlant/teuluoedd/gofalwyr yn ymwybodol o feysydd o arferion da a meysydd i'w gwella yn y gweithle/lleoliad
3.5 Defnyddio adolygiadau o ddigwyddiadau, canmoliaethau, pryderon a chwynion i wella ansawdd y gweithle/lleoliad
3.6 Cofnodi a rhoi gwybod am newidiadau a wneir mewn ymateb i adolygiadau o ddigwyddiadau, canmoliaethau, pryderon a chwynion yn unol â gofynion deddfwriaethol, gofynion o ran ansawdd a gofynion sefydliadol

### Amrediad

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

# Uned 503 Arwain a rheoli ansawdd y gweithle/lleoliad

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plan, yn arbennig:

- Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli – Deilliannau dysgu: 1; 2; 3

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 503.

**Dangosyddion allweddol:** mesur yn erbyn safonau ansawdd a gofynion penodedig

Gallai'r **bobl a'r sefydliadau allweddol** gynnwys y canlynol:

- Yr Unigolyn Cyfrifol
- Y Person Cofrestredig
- Y Person â Chyfrifoldeb
- Gweithwyr
- Cyrff rheoleiddio fel:
  - Arolygiaeth Gofal Cymru
  - Arolygiaeth Iechyd Cymru
  - Estyn
  - Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
  - Comisiynwyr gwasanaethau
- Byrddau llywodraethu/pwyllgorau/ymddiriedolwyr
- Grwpiau sy'n cynrychioli plant/teuluoedd/gofalwyr
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol/ymddiriedolaethau
- Llywodraeth Cymru

**Digwyddiadau:** gallai gynnwys mân ddigwyddiadau sy'n peri pryder

Gallai **safonau ansawdd y mae'n rhaid i'r gweithle/lleoliad eu cyrraedd** gynnwys y canlynol:

- Gofynion sefydliadol
- Fframwaith arolygu ar y cyd AGC ac ESTYN
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (2010)
- Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal (2015)
- Codau Ymddygiad neu Ymarfer Proffesiynol perthnasol

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCS A1:** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E2**: Arwain wrth reoli perfformiad darpariaeth gwasanaeth gofal
- **SCDLMC E3:** Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth gofal i ateb gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol, cofrestru ac arolygu
- **SCDLMC E9:** Rheoli systemau, gweithdrefnau ac arferion mewn gwasanaethau gofal ar gyfer derbyn ac ymateb i ganmoliaeth, pryderon a chwynion, a dysgu ohonynt
- **SCDCCLD0418:** Arwain y gwaith o ddiwygio polisïau/gweithdrefnau/arferion ar gyfer cofrestru
- **SCDCCLD0422:** Arwain y gwaith o fonitro gweithdrefnau, polisïau ac arferion
- **CFAMLD6:** Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd gwaith
- **SCDCCLD0433:** Paratoi'r lleoliad gofal plant ar gyfer arolygiad rheoleiddiol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Eithriadau) (Cymru) 2010
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-youngpeople/rights/uncrc/?lang=cy
- Fframwaith arolygu gofal plant Arolygiaeth Gofal Cymru:
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-03/160613childcareframeworkcy.pdf
- Canllaw arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal plant a chwarae:
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-03/160608childcareinspectionguidecy.pdf
- *Arolygiaeth Gofal Cymru: Codau ymarfer ar gyfer arolygu gwasanaethau gwarchod plant, gwasanaethau gofal dydd a gwasanaethau chwarae mynediad agored. (Caiff y ddolen ei hychwanegu pan fydd y ddogfen ar gael – Awst 2019)*
- Polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180601-polisi-ar-sicrhau-gwelliant-a-gorfodi-cy.pdf
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011
- http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2
- ESTYN ac AGC
- https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Guidance%20handbook%20for%20the%20inspection%20of%20non-maintained%20nursery%20settings%20September%202019%20cy.pdf
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-01/190103-llawlyfr-arweiniad-cy.pdf
- Arweiniad gweithgarwch dilynol ESTYN ac AGC

- https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Follow-up%20guidance%20for%20settings%20and%20inspectors%20cy_0.pdf
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-01/190103-arweiniad-gweithgarwch-dilynol-cy.pdf
- Adrannau 41 a 42 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Gweler Atodiad D a http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/part/2/crossheading/inspection
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- https://www.food.gov.uk/safety-hygiene/food-hygiene-rating-scheme#businesses-with-poor-ratings

# Uned 504 Ymarfer proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i fyfyrio ar eu hymarfer proffesiynol a'i ddatblygu mewn rôl arwain a rheoli. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

## Deilliant dysgu:

1. Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwyddau rheolwr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Cyfrifoldebau ac atebolrwyddau proffesiynol yng nghyd-destun fframweithiau deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol

1.2 Gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a phwysigrwydd bod yn agored ac yn onest os aiff pethau o chwith

1.3 Atebolrwydd am ansawdd eich ymarfer eich hun a goruchwylio ymarfer eraill

1.4 Pwysigrwydd cydnabod ffiniau eich rôl a'ch cyfrifoldebau a chydymffurfio â nhw

1.5 Sut a phryd i ofyn am gefnogaeth ychwanegol mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch rôl, cyfrifoldebau, lefel o brofiad ac arbenigedd neu os byddwch yn ansicr ynghylch sut i fwrw ati mewn perthynas â mater gwaith

## Deilliant dysgu:

2. Datblygu sgiliau arwain ac ymarfer moesegol sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1

2

2.1 Defnyddio **damcaniaethau a fframweithiau** i fyfyrio ar eich sgiliau a'ch rhinweddau arwain eich hun a'u datblygu

2.2 Myfyrio ar y ffordd y mae eich ymarfer eich hun yn gwneud y canlynol:
- mynd ati'n effeithiol i herio anghydraddoldeb yn effeithiol
- hybu diwylliant sy'n:
  - deg, yn gynhwysol ac yn wrthwahaniaethol
  - gwerthfawrogi, cydnabod a dathlu amrywiaeth, hawliau a dewis
- cadarnhau **gwerthoedd** a phroffesiwn y sector gofal plant

2.3 Gofyn am adborth gan eraill a defnyddio'r adborth hwnnw ar eich sgiliau arwain eich hun er mwyn gwella eich ymarfer

2.4 Cydnabod a defnyddio'n sensitif y pŵer sy'n dod gyda'ch rôl

### Amrediad

**Damcaniaethau a fframweithiau:** Deallusrwydd Emosiynol, Rheoli Perthnasoedd, Dadansoddi Trafodion, Fframwaith Synhwyrau, Cymhelliant, Gostyngeiddrwydd Diwylliannol

**Gwerthoedd:** y sector a'ch gweithle/lleoliad

---

### Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli gweithio effeithiol mewn partneriaeth

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Meithrin ymddiriedaeth a hyder gyda phartneriaid gan gydnabod eich rolau, cyfrifoldebau, atebolrwyddau ac arbenigedd chi eich hun ac eraill

3.2 Rhoi egwyddorion 'Cyd-ddibyniaeth Gadarnhaol' ar waith er mwyn cefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth

3.3 Arwain ymarfer sy'n hybu trefniadau gweithio cydweithredol

3.4 Datblygu perthnasoedd effeithiol â phartneriaid, ond gan gynnal ffiniau proffesiynol clir

3.5 Cymryd camau i ddatrys heriau sy'n deillio o drefniadau gweithio mewn partneriaeth

3.6 Cydymffurfio â phrotocolau cydweithio a rhannu gwybodaeth y cytunwyd arnynt

3.7 Hybu hawliau a llesiant plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn barhaus gan ddefnyddio'r gweithle/lleoliad a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill

3.8 Ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill, datblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi plant a theuluoedd/gofalwyr wrth iddynt fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt

---

### Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli gofynion gwybodaeth o ran cyflwyno, cofnodi, rhoi gwybod am a storio gwybodaeth

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Fformat a diben adroddiadau a rhannu gwybodaeth a sut y dylid eu **cyflwyno**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.2 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r trefniadau ar gyfer cofnodi, cyflwyno, storio a rhannu gwybodaeth yn y lleoliad gwaith

4.3 Sicrhau bod eich cofnodion a'ch adroddiadau:
- yn gywir
- wedi'u dyddio
- yn wrthrychol
- yn ddealladwy
- yn ddarllenadwy
- yn hygyrch
- yn adlewyrchu safbwyntiau plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- yn parchu plant a'u teuluoedd/gofalwyr
- yn gwahaniaethu rhwng ffaith a barn
- yn cael eu cyflwyno i'r rheini y mae angen iddynt wneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu
- yn cael eu storio, eu rhannu a'u cadw'n unol â pholisïau sefydliadol, gofynion cyfreithiol ac egwyddorion diogelu data

### Amrediad

**Cyflwynwyd:** yn ysgrifenedig ac ar lafar

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

5. Sicrhau bod gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol yn cael eu bodloni wrth i'r unigolyn barhau i ddatblygu'n broffesiynol

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus

5.2 Defnyddio llenyddiaeth, gwaith ymchwil ac adolygiadau perthnasol er mwyn sicrhau bod eich ymarfer yn gyfredol ac yn effeithiol.

5.3 Gwerthuso ac adolygu eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau yn rheolaidd a myfyrio arnynt, gan ystyried yr elfennau canlynol perthnasol:
- gofynion deddfwriaethol
- safonau a fframweithiau
- Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol
- ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth

er mwyn nodi meysydd i'w gwella

5.4 Defnyddio cyfleoedd datblygu i wella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau

## Uned 504 Ymarfer proffesiynol

Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plan, yn arbennig:

- Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog – Deilliant dysgu: 2
- Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli – Deilliant dysgu: 1
- Uned 407 Deall sut i arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol – Deilliant dysgu: 5

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 504.

Dylai'r **Codau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol** gynnwys y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol; Cod Ymddygiad GIG Cymru ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yng Nghymru, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr GIG Cymru ac unrhyw ganllawiau ymarfer ychwanegol a gyhoeddir gan GIG Cymru neu reoleiddwyr iechyd neu ofal cymdeithasol yng Nghymru, e.e. Canllawiau Ymarfer ar gyfer Rheolwyr Gofal Cymdeithasol sydd wedi Cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

**Cydweithio:** gallai gynnwys:

- Cyd-ddealltwriaeth rhwng gweithwyr a rhanddeiliaid o'u rolau. Cyfrifoldebau ac atebolrwyddau
- Cydnabod sgiliau, arbenigedd a chyfraniadau partneriaid
- Cyfathrebu effeithiol er mwyn cyd-drafod canlyniadau a goresgyn gwahaniaethau
- Ystyried cyfraniad plant, teuluoedd/gofalwyr neu eu heiriolwyr
- Cydymffurfio â phrotocolau cydweithio y cytunwyd arnynt
- Cydymffurfio â phrotocolau rhannu gwybodaeth

Gall **cyfleoedd datblygu** gynnwys cyfuniad o raglenni addysgol, gweithgareddau hyfforddi, mentora, hyfforddiant, cysgodi, sefydlu, goruchwylio, darllen o dan arweiniad, gwaith ymchwil, setiau dysgu gweithredol, trafodaethau â grwpiau o gyfoedion

Dylai **protocolau rhannu gwybodaeth** gynnwys Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r ymddygiad a hyrwyddir ganddynt. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

**Partneriaeth:** byddai'n cynnwys gwaith amlddisgyblaethol

**Cyd-ddibyniaeth Gadarnhaol:** yn adlewyrchu perthnasoedd cydweithredol a chyfathrebu effeithiol, gyda thrafodaeth agored lle mae aelodau'r grŵp yn barod i dderbyn syniadau ei gilydd (Damcaniaeth Cyd-ddibyniaeth Gymdeithasol – Deutsch 1958, 2002)

**Myfyrio**: byddai'n cynnwys myfyrio ar ymarfer, myfyrio wrth ymarfer a myfyrio er mwyn ymarfer

Gallai **fframweithiau deddfwriaethol, safonau a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer perthnasol** gynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016: rheoliadau cysylltiedig a chanllawiau statudol
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol
- Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal (2015)
- Canllawiau Ymarfer (a gyhoeddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru)

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCS A1:** Rheoli a datblygu eich hun a'ch gweithlu mewn gwasanaethau gofal
- **SCDLMC E1:** Arwain a rheoli cyfathrebu effeithiol sy'n hybu canlyniadau cadarnhaol i bobl mewn gwasanaethau gofal

# Uned 505 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hybu'r broses o ddiogelu plant mewn swydd arwain a rheoli. Mae'n adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant |

Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol o ran diogelu plant

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.1 **Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n galluogi gweithwyr i gydymffurfio â gofynion diogelu

1.2 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion diogelu a chymryd camau lle na chydymffurfir â nhw

1.3 Rheoli perfformiad gweithwyr er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol mewn perthynas â diogelu

**Amrediad**

**Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Deilliant dysgu:

2. Meithrin a chynnal gwybodaeth a dealltwriaeth am ddiogelu plant

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod gweithwyr yn deall y canlynol:

- gwybodaeth am arwyddion a symptomau a all nodi bod plentyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu fod perygl o hynny, gan gynnwys radicaleiddio ac anffurfio organau cenhedlu benywod
- gwybodaeth am ofynion lle ceir pryderon bod plentyn wedi cael ei niweidio neu ei gam-drin, neu fod perygl o hynny, gan gynnwys chwythu'r chwiban
- y camau i'w cymryd os bydd pryder ynghylch diogelwch neu lesiant teuluoedd/gofalwyr
- rôl gwahanol asiantaethau, gan gynnwys eiriolaeth, o ran diogelu plant
- sut i osgoi camau gweithredu a datganiadau a allai gael effaith andwyol ar y gallu i ddefnyddio tystiolaeth mewn ymchwiliadau neu yn y llys yn y dyfodol, ond gan roi blaenoriaeth i amddiffyn plant

2.2 Defnyddio Adolygiadau o Ymarfer i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a ffyrdd o weithio sy'n hybu'r broses ddiogelu

2.3 Myfyrio ar eich ymddygiad eich hun er mwyn sicrhau nad yw'n cyfrannu at sefyllfaoedd, camau gweithredu neu ymddygiad a all fod yn niweidiol neu'n sarhaus

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n diogelu plant rhag cael eu niweidio a'u cam-drin

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Sicrhau bod gweithwyr yn deall eu cyfrifoldeb i egluro wrth blant a'u teuluoedd/gofalwyr bod atebolrwydd arnynt i ddatgelu unrhyw wybodaeth am achosion posibl neu wirioneddol o niwed neu gam-drin

3.2 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i weithio gyda phlant ac eraill i gytuno ar weithdrefnau i'w dilyn os bydd sefyllfaoedd, digwyddiadau neu ymddygiad yn codi a allai arwain at achosion o niwed neu gam-drin

3.3 Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i weithredu ar unwaith pan fyddant yn gweld arwyddion neu symptomau niwed neu gam-drin neu lle y datgelwyd gwybodaeth am hynny

3.4 Sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau yn bodloni **gofynion deddfwriaethol a sefydliadol**

3.5 Dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflwyno adroddiadau a gwybodaeth am achosion a amheuir neu a ddatgelir o niwed neu gam-drin o fewn cytundebau cyfrinachedd

3.6 Monitro effeithiolrwydd systemau ar gyfer diogelu plant a chymryd camau i wella ymarfer yn barhaus

3.7 Defnyddio trefniadau goruchwylio a chefnogi i ystyried effaith achosion a amheuir neu a ddatgelir o niwed neu gam-drin ar weithwyr, arnoch chi eich hun ac ar eraill

3.8 Cael mynediad i gefnogaeth ychwanegol mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch arbenigedd, eich rôl a'ch cyfrifoldeb

**Amrediad**

**Gofynion deddfwriaethol a sefydliadol:** yn fanwl, yn gywir, wedi'u hamseru, eu dyddio a'u llofnodi, yn cydymffurfio â chytundebau cyfrinachedd, yn osgoi defnyddio datganiadau a allai gael effaith andwyol ar y gallu i ddefnyddio tystiolaeth mewn ymchwiliadau ac yn y llys yn y dyfodol

---

Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi hawliau, dewis, llesiant a pherthnasoedd cadarnhaol i hybu diogelu

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Cefnogi gweithwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng ymarfer plentyn-ganolog a'r broses o ddiogelu plant
4.2 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n hybu ymarfer plentyn-ganolog wrth ddiogelu plant
4.3 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi perthnasoedd cadarnhaol rhwng gweithwyr a phlant a'u teuluoedd/gofalwyr
4.4 Arwain y broses o ddatblygu diwylliant ac amgylchedd sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr i fynegi eu hofnau, eu pryderon, eu teimladau a'u gofidiau heb ofni y cânt eu gwatwar, eu gwrthod na'u cosbi
4.5 Sicrhau bod y lleoliad yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n cydnabod cyfrinachedd o fewn ffiniau diogelu

---

Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi cadw plant yn ddiogel

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Arwain y broses o reoli ymarfer sy'n herio ymddygiad neu gamau gweithredu a all arwain at niwed neu gam-drin
5.2 Arwain a rheoli gwaith gyda phlant i nodi ffactorau, sefyllfaoedd a chamau gweithredu a all achosi neu arwain at niwed a cham-drin a'u hawliau i gael eu cadw'n ddiogel
5.3 Arwain a rheoli gwaith gyda phlant a/neu eu teuluoedd/gofalwyr i nodi pa weithdrefnau sydd eu hangen er mwyn osgoi sefyllfaoedd a all arwain at niwed neu gam-drin
5.4 Arwain a rheoli gwaith gyda phlant a/neu eu teuluoedd/gofalwyr sy'n cytuno ar ffiniau teg, diogel, cyson a dealladwy i'w cadw'n ddiogel
5.5 Arwain y broses o reoli ymarfer sy'n helpu plant i gydnabod pan fydd ymddygiad tuag atyn nhw neu eraill yn amhriodol neu'n annerbyniol

## Uned 505 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu'r broses o ddiogelu plant

Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Mae'r uned hon yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plan, yn arbennig:

- Uned 405 Arwain ymarfer plentyn-ganolog – Deilliant dysgu: 5
- Uned 406 Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli – Deilliant dysgu: 1

Byddai'r canllawiau a'r adnoddau a restrir ar gyfer yr unedau hyn yn berthnasol i Uned 505.

**Ymarfer plentyn-ganolog:** sy'n helpu plant i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, yn hybu llesiant corfforol a llesiant meddwl plant, yn hybu cyfathrebu plentyn-ganolog, yn cefnogi newid a throsglwyddiadau

**Sicrhau bod gweithwyr yn deall:** byddai'n cynnwys hyfforddiant ffurfiol, trafodaethau tîm, goruchwyliaeth, adborth adeiladol, mentora a darllen dan arweiniad

Ystyr **arweinyddiaeth** yw'r gallu i ddarparu cyfeiriad strategol ac ymdeimlad o bwrpas. Mae arweinwyr effeithiol yn creu ymdeimlad o ymddiriedaeth, hyder a chred, gan ysbrydoli pobl i fabwysiadu'r gwerthoedd a'r ymddygiad a hyrwyddir ganddynt. Maent yn arloesol, yn greadigol ac yn gymhellol

Ystyr **rheoli** yw'r gallu i bennu cyfeiriad gweithredol a threfnu i'r gwasanaethau a ddarperir gael eu gweithredu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y gwasanaeth gan gynnwys gofynion moesegol, deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol. Mae rheolwyr effeithiol yn hwyluso ac yn trefnu adnoddau er mwyn sicrhau y gall eraill berfformio hyd eithaf eu gallu, gan alluogi iddynt ymgymryd â thasgau a chyflawni nodau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn darparu eglurder ac atebolrwydd sy'n galluogi timau i gyflawni eu hamcanion

Rhaid ystyried **cytundebau cyfrinachedd** yn unol â phrotocolau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

**Rheoli perfformiad gweithwyr:** byddai'n cynnwys y canlynol:

- Recriwtio a dethol diogel
- Cynnig rhaglen sefydlu effeithiol
- Cynnig cyfleoedd datblygu
- Hybu a sicrhau cydymffurfiaeth â holl bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
- Hybu a sicrhau cydymffurfiaeth â Chodau Ymddygiad ac Ymarfer perthnasol

- Darparu sesiynau goruchwylio rheolaidd ac adolygiadau o berfformiad fel mater o drefn

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMC B1:** Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi diogelu plant
- **SCDHSC 0431:** Cefnogi plant sydd wedi cael eu niweidio neu eu cam-drin

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989
- Y Ddeddf Plant (1989 a 2004)
- Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008
- Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Data 1998
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Iechyd Meddwl (1983) diwygiwyd 2007
- Cod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Chod Ymarfer cysylltiedig
- Cyfres o ganllawiau
- Amddiffyn a Diogelu Rhyddid
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Ar Gov.UK (felly nid ydynt ar gael yn ddwyieithog)
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 **https://www.gov.uk/government/publications/protection-of-freedoms-bill**

## *Adnoddau*

- Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus – diogelu **https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-strategy-2019-to-2025-office-of-the-public-guardian**
- Diogelu o fewn sefydliadau elusennol **https://www.gov.uk/government/publications/strategy-for-dealing-with-safeguarding-issues-in-charities** **https://www.gov.uk/guidance/charities-how-to-protect-vulnerable-groups-including-children**
- Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) **https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service**
- Cymhwysedd **https://www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance**
- Atgyfeirio achosion i'r DBS **https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rhan 7 diogelu **https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/arweiniad-statudol**

- Byw Heb Ofn **https://livefearfree.gov.wales/?lang=en** / **https://livefearfree.gov.wales/?skip=1&lang=cy**
- Caethwasiaeth Fodern **https://www.north-wales.police.uk/advice-and-support/stay-safe/modern-slavery?lang=cy-gb**
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – adolygiadau arfer **http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews/?noredirect=cy_GB/**
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru (enghraifft dda o wefan Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/**
- Pecyn Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu **https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/diogelu**
- https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance

# Uned 506 Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd (security) yn y gweithle/lleoliad

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad

1.2 Cyfrifoldeb yr unigolyn ac eraill am iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad

## Deilliant dysgu:

2. Monitro a pharhau i gydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod systemau ar waith i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr ac eraill am newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion cyfreithiol a pholisïau, gweithdrefnau ac arferion y gweithle/lleoliad mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a diogeledd

2.2 Sicrhau bod gweithwyr ac eraill yn ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion cyfreithiol a gweithle/lleoliad sydd eu hangen er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a diogeledd yn y gweithle/lleoliad

2.3 Monitro cydymffurfiaeth â gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd a chymryd camau lle na chydymffurfir â nhw

2.4 Arwain gwaith gydag eraill i nodi, asesu, lleihau a rheoli risgiau a pheryglon posibl yn amgylchedd y gweithle/lleoliad

2.5 Sicrhau y caiff cofnodion ac adroddiadau ar iechyd, diogelwch a diogeledd a rheoli risg eu cwblhau yn unol â gofynion deddfwriaethol a gofynion y gweithle/lleoliad

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli asesiadau risg iechyd a diogelwch i blant

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Datblygu diwylliant ac ymarfer sy'n hybu hawliau plant i gymryd risgiau cadarnhaol wrth chwarae

3.2 Sicrhau bod gweithwyr yn helpu plant i asesu, cydbwyso a gwneud penderfyniadau am risgiau yn unol â'u cam a'u datblygiad

3.3 Arwain a rheoli'r broses o ddatblygu cynlluniau gofal neu chwarae unigol sy'n ystyried dewisiadau cadarnhaol o ran cymryd risgiau

3.4 Gwerthuso sut y mae gwaith i ddadansoddi risgiau a manteision yn y gweithle/lleoliad yn:

- helpu plant i gymryd risgiau cadarnhaol
- herio agweddau sy'n osgoi risgiau

3.5 Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion ar gyfer cofnodi a storio gwybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau cadarnhaol o ran cymryd risgiau

---

## Deilliant dysgu:

4. Rheoli'r risg o iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith

## Meini prawf asesu:

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Asesu'r risgiau posibl yn y gweithle/lleoliad o ran iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith

4.2 Nodi a gweithredu dulliau sy'n helpu gweithwyr i osgoi achosion o iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith

4.3 Monitro achosion o iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gweithle/lleoliad gan gynnwys tueddiadau yn y gweithlu

4.4 Cymryd camau i ymdrin ag achosion o iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith

# Uned 506 Arwain a rheoli iechyd, diogelwch a diogeledd (security) yn y gweithle/lleoliad

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Eraill:** Sefydliad (perchenogion, aelodau'r bwrdd, uwch-reolwyr/unigolyn cyfrifol, gweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, plant, teuluoedd/gofalwyr)

**Iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith:** byddai hyn yn cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gan gynnwys straen. Gweler adnoddau HSE i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad.

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMC C1**: Arwain a rheoli arfer ar gyfer iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 1999
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi 1998
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario 1992
- Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
- Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013
- Rheoliadau (Diogelwch) Cyfarpar Trydanol 1994
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Llesiant) 1992

## *Adnoddau:*

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH): **http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm**
- Dermatitis yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/dermatitis.htm**
- Diogelwch trydanol yn y gwaith: **http://www.hse.gov.uk/electricity/index.htm**
- Diogelwch offer: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/equipment-safety.htm**
- Cwympo o ffenestri neu falconïau yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis5.htm**
- Cwympo o ffenestri: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/falls-windows.htm**

- Sut y mae'r Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi yn berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis4.htm**
- Heintiau yn y gwaith: **http://www.hse.gov.uk/biosafety/infection.htm**
- Legionella **http://www.hse.gov.uk/healthservices/legionella.htm**

- **Rheoli'r risg o ddŵr ac arwynebeddau poeth yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol:** http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis6.htm
- Rheoli straen yn y gweithle: **http://www.hse.gov.uk/stress/standards/index.htm**
- Symud a chodi a chario: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/moving-handling.htm**
- Atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru: **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/95109**
- Rhoi gwybod am anafiadau, clefydau a digwyddiadau peryglus yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol: **http://www.hse.gov.uk/pubns/hsis1.htm**
- RIDDOR: **http://www.hse.gov.uk/riddor/index.htm**
- Asesiadau risg synhwyrol: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/sensible-risk-assessment-care-settings.htm**
- Sgaldio a llosgi: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/scalding-burning.htm**
- Anafiadau a achosir gan offer miniog: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/needlesticks/index.htm**
- Llithro a baglu: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/slips/index.htm**
- Trais yn y gweithle: **http://www.hse.gov.uk/healthservices/violence/index.htm**
- Iechyd gwael sy'n gysylltiedig â gwaith: **http://www.hse.gov.uk/statistics/industry/health.pdf**

# Uned 507 Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol yn rhan o ddarpariaeth gofal plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 40 |
| **Credyd:** | 14 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol plant o fewn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli sut y mae polisi, gweithdrefnau ac ymarfer cyfoes yn cael eu gweithredu mewn gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth a sut y mae hyn wedi effeithio ar y canlynol:
- polisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
- ymarfer gofal plant
- mentrau lleol a chenedlaethol
- addysg gynnar
- gwasanaethau cefnogaeth
- blaenoriaethau iechyd y cyhoedd

1.2 Egwyddorion a blaenoriaethau mentrau lleol a chenedlaethol a sut y maent yn effeithio ar eich gweithle/lleoliad

1.3 Pwysigrwydd cynnwys plant, gweithwyr a theuluoedd/gofalwyr wrth adolygu polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer yn unol â syniadaeth bresennol a syniadaeth sy'n dod i'r amlwg

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth yn eich gweithle/lleoliad

1.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n rhoi egwyddorion a blaenoriaethau mentrau lleol a chenedlaethol ar waith yn eich gweithle/lleoliad

1.6 Cefnogi eraill i ddeall:
- Egwyddorion a blaenoriaethau mentrau lleol a chenedlaethol a sut y maent yn effeithio ar ymarfer
- Diben darpariaeth a gwasanaethau cefnogaeth
- Sut i wneud atgyfeiriadau at wasanaethau cefnogaeth
- Sut i gyfeirio eraill at wybodaeth, cefnogaeth a chyngor
- Sut y mae mentrau, gofal plant, addysg gynnar, gwasanaethau cefnogaeth a blaenoriaethau iechyd y cyhoedd yn ceisio mynd i'r afael ag anfantais yn ystod plentyndod
- Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd cyfredol a'u manteision

1.7 Cynnwys plant, gweithwyr a theuluoedd/gofalwyr wrth adolygu polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer yn unol â syniadaeth bresennol a syniadaeth sy'n dod i'r amlwg

---

Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli amgylcheddau sy'n hybu arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Damcaniaethau, dulliau ac egwyddorion traddodiadol a chyfoes sy'n sail i arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol yn y blynyddoedd cynnar ac yn dylanwadu ar y meysydd hynny

2.2 Sut y mae mentrau cenedlaethol a lleol yn sail i ddulliau o gefnogi arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol yn ystod y blynyddoedd cynnar

2.3 Effaith arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol ar ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol, deallusol, cyfathrebu a chorfforol plant

2.4 Pwysigrwydd **amgylcheddau'r** blynyddoedd cynnar wrth gefnogi arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 Cefnogi eraill i ddeall:
- Pwysigrwydd y rhyngberthynas rhwng y meysydd profiad a'r broses o hybu arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol
- Sut y mae darpariaeth barhaus, dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiad yn hybu arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol
- Diben adnoddau arsylwi ac asesu presennol a'r defnydd ohonynt wrth gynllunio a gweithredu darpariaeth barhaus er mwyn hybu arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol

2.6 Arwain a rheoli cynigion i ddarparu amgylcheddau sy'n ategu arloesedd, creadigrwydd a dysgu creadigol

**Amrediad**

**Amgylcheddau:** cynhwysol, dwyieithog/amlieithog, diogel, ysgogol, meithringar, creadigol

### Deilliant dysgu

3. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth weithio gyda phlant

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i gefnogi eraill i ddeall y canlynol:

- Beth yw ystyr 'cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol' ac 'ymddygiad heriol'
- Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol
- Pam y mae'n bwysig deall ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad
- Y gwahaniaeth rhwng ffurf yr ymddygiad a'r ffactor sy'n sbarduno'r ymddygiad
- Amrywiaeth o strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar y gellir eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
- Sut i ddadansoddi ymddygiad a'r ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad er mwyn nodi'r strategaethau atal sylfaenol a'r ymyriadau cynnar mwyaf priodol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
- Pwysigrwydd ystyried ymddygiad mewn cynlluniau plentyn-ganolog
- Pwysigrwydd myfyrio ar eich ymatebion eich hun ac ymatebion **eraill** i ymddygiad

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Rhoi polisïau, gweithdrefnau a phrosesau ar waith

- er mwyn cydnabod a chefnogi ymddygiad cadarnhaol gan blant
- defnyddio strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar i gefnogi ymddygiad plant

3.3 Cefnogi gweithwyr i fyfyrio ar eu hymatebion eu hunain ac ymatebion eraill i ymddygiad

### Amrediad

**Eraill:** Plant eraill, teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr

---

### Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli'r broses o hybu a chefnogi trefnau gofal corfforol diogel i blant

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Pwysigrwydd datblygu, gweithredu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau er mwyn cefnogi trefnau gofal corfforol diogel i blant

4.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- Pwysigrwydd nodi a darparu trefnau gofal corfforol diogel i blant, gan gynnal urddas a pharch
- Pwysigrwydd awyrgylch tawel a chyfforddus i gefnogi trefnau gofal corfforol diogel
- Sut i gario a dal plant yn ddiogel

- Sut i ymolchi, gwisgo a newid plant, gan gynnwys newid cewynnau lle y bo'n berthnasol
- Sut i gefnogi plant i ddefnyddio'r toiled
- Sut i sicrhau bod plant yn cysgu mewn amgylchedd a safle diogel

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.3 Gweithredu a hybu'r defnydd o bolisïau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r ymarfer a'r ddarpariaeth ym mhob agwedd ar ofal corfforol ar gyfer plant

4.4 Arwain a rheoli'r broses o lunio a chynllunio trefnau gofal corfforol diogel ar gyfer plant

4.5 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod y trefnau gofal corfforol y cytunwyd arnynt ar gyfer plant yn cael eu cynnal

4.6 Cefnogi eraill i wneud y canlynol:

- Hybu awyrgylch tawel a chyfforddus wrth gefnogi **trefnau gofal corfforol** diogel
- Modelu trefnau gofal corfforol er mwyn sicrhau eu bod yn brofiadau diogel a phleserus sy'n hybu dysgu, twf a datblygiad cyfannol gan gynnal urddas a pharch plant

4.7 Monitro, gwerthuso ac adolygu ymarfer gweithwyr wrth ddarparu pob agwedd ar ofal corfforol ar gyfer plant

4.8 Rhoi adborth adeiladol i weithwyr ar ddarparu gofal corfforol

---

Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli darpariaeth maeth a hydradu cytbwys i blant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Pwysigrwydd damcaniaethau cyfoes, canllawiau a deddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â darparu maeth a hydradu wrth ymarfer yn eich gweithle/lleoliad

5.2 Sut i gefnogi gweithwyr i ddeall y canlynol:

- Bwydo ymatebol
- Canllawiau cenedlaethol cyfredol ar gyfer deiet cytbwys i blant gan gynnwys cyflwyno bwydydd solet
- Bwydydd y dylid cyfyngu arnynt a'u hosgoi yn y flwyddyn gyntaf
- Rôl maetholion hanfodol er mwyn cynnal deiet cytbwys a chefnogi twf, llesiant a datblygiad cyfannol
- Gofynion maeth a hydradiad ar gamau datblygu diffiniedig
- Ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod
- Y rhesymau pam na ddylid defnyddio bwyd fel gwobr
- Effaith bosibl maeth a hydradiad gwael
- Pwysigrwydd hydradiad
- Diben monitro cymeriant bwyd a diod, ei gofnodi, rhoi gwybod amdano a'i gyfleu
- Sut i gynllunio bwydlenni sy'n ymateb i anghenion unigolion

- Yr heriau posibl i gymeriant bwyd a diod a all godi ar bob cam datblygu a strategaethau ar gyfer eu rheoli

5.3 Gofynion rheoleiddiol cyfredol mewn perthynas â storio, paratoi a gweini bwyd yn ddiogel

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.4 Rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â maeth a hydradu yn y gweithle/lleoliad

5.5 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth ar gyfer storio a pharatoi bwyd a diod

5.6 Sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n storio, yn paratoi a/neu'n gweini bwyd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol

5.7 Arwain a rheoli darpariaeth sy'n gwneud y canlynol:

- Hybu manteision deiet cytbwys
- Hybu strategaethau sy'n annog plant i yfed digon o hylif
- Sicrhau bod y ffordd y caiff bwyd a diod i blant eu paratoi a'u storio yn dilyn cyfarwyddiadau penodol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
- Sicrhau trefnau bwyta ac yfed diogel sy'n helpu'r plentyn i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin sgiliau annibyniaeth ac sy'n ystyried ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant deietegol
- Sicrhau bod plant yn cael eu hannog i arbrofi â bwydydd newydd
- Sicrhau ymateb cadarnhaol pan fydd plentyn yn gwrthod bwyd a diod, gan wneud addasiadau fel y bo angen
- Cofnodi a monitro cymeriant bwyd a diod a gweithredu pan fydd pryderon
- Sicrhau bod pobl eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gymeriant bwyd a diod
- Annog plant i yfed digon o hylif

# Uned 507 Arwain a rheoli iechyd, llesiant a dysgu creadigol o fewn darpariaeth gofal plant

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Dadansoddi ymddygiad a ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad:** dulliau casglu data, rhoi'r model ymddygiadol ar waith, casglu a chyflwyno data sy'n hwyluso gwaith dadansoddi.

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw weddol dda ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle

**Creadigrwydd:** Gellir meithrin creadigrwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar drwy annog plant i archwilio eu hamgylchedd, rhoi cyfleoedd iddynt ofyn eu cwestiynau eu hunain am eu hamgylchedd a'u helpu i ddod o hyd i atebion diddorol i'w cwestiynau. Archwilio posibiliadau newydd a chreu cysylltiadau newydd a chyffrous â'u hamgylchedd a'u gweithgareddau.

**Ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth:** Gallai hyn gynnwys:

- Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen (2015) Llywodraeth Cymru
- Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, yr Athro Graham Donaldson (2015).
- Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol, Medi 2013 – Mawrth 2014 (2014)

**Ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant bwyd a diod:**

- Gall anghenion deietegol arbennig am resymau meddygol gynnwys e.e.
    - Addasu'r ansawdd er mwyn gwneud bwyd yn haws ei fwyta (piwrî neu stwnsh);
    - Bwyd heb glwten i blant â chlefyd seliag
    - Deiet wedi'i addasu ar gyfer plant diabetig
    - Deiet wedi'i addasu ar gyfer plant ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd.
- Darparu ar gyfer anghenion diwylliannol, crefyddol, llysieuol neu fegan
- Siâp, lliw, ansawdd, arogl, cyflwyniad a dewis bwyd,
- Osgoi bwyd, cydfwyta â chyfoedion, dilyn dull cyson a dangos esiampl gadarnhaol, annog cyfleoedd i brofi bwyd newydd,
- Gweithgareddau a mentrau llawn hwyl mewn perthynas â bwyd, gan gynnwys gadael i blant gymryd rhan yn y broses o baratoi a gweini bwyd, rhoi cynnig ar fwydydd o ddiwylliannau gwahanol, tyfu a choginio bwyd.
- Incwm isel a thlodi bwyd

**Arloesedd:** annog plant a gweithwyr i roi cynnig ar syniadau a dulliau newydd mewn perthynas â dysgu a datblygu

**Mentrau Lleol a Chenedlaethol:** gan gynnwys mentrau i hybu llesiant, twf a datblygiad plant. Mae hyn yn cynnwys mentrau Llywodraeth Cymru a mentrau lleol.

**Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol:** Cefnogaeth Weithredol, Ymarfer Adferol, Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol

**Heriau posibl i gymeriant bwyd a diod:** bwyta ffyslyd, anabledd, sgiliau annibyniaeth, dewisiadau gwael a gwybodaeth wael am faeth gan rieni, dylanwadau cyfoedion

**Strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar:** Ailfynegi, tawelu, ailgyfeirio, tynnu sylw, achub y blaen ac anwybyddu

**Blaenoriaethau iechyd y cyhoedd**: Maeth a hydradiad, gofal iechyd y geg, gweithgarwch chwarae a chorfforol, golwg, rhaglen imiwneiddio plant, bod yn barod ar gyfer yr ysgol a hybu diogelwch yn y cartref, oedolion yn rhoi'r gorau i ysmygu, lleihau cysylltiad â mwg eilaidd, atal damweiniau ac anafiadau, diogelwch yn y gymuned

**Gwasanaethau cefnogaeth**: Y mathau a'r lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed yn rhai wedi'u targedu neu'n rhai cyffredinol – ymweld â'r cartref (ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, 'Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu'), deietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, clybiau llyfrau, Dechrau Da, grwpiau chwaraeon/hamdden)

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Dolenni i ddeddfwriaeth a pholisïau ac adolygiadau perthnasol ar gyfer y maes pwnc, e.e.
- Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) Llywodraeth Cymru
- https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf
- Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen – Adroddiad Terfynol https://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150514-foundation-phase-final-cy.pdf
- Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru: Adroddiad terfynol, Medi 2013 – Mawrth 2014 (2014) https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/archwiliad-annibynnol-or-cyfnod-sylfaen-yng-nghymru-adroddiad-terfynol.pdf
- Crynodeb o Ganfyddiadau Prosiect EPPSE (Effective Pre-school, Primary and Secondary Education) 1997-2014 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/455670/RB455_Effective_pre-school_primary_and_secondary_education_project.pdf.pdf
- 2002 'Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning' (SPEEL), Moyles, J., Adams, S. a Musgrove, A 2002, Ysgol Ymchwil a Datblygu Addysg Prifysgol Bolytechnig Anglia

- Cymwys am Oes, Llywodraeth Cymru 2014
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015 https://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-cy.pdf
- Fframwaith y Blynyddoedd Cynnar yn yr Alban http://www.gov.scot/Topics/People/Young-People/early-years/delivery/framework
- Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar-EYFS (Lloegr) https://www.gov.uk/government/publications/early-years-foundation-stage-framework--2
- Pre-school and early home learning effects on A-level outcomes, Adroddiad Ymchwil EPPSE, 2015, Sammons, Toth a Sylva gyda Melhuish, Siraj a Taggart, Prifysgol Rhydychen, cyhoeddwyd gan yr Adran Addysg. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/472867/RR472A_Pre-school_and_early_home_learning_effects_on_A_level_outcomes.pdf
- Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen https://gov.wales/docs/dcells/publications/161103-fp-action-plan-cy.pdf

# Uned 508 Arwain a rheoli'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 9 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn cefnogi'r dysgwr i gefnogi a datblygu ei weithwyr er mwyn hybu'r gefnogaeth i blant gaffael iaith newydd drwy ddulliau trochi ieithyddol yn y gweithle/lleoliad. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli'r broses trochi ieithyddol yn y gweithle/lleoliad

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth ddamcaniaethol sy'n sail i ddeddfwriaeth, canllawiau ac ymarfer cyfredol

1.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- Y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer trochi ieithyddol yng Nghymru a'r ffordd y caiff hwn ei gynnwys o fewn polisïau ac ymarfer eich gweithle/lleoliad eich hun
- Sut y gellir defnyddio ymchwil ddamcaniaethol i gefnogi unigolion i gaffael iaith newydd
- Egwyddorion a thechnegau trochi ieithyddol yng nghyd-destun y gweithle/lleoliad
- Y rhesymau dros ddefnyddio'r iaith drochi bob amser
- **Camau** y bydd plant yn mynd drwyddynt wrth gaffael iaith newydd a sut i sicrhau ymateb priodol i bob cam
- Pam y mae'n bwysig deall **amgylchiadau unigol** plant a sut y maent yn effeithio ar y broses o ddysgu iaith newydd
- Pwysigrwydd cynnwys teuluoedd/gofalwyr wrth i'r plentyn gaffael iaith, a ffyrdd o wneud hynny
- Manteision bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.3 Defnyddio ymchwil, tystiolaeth a chanllawiau i lywio ymarfer sy'n cefnogi unigolion i gaffael iaith

1.4 Adolygu a diwygio polisïau a gweithdrefnau er mwyn cefnogi'r broses o gaffael iaith

1.5 Arwain a rheoli ymarfer sy'n rhoi egwyddorion a thechnegau trochi iaith ar waith

## Amrediad

**Camau:** Derbyngar distaw, cynhyrchiol cynnar, datblygu lleferydd, rhuglder canolraddol, datblygiad iaith parhaus / rhuglder uwch

**Amgylchiadau unigol:** cefndir ieithyddol a chymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol

---

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi plant i gaffael iaith newydd drwy drochi

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Pwysigrwydd diwylliant trochi a sut y gall eich agwedd a'ch ymddygiad eich hun mewn perthynas â chaffael iaith effeithio ar hyn

2.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:
- Pwysigrwydd sicrhau bod yr iaith drochi'n cael ei hynganu a'i defnyddio'n glir ac yn gywir bob amser
- Cynllunio creadigol a gwerthuso'r broses o ddysgu a datblygu er mwyn caffael iaith
- Sut i wahaniaethu rhwng yr heriau i'r plentyn sy'n caffael iaith newydd a **heriau eraill**
- Pwysigrwydd integreiddio'r broses o gaffael iaith i weithgareddau a phrofiadau sy'n diwallu anghenion **twf a datblygiad cyfannol** plentyn
- Pwysigrwydd **mathau gwahanol o weithgareddau a phrofiadau** er mwyn cefnogi'r broses o gaffael iaith
- Y gydberthynas rhwng amgylcheddau dysgu ffisegol gan gynnwys arddangosfeydd ac ysgogiadau gweledol a'r broses o gaffael iaith

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.3 Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith i gefnogi dulliau cyfathrebu sy'n tawelu meddwl plant, yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol ac yn ddiogel yn y lleoliad trochi

2.4 Cefnogi gweithwyr i wneud y canlynol:
- diffinio'r llinell sylfaen lle mae pob plentyn yn gweithredu'n ieithyddol
- nodi ffyrdd o fesur a chofnodi cynnydd pob plentyn o ran caffael yr iaith drochi
- cynllunio, paratoi, gweithredu ac arsylwi ar wahanol fathau o weithgareddau a phrofiadau, gan ddefnyddio ysgogiadau llafar a gweledol, er mwyn hybu datblygiad ieithyddol a thwf a datblygiad cyfannol plant
- monitro, gwerthuso ac adolygu gwahanol fathau o weithgareddau a phrofiadau, gan ddefnyddio ysgogiadau llafar a gweledol, er mwyn hybu datblygiad ieithyddol a thwf a datblygiad cyfannol plant
- Canmol ac annog plant er mwyn eu helpu i gaffael iaith
- Sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i symud drwy gyfnodau caffael iaith ar eu cyflymder eu hunain
- Annog plant i ddatblygu a defnyddio strategaethau caffael iaith
- Adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd amgylchedd, gweithgareddau a phrofiadau eich lleoliad eich hun o ran hybu'r broses o gaffael iaith drwy drochi

2.5 Modelu a chefnogi gweithwyr i ynganu'r iaith drochi'n glir ac yn gywir bob amser wrth gyfathrebu â phlant ac eraill ac mewn gweithgareddau gyda nhw

2.6 Modelu a chefnogi gweithwyr i ddefnyddio dulliau ailadrodd ac ehangu i gefnogi llafaredd a llythrennedd plant a'r broses gyffredinol o gaffael iaith

2.7 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu agwedd groesawgar a chefnogol tuag at deuluoedd ac yn eu cefnogi i fod yn rhan o brofiadau caffael iaith y plentyn

2.8 Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddeall y broses y mae'r plentyn yn debygol o'i dilyn wrth gaffael iaith newydd drwy drochi, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd

2.9 Cyfeirio teuluoedd at wybodaeth am gefnogaeth ychwanegol ar gyfer trochi ieithyddol

### Amrediad

**Heriau eraill:** anghenion dysgu ychwanegol, datblygiad lleferydd ac iaith arafach, ymddygiad

**Twf a datblygiad cyfannol:** ymddygiadau chwarae, sgiliau echddygol bras a manwl, meysydd datblygu (corfforol, lleferydd, iaith a chyfathrebu, emosiynol-gymdeithasol)

**Mathau gwahanol o weithgareddau a phrofiadau:** defnyddio amgylcheddau dan do ac awyr agored, dysgu strwythuredig, chwarae a gynlluniwyd a chwarae digymell, ymgysylltu â phlant eraill, gemau grŵp, gweithgareddau siarad, gweithgareddau tynnu llun, canu a rhigymau

# Uned 508 Arwain a rheoli'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Iaith y cartref/dewis iaith:** yr iaith a siaredir gartref a gan deulu plentyn

**Achosion pan ddylid defnyddio iaith cartref y plentyn:** mewn achos brys fel tân, mater yn ymwneud â diogelwch neu ddiogelu plant, damweiniau, neu pan fydd plentyn yn ofidus iawn

**Trochi ieithyddol:** caffael iaith mewn amgylchedd lle mae'r holl gyfathrebu, gan gynnwys gweithgareddau dysgu, yn digwydd drwy gyfrwng yr iaith drochi.

**Eraill:** teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill y mae eu gwaith yn cyfrannu at lesiant y plentyn

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDCCLD0347:** Hybu'r broses o gaffael iaith newydd gan blant drwy drochi mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Cymraeg 2020: Strategaeth y Gymraeg **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf**
- Cymwys am Oes, Llywodraeth Cymru 2014
- Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes. Llywodraeth Cymru 2015 **https://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-cy.pdf**
- Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg **https://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf**
- Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg – y camau nesaf **https://gov.wales/docs/dcells/publications/160309-next-steps-cy.pdf**
- Ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy**
- Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Diwygiwyd 2015)
- Canllawiau'r Cyfnod Sylfaen:
  - Meysydd Dysgu a rhaglenni astudio diwygiedig: Cam 1–llythrennedd a rhifedd.
  - Datblygiad creadigol
  - Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Datblygiad personol a chymdeithasol, llesiant ac amrywiaeth ddiwylliannol.
    - Datblygiad corfforol
    - Datblygu'r Gymraeg
    - Arsylwi ar Blant
    - Llawlyfr dysgu yn yr awyr agored y Cyfnod Sylfaen
    - Addysgeg dysgu ac addysgu
- Byw yng Nghymru, Dysgu'n Gymraeg **https://gov.wales/docs/dcells/publications/140701-live-in-wales-learn-in-welsh-bi.pdf**
- Hwb **http://hwb.wales.gov.uk/Resources/tree?sort=created&language=en&tags=Welsh%20Language%20Development&tags=Foundation%20Phase&nodeId=5128b4c2-7809-486d-b313-0b1c7cce2832**
- Mudiad Meithrin **http://www.meithrin.cymru/**
- Cwlwm **https://www.meithrin.cymru/cwlwm/**
- Cymraeg i Blant **https://en-gb.facebook.com/Cymraegiblant/**
- Mentrau Iaith **http://www.mentrauiaith.cymru/**
- Chwarae/Dysgu Gweithredol – Trosolwg i blant 3 i 7 oed

## Uned 509 Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd i ddatblygu sgiliau rhianta

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 21 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd/gofalwyr feithrin sgiliau rhianta.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae gweithwyr yn cyfeirio at yr aelodau o'r tîm sydd â chysylltiad wyneb-yn-wyneb â theuluoedd/gofalwyr. |

---

### Deilliant dysgu:

1. Arwain y defnydd o ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi gwaith gyda theuluoedd/gofalwyr

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth sy'n sail i ddeddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chanllawiau ar gyfer arwain gwaith gyda theuluoedd/gofalwyr

1.2 Ffactorau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a moesegol sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir gennych

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.3 Cefnogi'r broses o gymhwyso'r hyn a ddysgwyd o ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth wrth arwain gwaith gyda theuluoedd

1.4 Defnyddio eich dealltwriaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a moesegol i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau

---

### Deilliant dysgu:

2. Cefnogi'r broses o gymhwyso a deall datblygiad plant

## Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Cefnogi gweithwyr i gymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau am dwf, dysgu a datblygiad cyfannol

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain y gefnogaeth mae gweithwyr yn ei chael i sefydlu dulliau datblygu rhianta cadarnhaol gyda theuluoedd/gofalwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- yr hawl i fywyd teuluol
- sut y gellir defnyddio amrywiaeth o raglenni rhianta cadarnhaol i gefnogi teuluoedd/gofalwyr
- sut y mae ymarfer wedi'i lywio gan ymchwil a thystiolaeth yn sail i raglenni rhianta cadarnhaol
- gwasanaethau cefnogaeth a'r **dulliau gweithredu** y gellir eu defnyddio gyda theuluoedd/gofalwyr at ddibenion rhianta cadarnhaol
- effeithiolrwydd defnyddio gwaith allgymorth, grwpiau cymunedol neu ymweliadau â'r cartref i ymgysylltu â theuluoedd/gofalwyr
- sut i weithio gyda teuluoedd/gofalwyr er mwyn nodi'r dulliau gweithredu mwyaf priodol i'w mabwysiadu wrth weithio gyda nhw a gwasanaethau eraill a all eu helpu
- pwysigrwydd adolygu ac **addasu dulliau gweithredu er mwyn diwallu anghenion teuluoedd/gofalwyr**
- Yr angen i fod yn ddibynadwy ac yn gyson wrth weithio gyda theuluoedd/gofalwyr

3.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o fanteision rhianta cadarnhaol mewn perthynas â'r canlynol:

- ymddygiad rhieni
- ymddygiad plant
- ymlyniad
- datblygiad plant
- deallusrwydd emosiynol
- gwydnwch
- perthnasoedd
- hyder
- hunan-barch
- llesiant corfforol a llesiant meddwl

3.3 Pwysigrwydd modelu cadarnhaol a'r ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol wrth ddatblygu llesiant emosiynol plant

3.4 Pwysigrwydd sicrhau cysondeb wrth gefnogi teuluoedd/gofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.8 Sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:

- cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddeall y cysyniad o rianta cadarnhaol a nod rhaglenni cysylltiedig
- cadarnhau gyda'r teulu/gofalwyr ac eraill y dulliau mwyaf priodol ar gyfer meithrin sgiliau rhianta cadarnhaol
- cael cefnogaeth i weithio mewn ffordd arloesol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion gan deuluoedd/gofalwyr sy'n dod i'r amlwg

### Amrediad

**Dulliau gweithredu:** 1:1, gwaith grŵp, gwrando gweithredol, cyfweliadau cymhellol, therapi sy'n canolbwyntio ar atebion cryno, rheoli newid

**Addasu dulliau gweithredu er mwyn diwallu anghenion teuluoedd/gofalwyr:** gan gynnwys teuluoedd ag anghenion ychwanegol

**Eraill:** gweithwyr proffesiynol eraill

---

### Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli'r broses o gefnogi teuluoedd i adnabod ffactorau sy'n effeithio ar eu sgiliau rhianta

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Effaith y canlynol:

- pŵer a gwahaniaethu ar deuluoedd/gofalwyr
- ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ar deuluoedd/gofalwyr

4.2 Sut i gefnogi gweithwyr i adnabod y canlynol:

- cryfderau presennol a ffactorau amddiffynnol
- y ffactorau posibl a all arwain at sefyllfa lle y bydd angen cefnogaeth ychwanegol/lle y bydd cefnogaeth ychwanegol o fudd i deuluoedd/gofalwyr
- heriau ychwanegol y gallai teuluoedd/gofalwyr ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol eu hwynebu
- sut y gall effaith barn, rhagdybiaethau ystrydebol a disgwyliadau eraill arwain at stigmateiddio teuluoedd/gofalwyr

4.3 Dulliau gweithredu y gellir eu defnyddio i oresgyn rhwystrau gwirioneddol neu ganfyddedig i deuluoedd/gofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.4 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ystyried y canlynol:

- cryfderau presennol a ffactorau amddiffynnol
- y pwysau emosiynol, cymdeithasol ac amgylcheddol gwahanol a all fod ar deuluoedd/gofalwyr

- pam y mae teuluoedd/gofalwyr o bosibl yn cael anawsterau ag agweddau ar rianta cadarnhaol
- sut y gall teuluoedd/gofalwyr ddefnyddio eu profiad, eu harbenigedd a'u galluoedd wrth ofalu am eu plant
- cysylltiadau rhwng profiad unigolion yn ystod plentyndod a'u disgwyliadau ar gyfer eu plant
- y gefnogaeth a all fod ar gael i deuluoedd/gofalwyr gan aelodau ehangach o'r teulu, ffrindiau a rhwydweithiau rhianta
- sut y gall teuluoedd/gofalwyr ddatblygu rhwydweithiau cymunedol cefnogol a diogel a/neu eu hehangu
- cyfleoedd a/neu rwystrau i newid
- teimladau teuluoedd/gofalwyr o ran yr angen i gael gafael ar gefnogaeth

4.5 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd/gofalwyr i gydnabod effaith bosibl y canlynol:
- ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd
- ymddygiadau gwrthgymdeithasol
- cyrhaeddiad addysgol isel
- straen
- chwalfa deuluol
- goblygiadau tymor hir a thymor byr gwahanol ddewisiadau ffordd o fyw

4.6 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd i ddeall effaith y canlynol:
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod arnynt eu hunain ac ar eu plant a sut y gall rhianta cadarnhaol leihau'r risgiau cysylltiedig
- eu hymddygiad ar eu plant ac effaith ymddygiad eu plant arnyn nhw

4.7 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd i nodi'r canlynol:
- cryfderau presennol a ffactorau amddiffynnol
- canlyniadau cyflawnadwy realistig
- ymddygiadau yr hoffent eu newid
- sgiliau y mae angen iddynt eu gwella
- cyfleoedd realistig i newid eu ffordd o fyw

4.8 Herio rhagfarn, delweddau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at deuluoedd/gofalwyr

---

### Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli'r broses o gefnogi teuluoedd/gofalwyr i adlewyrchu ar a datblygu eu sgiliau rhianta

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.1 Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau bod teuluoedd/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddeall y canlynol:
- y broses asesu a chynllunio
- pwysigrwydd defnyddio dull seiliedig ar gryfderau

- pwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau
- cerrig milltir datblygu allweddol o ran datblygiad plant
- sgiliau rhianta ymarferol a fydd yn cefnogi datblygiad plant cyfannol

5.2 Sicrhau bod gweithwyr yn defnyddio dulliau cydweithredol er mwyn gwneud y canlynol:
- asesu a nodi'r sgiliau rhianta y mae angen i deuluoedd/gofalwyr eu meithrin er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd
- cynllunio sut y caiff y canlyniadau eu cyflawni
- cytuno ar y ffodd y caiff y cynllun ei werthuso
- cytuno ar unrhyw wybodaeth neu gefnogaeth ychwanegol y gall fod ei hangen gan weithwyr proffesiynol neu wasanaethau cefnogaeth eraill
- protocolau rhannu gwybodaeth a ddylai fod ar waith wrth weithio gyda gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau cefnogaeth eraill

5.3 Sicrhau bod gweithwyr yn gallu gwneud y canlynol:
- cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ymarfer sgiliau rhianta yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno
- atgyfnerthu ffyrdd o ryngweithio, ymddygiad a sgiliau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y broses o gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt mewn ffordd gadarnhaol
- modelu'r defnydd o ddulliau ar gyfer sgiliau rhianta
- cefnogi teuluoedd/gofalwyr i nodi, datblygu a chynnal perthnasoedd a rhwydweithiau diogel a chadarnhaol

5.4 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd/gofalwyr i fyfyrio ar y canlynol:
- eu ffyrdd o ryngweithio, ymddygiad a sgiliau
- yr effaith y mae'r rhain yn eu cael ar y broses o gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt

5.5 Cefnogi gweithwyr i helpu teuluoedd/gofalwyr i ddeall pwysigrwydd y canlynol:
- disgwyliadau realistig mewn perthynas ag ymddygiad a datblygiad plant
- dull cyson mewn perthynas â ffiniau ar gyfer ymddygiadau a threfnau y cytunwyd arnynt
- cynnwys plant ac ymgynghori â nhw yn unol â'u hoedran, eu galluoedd a'u cam datblygu
- canolbwyntio ar gryfderau eu plant
- adnabod a gwerthfawrogi rhinweddau, sgiliau a galluoedd unigryw eu plant
- defnyddio canmoliaeth
- perthnasoedd tymor hir, diogel a sefydlog o fewn y teulu
- nodi cyfleoedd i dreulio amser cadarnhaol â'r teulu ac effaith yr amser hwn

5.6 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddefnyddio dulliau myfyrio i wneud y canlynol:
- nodi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda a newidiadau cadarnhaol
- nodi newidiadau pellach sydd eu hangen er mwyn gallu rhianta mewn modd cadarnhaol a meithrin gwydnwch
- addasu ffyrdd o ryngweithio ac ymddygiad

5.6 Sicrhau bod gweithwyr yn cefnogi teuluoedd/gofalwyr i adnabod eu teimladau eu hunain ac i ddatblygu strategaethau ymdopi a rheoleiddio emosiynol

Deilliant dysgu:

6. Arwain gwaith partneriaeth er mwyn cefnogi teuluoedd/gofalwyr

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i gefnogi gweithwyr i wybod am y canlynol:

- yr amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau cefnogaeth a all fod yn rhan o'r broses o gefnogi teuluoedd/gofalwyr, a rolau'r unigolion a'r gwasanaethau hynny
- egwyddorion gweithio mewn partneriaeth
- sut a phryd y dylid atgyfeirio achosion at weithwyr proffesiynol neu wasanaethau cefnogaeth eraill
- pwysigrwydd cael cydsyniad gan deuluoedd/gofalwyr i rannu gwybodaeth ac atgyfeirio achosion at asiantaethau eraill a phryd na cheir cydsyniad
- amrywiaeth a diben fforymau lle y gall fod angen rhannu gwybodaeth am deuluoedd/gofalwyr
- yr adegau lle y gellir rhannu gwybodaeth gan deuluoedd/gofalwyr heb gydsyniad
- Pwysigrwydd trafod â theuluoedd/gofalwyr y wybodaeth a gaiff ei rhannu ag asiantaethau eraill heb gael eu cydsyniad ymlaen llaw
- Fformat a diben gwybodaeth a sut y dylid ei chyflwyno
- sut y gall y geiriau a ddewisir effeithio ar deuluoedd/gofalwyr a chanfyddiadau pobl eraill ohonynt
- Y gwahanol adroddiadau y gall fod angen eu cyflwyno'n bersonol **mewn amrywiaeth o leoliadau**

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.2 Sicrhau bod gweithwyr yn gwneud y canlynol:

- meithrin ymddiriedaeth a hyder gydag eraill gan gydnabod eu rolau, cyfrifoldebau, atebolrwyddau ac arbenigedd eu hunain ac eraill
- cydymffurfio â phrotocolau cydweithio a rhannu gwybodaeth
- defnyddio iaith sy'n parchu teuluoedd/gofalwyr

**Amrediad**

**Mewn amrywiaeth o leoliadau:** cynadleddau achos, llys, adolygiadau ymarfer mewn perthynas â phlant

Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli'r gwaith o gyflwyno rhaglenni rhianta

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.1 Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n gwneud y canlynol:

- sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cefnogi i gadarnhau'r **dull cyflwyno** mwyaf priodol ar gyfer rhaglenni rhiant â theuluoedd/gofalwyr
- sicrhau bod gweithwyr yn meddu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno rhaglenni rhianta
- monitro a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni rhianta
- defnyddio data ansoddol a meintiol i nodi tueddiadau a all effeithio ar rianta cadarnhaol
- defnyddio data i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd y caiff rhaglenni rhianta a gwasanaethau ehangach eu cyflwyno
- defnyddio sail dystiolaeth ar gyfer dewis dulliau cyflwyno ac adnoddau gwerthuso

## Amrediad

**Dull cyflwyno:** 1:1 neu waith grŵp

# Uned 509 Arwain a rheoli cefnogaeth i deuluoedd feithrin sgiliau rhianta

## Gwybodaeth Ategol

### *Canllawiau cyflwyno*

Gallai **anghenion ychwanegol** gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Anabledd corfforol
- Anabledd dysgu
- Awtistiaeth
- Anghenion iechyd ychwanegol
- Colli'r synhwyrau
- Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
- Ymlyniadau ansicr
- Angen ymddygiadol
- Anghenion cymdeithasol ychwanegol
- Rhieni mabwysiadol
- Ceiswyr lloches
- Rhieni ag anabledd
- Rhieni o leiafrif ethnig
- Teuluoedd sy'n wynebu cam-drin domestig
- Rhieni ifanc
- Teuluoedd sy'n wynebu tlodi
- Teuluoedd ag un rhiant yn y carchar
- Rhieni maeth gan gynnwys gofalwyr sy'n berthynas
- Salwch meddwl
- Rhieni nad ydynt yn byw gyda'u plant
- Plentyn/plant ag anabledd
- Gofalwyr ifanc
- Diffygion emosiynol

**Ymddygiadau gwrthgymdeithasol** – ymddygiad ymosodol a threisgar, problemau gyda gwasanaethau cyfiawnder troseddol

Mae **dulliau gweithredu ac ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth** yn cynnwys y canlynol: rhaglenni rhianta, a rhaglenni ymyriadau cryno, ar gyfer

- Rheoli cwsg a Chysgu Mwy Diogel
- Datblygu Lleferydd,
- Bwydo ymatebol (bwydo ar y fron a bwydo gan ddefnyddio poteli)
- Diddyfnu (mesuriadau twf)

- arferion bwyta ffyslyd/trafferthus
- Cyffwrdd cadarnhaol
- Ymddygiad
- Newidiadau i ffyrdd o fyw
- Hybu Iechyd/ Ymyriadau Cryno (SIDS, Ymarfer corff, alcohol, smygu, gordewdra, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ac atal damweiniau a hylendid y geg)
- Asesiadau Iechyd y Geg ar bob plentyn o dan 3 oed
- Rhianta Cadarnhaol
- Cyfweliadau Cymhellol

**Manteision ymyriadau cryno a rhaglenni rhianta cadarnhaol:** dylid nodi bod y rhaglenni hyn hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar y teuluoedd/gofalwyr sy'n eu dilyn, yn enwedig o ran hyder, hunan-barch, llesiant corfforol a llesiant meddwl

**Anfantais yn ystod plentyndod:** plant sy'n ddifreintiedig ac sydd wedi'u hamddifadu o safon byw weddol dda ac ysgogiad ac amgylchedd priodol, heb fynediad at addysg na gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd, o ganlyniad i dlodi a diffyg cyfle. Dangoswyd bod cysylltiad rhwng anfantais yn ystod plentyndod ag **ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd, ymddygiad gwrthgymdweithasol, cyrhaeddiad addysgol gwael**, straen a chwalfa deuluol yn ddiweddarach mewn bywyd

**Gallai amgylchiadau a materion cyfoes gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:**

- Diwylliant
- Dwyieithrwydd
- Brechu
- Arferion Bwydo Babanod
- Iechyd corfforol neu iechyd meddwl gwael
- Smygu
- Anabledd
- Anghenion sy'n gysylltiedig ag oedran
- Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau
- Heriau o fewn teuluoedd, chwalfa deuluol neu gydberthnasau personol pwysig eraill
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- Anfantais yn ystod Plentyndod
- Ffoaduriaid
- Gofalwyr ifanc

Mae **ymyrraeth gynnar** yn cyfeirio at: darpariaeth ataliol gyffredinol (fel gofal iechyd ac addysg gynnar gyffredinol) i deuluoedd â phlant ar gamau cynnar bywyd; targedu darpariaeth yn gynnar a chyn gynted â phosibl pan fydd plentyn neu berson ifanc a/neu ei deulu yn dechrau cael anawsterau neu'n dechrau arddangos ymddygiad problematig; a rhaglenni neu fentrau wedi'u targedu, a ddarperir i blant/pobl ifanc, teuluoedd neu grwpiau neu gymunedau

penodol â nodweddion sy'n golygu, yn ôl tystiolaeth, eu bod yn fwy tebygol o gael canlyniadau gwael

**Cyrhaeddiad addysgol** – ymgysylltu ag addysg, y gallu i ennill cymwysterau

**Teuluoedd/ gofalwyr** – rhieni, gofalwyr, plant a/neu deuluoedd ag anghenion gofal a chymorth ychwanegol (gall gofalwyr gynnwys unigolion eraill sy'n rhan o'r teulu, nid dim ond y rhieni, e.e. neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd).

**Ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd** – smygu, problemau alcohol, deiet gwael, lefelau isel o ymarfer corff ac ymddygiad rhywiol peryglus

**Protocolau rhannu gwybodaeth:** gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) gan ei fod yn ymwneud â'r Ddyletswydd Gyhoeddus i Rannu Data, WASPI a chanllawiau Calldicott

**Rhianta**: Mae rhianta yn weithgaredd y mae'r rheini sy'n magu plant yn ymgymryd ag ef, gan gynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol, llys-rieni, gofalwyr sy'n berthnasau a neiniau a theidiau.

**Cefnogaeth Rhianta**: Gwasanaethau a chefnogaeth a ddarperir gyda'r nod o:
wella sgiliau rhianta; gwella perthnasoedd rhwng rhieni a'u plant; gwella dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad rhieni a chynyddu hyder rhieni er mwyn hybu llesiant cymdeithasol, corfforol ac emosiynol plant.

**Heriau penodol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth:** GDPR a hawl y teulu i breifatrwydd, yn erbyn yr angen i rannu gwybodaeth.

**Proses gynllunio:** pennu nodau neu ganlyniadau, monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

**Rhianta Cadarnhaol**: Mae'n cyfeirio at ymddygiad gan rieni sydd er budd pennaf y plentyn, yn feithringar ac yn grymuso, nad yw'n dreisgar ac sy'n cydnabod ac yn arwain gan bennu ffiniau er mwyn galluogi'r plentyn i ddatblygu'n llawn.

**Rhaglenni rhianta cadarnhaol:** gallent gynnwys:
- Triple ‘P’
- Webster Stratton, Incredible Years
- Strengthening Families / Strengthening Communities.

**Effeithiau posibl methu â diwallu anghenion:** gall yr effeithiau hyn fod ar y teulu/gofalwr/plentyn/gweithiwr, a byddent yn cynnwys effaith achosion o reolaeth fewnol ac allanol.

Mae **ffactorau amddiffynnol** yn amodau neu'n nodweddion sy'n gysylltiedig ag unigolion, teuluoedd, cymunedau neu'r gymdeithas ehangach sy'n lliniaru neu'n gwaredu risg mewn

teuluoedd a chymunedau, gan felly wella iechyd a llesiant plant a theuluoedd. Mae ffactorau amddiffynnol yn helpu rhieni i ddod o hyd i adnoddau, cymhorthion, neu strategaethau ymdopi sy'n eu galluogi i rianta'n effeithiol, hyd yn oed pan fyddant o dan bwysau.

**Gwydnwch:** mae'n cyfeirio at ba mor dda y gall unigolyn "ddod yn ei ôl" yn dilyn profiadau trawmatig andwyol, anfantais gymdeithasol neu ar ôl dioddef straen sylweddol. Mae ymchwil i wydnwch yn tynnu sylw at y ffactorau a fydd yn golygu bod perygl y bydd plant yn wynebu canlyniadau gwael neu a fydd yn eu hamddiffyn. Ymhlith y ffactorau risg mae magwraeth y rhieni,
disgyblaeth lem ac anghyson gan y rhieni; a gwrthdaro/trais. Ymhlith y ffactorau amddiffynnol mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a'u plant a rhwydwaith ehangach o gefnogaeth gymdeithasol.

**Dull seiliedig ar gryfderau**: Ceir dull seiliedig ar gryfderau pan fydd gweithwyr allweddol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar wydnwch, ffactorau amddiffynnol a chryfderau. Mae hyn yn gwneud y canlynol: cyfleu ymdeimlad o obaith; pennu disgwyliadau ar gyfer llwyddiant sydd o fewn galluoedd unigolyn; hybu
grym ac annibyniaeth a rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant.

**Gwasanaethau cefnogaeth:** Y mathau a'r lefelau gwahanol o raglenni iechyd ac ymyrraeth i blant, boed yn rhai wedi'u targedu (Dechrau'n Deg) neu'n rhai cyffredinol – ymweld â'r cartref (ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu), asesiad teulu (gwasanaethau i deuluoedd, 'Tîm o Amgylch y Plentyn/Teulu'), deietegydd cymunedol a chynllun cyn-ysgol iach a chynaliadwy, gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned (grwpiau rhieni a phlant bach, amser stori, clybiau llyfrau, Dechrau Da, grwpiau chwaraeon/hamdden).

**Damcaniaethau am dwf, dysgu a datblygiad cyfannol:** Cymdeithasegol (e.e. lluniad cymdeithasol; ecolegol ac ati), biolegol (e.e. oedrannau a chamau), seicolegol (e.e. ymddygiadaeth, gwybyddol, ymlyniad), seicogymdeithasol (e.e. Erikson – hunaniaeth), camau hollbwysig o ran datblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd yn ystod: y cyfnod cyn-geni, plentyndod cynnar, y glasoed, oedolaeth ifanc, ffactorau posibl a Phrofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod a allai effeithio ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd, potensial straen a thrawma i achosi niwed i ddatblygiad cyffredinol a llesiant plant a phobl ifanc drwy gydol eu bywyd, sut y gall achosion o gam-drin a thrawma effeithio ar niwroddatblygiad plant wrth iddynt dyfu i fyny, sut y gall gwahanol arddulliau ymlynu effeithio ar y ffordd y mae plant ac oedolion yn gweithredu mewn cymdeithas, yn meithrin perthnasoedd ac ymateb i eraill, y potensial i ymddygiad plant sydd wedi cael eu cam-drin ac wedi dioddef trawma newid yn ystod eu bywyd, y cysylltiadau rhwng ymddygiad, camau datblygiadol a phrofiadau o gam-drin a thrawma, sut y gall trawma waethygu rhwng cenedlaethau

**Teuluoedd agored i niwed**: Mae hyn yn cyfeirio at deuluoedd sy'n agored i ddatblygu anawsterau rhianta neu'r rheini y mae perygl na fyddant yn gallu amddiffyn eu plant neu ofalu amdanynt yn ddigon da. Gall fod mwy o risg i deuluoedd os byddant yn wynebu amgylchiadau andwyol fel tlodi, diweithdra, profedigaeth, camddefnyddio alcohol neu sylweddau, problemau iechyd meddwl neu iechyd corfforol; cam-drin domestig neu ddiffyg rhwydwaith cefnogaeth. Mae hefyd yn cyfeirio at deuluoedd y mae eu statws lleiafrifol neu eu

sefyllfa yn golygu eu bod yn agored i wahaniaethu neu ynysu (er enghraifft teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, teuluoedd sy'n ffoaduriaid neu'n
geiswyr lloches, teuluoedd un rhiant neu rieni ifanc).

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDCCLD 0313** Cefnogi ymyrraeth gynnar er budd plant a theuluoedd
- **SCDCCLD 0319** Hybu byw'n iach i blant a theuluoedd
- **SCDCCLD 0322** Grymuso teuluoedd drwy feithrin sgiliau rhianta
- **SCDHSC 0319** Cefnogi teuluoedd plant a phobl ifanc yn eu cartrefi eu hunain
- **SCDHSC 0047** Helpu rhieni a gofalwyr i ddysgu sgiliau er mwyn gofalu am fabanod, plant a phobl ifanc a'u diogelu
- **WWP01** Ymgysylltu â rhieni er mwyn meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol a chefnogol sy'n grymuso.
- **WWP09** Gweithredu o fewn ffiniau polisi, cyfreithiol, moesegol a phroffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd.

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016
- Dechrau'n Deg – Canllawiau ar Gymorth Rhianta **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-guidance-cy.pdf**
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith gyda Rhieni **https://app.pelorous.com/media_manager/public/115/publications/Qualifications/work-with-parents-nos-jan-2011.pdf**
- Barnardo's – Promoting Resilience: A Review of Effective Strategies for Child Care Services, Dr. Tony Newman, Ymchwil a Datblygu Barnardo's, 2002 http://www.barnardos.org.uk/resilsum.pdf
- Research into Practice Building emotional resilience in the children and families workforce – an evidence-informed approach: Strategic Briefing (2016) gan Gail Kinman a Louise Grant **https://www.rip.org.uk/resources/publications/strategic-briefings/building-emotional-resilience-in-the-children-and-families-workforce--an-evidenceinformed-approach-strategic-briefing-2016**
- Parenting and resilience, Malcolm Hill, Anne Stafford, Peter Seaman, Nicola Ross a Brigid Daniel, Sefydliad Joseph Rowntree, 2007, **https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/parenting-resilience-children.pdf**
- Ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref Llywodraeth Cymru **https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?skip=1&lang=cy**
- Llywodraeth Cymru, Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth, 2014 **https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf**
- Adroddiad Ymchwiliad Bichard (2004) **http://dera.ioe.ac.uk/6394/1/report.pdf**
- Amddifadedd chwarae (2003) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%** 20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf

- Chwarae: iechyd a lles (2012) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Arfer myfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) **https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol**
- Defnydd ymarferol o ddyfeisiau digidol mewn lleoliadau chwarae (2018) **http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Defnydd%20ymarferol%20o%20ddyfeisiau%20digidol%20mewn%20lleoliadau%20chwarae.pdf**
- Ffactorau amddiffynnol
- https://www.childwelfare.gov/topics/preventing/promoting/protectfactors/
- Cynllun y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar. Rhag 2017. Llywodraeth Cymru **https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/140922-early-years-childcare-and-play-workforce-in-wales-plan-cy.pdf**
- Gofal plant i blant 3 a 4 oed (y cynnig 30 awr) **https://llyw.cymru/gofal-plant-i-blant-3-4-oed**
- Safonau'r Gymraeg 2018 **http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh**
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data**https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation**,
- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI 2018) **http://www.waspi.org/hafan**
- Egwyddorion Calldicott (2013) **https://www.igt.hscic.gov.uk/Caldicott2Principles.aspx**
- Adroddiadau ar Brofiadau Andwyol yn ystod Plentyndod – **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88504**
- Bwrdd Diogelu Cymru Gyfan **http://bwrdddiogelu.cymru/practice-reviews/?noredirect=cy_GB/**
- Adolygiadau o Ymarfer Plant **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/92289**
- Adolygiadau Thematig Byrddau Diogelu Lleol
    - Gogledd Cymru **https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/adolygiadau-ymarfer/adolygiadau-ymarfer-plant/**
    - Caerdydd a Bro Morgannwg **https://www.cardiffandvalersb.co.uk/cy/plant/gweithwyr-proffesiynol-chyflogwyr/beth-yw-adolygiad-arfer-plant/**
- Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltu **https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/170519-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf**

# Uned 510 Arwain a rheoli lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli lleoliadau sy'n hybu ac yn cefnogi plant wrth ddatblygu lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu a nodi achosion lle y disgwylir y bydd y datblygiad y tu allan i'r amrediad ddisgwyliedig.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'plant' yn cyfeirio at blant a phobl ifanc. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n adlewyrchu canllawiau a fframweithiau sy'n cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich lleoliad

1.2 Damcaniaethau a thystiolaeth ymchwil sydd wedi dylanwadu ar bolisi ac ymarfer mewn perthynas â hybu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu

1.3 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o bolisïau a chanllawiau cenedlaethol sy'n sail i effeithiau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar ymarfer

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- Egwyddorion sy'n sail i ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Beth yw ystyr y termau canlynol:
    - Iaith
    - Lleferydd

- Cyfathrebu
- llythrennedd

- Pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i ddysgu, twf a datblygiad cyfannol
- Patrymau/cyfnodau nodweddiadol lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Manteision dwyieithrwydd/amlieithrwydd mewn perthynas â datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Sut i nodi rhwystrau posibl a allai godi i blant nad iaith y lleoliad yw eu hiaith gyntaf
- Y termau:
    - Dwyieithrwydd cydamserol
    - Dwyieithrwydd olynol
- Manteision caffael iaith newydd drwy drochi.
- Ystyr gwahaniaethau normal mewn datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu nodweddiadol.
- **Ffactorau** sy'n effeithio ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plentyn
- Nodweddion amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol
- Effaith lleferydd, iaith a chyfathrebu ar **feysydd eraill** o ddatblygiad plentyn

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.2 Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi plant i feithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu

2.3 Darparu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol lle y gall plant chwarae, dysgu a datblygu

**Amrediad**

**Ffactorau** – ffisiolegol, seicolegol a chymdeithasegol

**Meysydd eraill –** datblygiad personol a chymdeithasol, datblygiad corfforol, datblygiad gwybyddol, datblygiad ymddygiadol, sgiliau llythrennedd.

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer i adlewyrchu fframweithiau damcaniaethol sy'n sail i ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

3.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- Nodweddion allweddol **damcaniaethau** traddodiadol a chyfoes mewn perthynas â datblygiad a chwarae plant fel y maent yn berthnasol i leferydd, iaith a chyfathrebu
- Swyddogaeth canolfannau iaith yn yr ymennydd a'r llwybrau niwrolegol cysylltiedig
- Effaith dwyieithrwydd ar ddatblygiad niwrolegol a datblygiad yr ymennydd
- Y term ‘cyfleoedd da’ a'u perthnasedd i ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Y termau 'yn disgwyl profiadau' ac 'yn dibynnu ar brofiadau' fel y maent yn berthnasol i leferydd, iaith a chyfathrebu

- Y term ‘cyflwyno a dychwelyd’ a sut y mae'n cefnogi'r broses o ddatblygu canolfannau iaith yn yr ymennydd

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Sicrhau bod eraill yn cefnogi plant i ddatblygu sgema sy'n ymwneud â lleferydd, iaith a chyfathrebu

3.3 Datblygu amgylchedd iaith cynhwysol sy'n cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad

### Amrediad

**Damcaniaethau**: gwybyddol, dyneiddiol, dysgu cymdeithasol, gwydnwch, lluniadaethol, ymddygiadol, chwarae

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r amrywiaeth o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a'r gwahaniaethau rhyngddynt

4.2 Y gwahaniaeth rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu tymor byr/dros dro ac anghenion parhaus o'r fath

4.3 Y termau anhwylder iaith datblygiadol (DLD) ac anhwylderau iaith datblygiadol (DLD) sy'n gysylltiedig ag anableddau eraill/cysylltiedig.

4.4 Sut i nodi ac asesu plant lle nad yw eu hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn yr amrediad ddisgwyliedig a sut y dylid cofnodi achosion o'r fath a rhoi gwybod amdanynt

4.5 Y camau i'w cymryd pan na fydd sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant o fewn yr amrediad ddisgwyliedig

4.6 Y strategaethau a'r technegau gwahanol sydd ar gael i gefnogi plant ag **anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

4.7 Pwysigrwydd polisïau a gweithdrefnau gweithle/lleoliad ynghylch ceisio cyngor a gwneud atgyfeiriadau

4.8 Nodi'r **llwybr/gweithdrefn atgyfeirio** ar gyfer plant / pobl sy'n dangos arwyddion o anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

4.9 Cefnogaeth/ymyriadau cenedlaethol a lleol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu

4.10 Pwysigrwydd monitro, cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth berthnasol

4.11 Mathau o weithgareddau y gellid eu defnyddio ar gyfer yr amrediadau oedran gwahanol er mwyn hybu datblygiad lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd

Rydych yn gallu gweithio
mewn ffyrdd sy'n:

4.12 Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer nodi ac atgyfeirio

4.13 Sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar gyfer nodi ac atgyfeirio

4.14 Arwain a rheoli'r broses o gwblhau arsylwadau ac asesiadau priodol ac amserol er mwyn casglu tystiolaeth i ategu argymhellion ac atgyfeiriadau

4.15 Cefnogi gweithwyr i wneud y canlynol:

- Defnyddio arsylwadau ac asesiadau i nodi a oes unrhyw wahaniaethau o ran datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu disgwyliedig yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
- Sicrhau y rhoddir gwybod am arsylwadau ac asesiadau, ac y cânt eu cofnodi, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad
- Hybu'r defnydd o arsylwadau a myfyrdodau ar blant i lywio gwaith cynllunio
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a defnyddio profiadau a gweithgareddau parhaus ac wedi'u cyfoethogi i gefnogi datblygiad sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd yn unol â'ch rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun
- Hybu'r defnydd o amrywiaeth o strategaethau a thechnegau i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Defnyddio cefnogaeth/ymyriadau lleferydd, iaith a chyfathrebu cenedlaethol a lleol, a rhai'r lleoliad

### Amrediad

**Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n gysylltiedig ag anghenion ychwanegol eraill, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu tymor byr, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus.

**Llwybr/gweithdrefn atgyfeirio –** dylai hyn gynnwys y ffurflenni atgyfeirio, asesiadau i ategu'r atgyfeiriad, ble neu at bwy y dylid anfon y wybodaeth hon.

---

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli'r broses o ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn eich lleoliad

## Meini prawf asesu

## Rydych yn deall:

5.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o nodweddion amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol a sut y gellir creu amgylchedd o'r fath yn eich gweithle/lleoliad

### Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Asesu ansawdd yr amgylchedd a'r rhyngweithio rhwng oedolion a phlant yn eich gweithle/lleoliad er mwyn sicrhau y caiff anghenion plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu eu diwallu

5.3 Arwain y broses o ddatblygu amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn eich gweithle/lleoliad

## Deilliant dysgu:

6. Arwain a rheoli ymarfer cynhwysol i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- Pwysigrwydd rôl oedolion o ran meithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Rôl y teuluoedd/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf a phartneriaid mewn dysgu, twf a datblygiad parhaus
- Pwysigrwydd dull seiliedig ar gryfderau o weithio gyda phlant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
    - mewn sefydliad/lleoliad
    - ar sail un i un yng nghartrefi'r teuluoedd/gofalwyr eu hunain

6.2 Y ffactorau sy'n hwyluso gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill ac amlasiantaethau

### Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.3 Cefnogi gweithwyr i wneud y canlynol:

- meithrin sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd plant
- dilyn dull partneriaeth o gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith, cyfathrebu a llythrennedd

---

## Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli'r broses o gynllunio a gwerthuso strategaethau ac ymyriadau i gefnogi'r broses o ddatblygu plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich gweithle/lleoliad

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Rôl gwahanol asiantaethau a rhanddeiliaid wrth ddatblygu strategaethau ac ymyriadau i gefnogi plentyn ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.2 Hwyluso'r broses o gynllunio, gwerthuso a gweithredu strategaethau/ymyriadau priodol er mwyn cefnogi'r plentyn/person ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich gweithle/lleoliad

7.3 Adolygu'r systemau a'r prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso effaith/canlyniadau ymyriadau i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eich gweithle/lleoliad ac awgrymu gwelliannau iddynt

7.4 Arwain a rheoli **eraill** er mwyn iddynt addasu eu hymarfer a'r amgylchedd ffisegol er mwyn sicrhau y caiff anghenion plant/pobl eu diwallu.

7.5 Cynghori cydweithwyr, teuluoedd/gofalwyr ar y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael yn genedlaethol a/neu'n lleol i gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Amrediad

**Eraill** – cydweithwyr, teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr o rwydwaith lleol ac ati.

# Uned 510 Arwain a rheoli lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu

Gwybodaeth Ategol

## *Gofynion tystiolaeth*

Bydd y dystiolaeth ar gyfer yr uned hon yn cael ei chyflwyno drwy'r tasgau strwythuredig. Mae canllawiau ar gyfer unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gall fod ei hangen i'w gweld yn y pecyn asesu. Bydd angen i unigolion sy'n meddu ar lefelau uchel o gymhwysedd galwedigaethol a phrofiad diweddar o gefnogi plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu asesu'r uned hon.

## *Canllawiau cyflwyno*

**Rhwystrau:** gallant gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd ffisegol; â pherthnasoedd rhyngbersonol a'r amgylchedd emosiynol; ag arferion gwaith; ag argaeledd adnoddau gan gynnwys adnoddau dynol neu gymorth neu gymhorthion eraill; â chyfyngiadau eich sgiliau cyfathrebu neu'ch astudrwydd eich hun neu rai pobl eraill; â chyd-destunau diwylliannol; ag amgylchiadau penodol y plentyn, gan gynnwys anabledd, anfantais, pryder neu ofid.

Gall **cyfathrebu** (anfon a derbyn negeseuon) fod yn eiriol neu'n ddieiriau

Beth mae sgyrsiau'n ei olygu?

- O leiaf ddau berson
- Cymryd tro
- Mynegiannau'r wyneb
- Iaith y corff
- Cydamseru – adlewyrchu neu ddynwared ystumiau a seiniau eich gilydd
- Seibiannau
- Rhythm, cywair ac alaw
- Goslef
- Ymatebion – geiriol – seiniau neu eiriau a dieiriau

**Oedi ac Anhwylder ac Iaith Dderbyngar a Mynegiannol**
**https://www.afasic.org.uk/about-talking/more-about-speech-language-and-communication/**

***Oedi ac anhwylder***

Mae oedi wrth ddeall a siarad yn golygu bod plentyn yn datblygu'r sgiliau hyn yn arafach ond gan ddilyn y drefn ddisgwyliedig a phatrwm nodweddiadol.

Defnyddir y term anhwylder pan fydd sgiliau gwrando, deall a siarad plentyn yn datblygu mewn ffordd annisgwyl, sy'n wahanol i blant eraill ac nad yw'n dilyn patrwm nodweddiadol.

Er bod y gwahaniaethau hyn o bosibl yn ymddangos yn glir, yn ymarferol, er enghraifft gyda phlant ifanc, gall fod yn anodd i weithwyr proffesiynol eu nodi, ac mae'n bosibl y bydd plentyn yn dangos elfennau o oedi ac anhwylder. Gellir defnyddio nifer o labeli i ddisgrifio anghenion

eich plentyn felly mae'n bwysig gofyn beth y mae gweithiwr proffesiynol yn ei olygu wrth awgrymu label penodol.

***Iaith dderbyngar a mynegiannol***

Dyma dermau a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol i ddisgrifio sgiliau gwrando, deall a mynegi (drwy siarad neu drwy gyfrwng arall fel arwyddeg).

Ystyr iaith dderbyngar yw'r gallu i ddeall gwybodaeth. Mae'n golygu deall y geiriau, y brawddegau ac ystyr yr hyn y mae eraill yn ei ddweud neu'r hyn a ddarllenir.

Ystyr iaith fynegiannol yw'r gallu i fynegi meddyliau mewn geiriau a brawddegau, mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ac sy'n ramadegol gywir. Mae iaith fynegiannol hefyd yn llywio gwaith ysgrifennu unigolyn.

**Ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith plant**. Mae cyfathrebu yn sgil bywyd hanfodol ac yn faes allweddol er mwyn datblygu wrth ddysgu. Mae'r amgylchedd iaith y caiff plant eu hamlygu iddo yn cael dylanwad sylweddol ar ddatblygiad eu lleferydd, eu hiaith a'u cyfathrebu. Gall amgylcheddau iaith gwael arwain at oedi wrth ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Ymhlith y ffactorau i'w hystyried mae: manteision cadarnhaol amlieithrwydd, amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol, rhyngweithio rhwng oedolion a phlant (gemau lle mae angen cymryd tro, cyfathrebu ymatebol, proto-sgyrsiau, ciwiau geiriol a di-eiriau, cyswllt llygaid, mynegiannau wyneb), argaeledd profiadau darllen a rennir, ffactorau corfforol (gwefus a thaflod hollt, defnyddio dymis, namau ar y clyw), nam gwybyddol, Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig, amddifadedd cymdeithasol, profiadau andwyol yn amrediad plentyndod.

**Pwysigrwydd oedolion o ran meithrin sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu**

- Cyfathrebu â phlant mewn ffordd briodol sy'n addas i'w cyfnod datblygu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion y byddant yn eu deall
- Dangos sgiliau gwrando gweithredol ac ymateb i'r hyn y mae plant wedi'i ddweud
- Dangos esiampl drwy ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd
- Ymestyn ac ailadrodd yr hyn y mae plant yn ei ddweud
- Ail-ddweud yr hyn y mae plant yn ei ddweud
- Gofyn cwestiynau penagored
- Deall datblygiad plant er mwyn gallu cefnogi'r dysgu
- Sicrhau bod plant yn cael yr amser a'r cyfleoedd chwarae i ymarfer sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Cynnig cyfleoedd i blant chwarae a siarad â'i gilydd.
- Gall ymarferwyr gefnogi teuluoedd/gofalwyr i ddarparu amgylchedd llawn iaith yn y cartref

**Prif ddamcaniaethau –** gan gynnwys Cynhwynolwyr (Chomsky), Damcaniaeth Wybyddol (Piaget), Rhyngweithwyr (Bruner), Damcaniaeth Ymddygiad/Gwobr (Skinner).

**Amgylcheddau cyfathrebu cadarnhaol:**

Gellir rhannu amgylcheddau cyfathrebu cadarnhaol yn dri maes allweddol:

1. Dylai'r *amgylchedd dysgu iaith* ystyried y canlynol:
   - <u>Gofod, golau a chynllun</u>: A oes mannau clyd a chyfforddus i siarad? Allwch chi weld wynebau pobl pan fyddant yn siarad? Allwch chi aildrefnu cynllun yr ystafell er mwyn

sicrhau ei fod yn addas ar gyfer gwahanol gyfleoedd i sgwrsio – mewn parau neu mewn grwpiau bach neu fawr?

- Lefelau sŵn: Beth yw lefel gyffredinol y sŵn? A oes unrhyw sŵn yn tarfu, boed o'r tu mewn neu'r tu allan? A oes ffyrdd y gellir cael sylw pobl? A all pawb glywed ac a ellir clywed pawb? A oes adegau o dawelwch?
- Defnyddio cefnogaeth weledol: Mae amgylchedd cyfathrebu cadarnhaol yn cynnwys arwyddion, symbolau, ffotograffau ac weithiau waith ysgrifennu. I ba raddau y cânt eu defnyddio a pha mor gyson? A gânt eu defnyddio fel labeli, i ategu trefnau neu fel amserlenni? A ddangosir i'r rhieni sut y maent yn gweithio? A ddarperir y swm priodol a'r math priodol o gefnogaeth weledol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant?
- Trefnau clir a chyson: Sut y mae amgylchedd y lleoliad yn helpu plant i wybod beth i'w ddisgwyl a phryd? I ba raddau y mae'r cymhorthion gweledol a ddefnyddir yn helpu'r plant i ddeall trefnau a'u dilyn?

2. Dylai *Rhyngweithiadau Dysgu Iaith* ystyried y canlynol:
   - Rôl oedolion yn y lleoliad: Mae sut y mae oedolion yn gwrando ar blant ac yn siarad â nhw yn hollbwysig. Mae hyn yn cynnwys modelu iaith, cefnogi plant i ofyn cwestiynau, ehangu ac ymhelaethu ar yr hyn y mae plant yn ei ddweud, a chyflwyno ac esbonio geiriau newydd.

3. Dylai *Cyfleoedd Dysgu Iaith* ystyried y canlynol:
   - Sut y caiff cyfleoedd eu cynllunio a'u creu i gefnogi'r broses gyfathrebu drwy gydol y dydd: Gall fwy neu lai pob digwyddiad, achlysur neu weithgaredd yn amrediad y dydd gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu, felly dylai ysgol sy'n ystyriol o ran dulliau cyfathrebu geisio sicrhau y cynllunnir ar gyfer yr holl gyfleoedd hyn ac y manteisir arnynt. Yn ogystal, dylid cynllunio gweithgareddau wedi'u cynllunio'n benodol i ganolbwyntio ar gyfathrebu.

     **https://www.earlyyearscareers.com/eyc/enabling-environment/10-ways-create-communication-friendly-environment/**

Mae amrywiaeth o adnoddau hunanwerthuso ar gael i leoliadau:

- **https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/267204/3_4_key_features_of_a_communication-friendly_classroom_final.pdf**
- **https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/643573/communication_friendly_environments_checklist_june_2018.pdf**

**Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLCN):**

***Anhwylder iaith datblygiadol***

Mae anhwylder iaith datblygiadol yn gyflwr gydol oes lle y ceir anawsterau i ddeall a/neu ddefnyddio iaith lafar. Nid oes un ffactor penodol y gwyddys ei fod yn achosi anhwylder iaith datblygiadol ac mae'n debygol o ddeillio o nifer o ffactorau risg biolegol, genetig ac amgylcheddol. Cyfeiriwyd yn flaenorol at anhwylder iaith datblygiadol fel nam iaith penodol. Er nad yw anhwylder iaith datblygiadol yn union debyg, dyma'r term y cytunwyd arno bellach a bydd pobl â diagnosis o nam iaith penodol yn gymwys i gael diagnosis o anhwylder iaith

datblygiadol. Gellir gwneud diagnosis o anhwylder iaith datblygiadol os bydd anawsterau iaith plentyn yn debygol o barhau drwy gydol ei blentyndod, drwy'r glasoed ac i'w fywyd fel oedolyn.

**https://rcslt.org/-/media/Project/RCSLT/rcslt-dld-factsheet.pdf**

**https://www.rcslt.org/speech-and-language-therapy/clinical-information/developmental-language-disorder#section-2**

***Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu dros dro a pharhaus:*** Gellir rhannu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn dri is-grŵp cyffredinol:

1. Plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â phrofiadau cyfyngedig (Lindsay et al 2010). Mae'r anawsterau hyn yn anawsterau dros dro, h.y. o gael y gefnogaeth gywir, mae'r plant yn debygol o ddal i fyny. (Jordan a Thomas, 2010)

2. Plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sylfaenol lle mae'r anawsterau iaith yn digwydd heb unrhyw achos niwroddatblygiadol neu gymdeithasol penodol,e.e. anawsterau iaith penodol neu anhwylder lleferydd penodol. Gellid disgrifio'r anawsterau hyn yn anawsterau penodol a pharhaus.

3. Plant â nam gwybyddol, synhwyraidd neu gorfforol fel eu prif angen ac anawsterau iaith fel angen eilaidd, e.e. anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sy'n anghenion eilaidd o gymharu ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, nam ar y clyw neu anhawster dysgu.

Gweler hefyd **file:///C:/Users/te083464/Downloads/2.1%20What%20is%20SLCN.pdf**

**Patrymau nodweddiadol o ran datblygiad anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu**

Mae plant yn datblygu iaith ar gyfraddau gwahanol iawn

**<u>1-2 oed:</u>**

**Bydd y rhan fwyaf o blant bach yn:**

- pwyntio er mwyn gwneud i rywun arall edrych i'r cyfeiriad cywir (ynghyd â llefaru neu geisio ynganu geiriau)
- rhoi cynnig ar rai geiriau unigol y gall pobl gyfarwydd eu hadnabod (a bydd rhai yn dechrau cyfuno geiriau pan fyddant yn cyrraedd tua dwy oed)
- dangos pleser pan fyddant yn cael adborth wrth enwi neu nodi gwrthrych, person neu lun yn llwyddiannus
- gallu dilyn cyfarwyddyd syml fel 'cer i nôl dy esgidiau', 'rho'r papur yn y bin'
- dechrau chwarae gan ddefnyddio eu dychymyg, er enghraifft esgus siarad ar ffôn degan

**<u>2-3 oed:</u>**

**Mae'r rhan fwyaf o blant 2-3 oed yn:**

- rhoi ymadroddion byr at ei gilydd e.e. 'dadi car' neu 'Evan ysgol nawr'
- cynyddu eu geirfa ac o bosibl yn baglu dros eu geiriau wrth i'r ymadroddion a ddefnyddir ganddynt ehangu
- gallu bod yn anodd eu deall gan fod eu system sain lleferydd yn datblygu o hyd
- dangos enghreifftiau o chwarae rôl mwy estynedig (rhoi dol neu dedi i'r gwely, golchi tedi)

O **http://www.maternal-and-early-years.org.uk/speech-and-language-development-what-to-expect-1-3-years-2**

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn

**https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/600981/ite_resource_1.pdf**

**Ffyrdd y gall teuluoedd/gofalwyr gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn:**

- Siarad â'u baban/babanod a chanu iddo yn y groth.
- Ymlyniad a bondio – siarad â'r baban/canu iddo o'r cychwyn cyntaf
- Caneuon a rhigymau
- Faint o siarad sydd a beth yw ansawdd y siarad hwnnw
- Diffodd y teledu
- Rhannu llyfrau a straeon gan gynnwys mynd i'r llyfrgell leol
- Chwarae â'u plentyn, gan gynnwys mynd i Grŵp Rhieni a Phlant Bach

**Dull Hunanasesu SCLF:**

Dull rhad ac am ddim a ddatblygwyd gan The Communication Trust (TCT) yw'r Fframwaith Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCF). Drwyddo gall ymarferwyr benderfynu ar eu lefel cymhwysedd wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. 4 lefel sydd yna: Sylfaen, Cyffredinol, Gwell ac Arbenigol. Disgrifir y lefelau yma:
**https://www.slcframework.org.uk/the-slcf-levels/**
Byddai dysgwyr ar lefel 4 yn gweithio'n bennaf ar y lefel 'Gwell' ar SLCF, a byddai dysgwyr ar lefel 3 yn gweithio'n bennaf ar y lefel 'Cyffredinol'. Gall dysgwyr ddefnyddio'r dull hwn i asesu eu cymhwysedd eu hunain drwy gofrestru fel defnyddiwr yma:
**https://portal.slcframework.org.uk/register/**
a graddio eu hyder mewn 10 maes. Gyda'r dull hwn gallan nhw gynllunio eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain a chael eu cyfeirio'n unol â hynny.

**Tystiolaeth ymchwil**


- Axford, N., Sonthalia, S., Wrigley, Z., Goodwin, A., Ohlson, C., Bjornstad, G., Barlow, J., Schrader-McMillan, A., Coad, J., Toft, A., (2015) The Best Start at Home: What works to improve the quality of parent/child interactions from conception to age 5 years? A rapid review of the interventions. Y Sefydliad Ymyriadau Cynnar
- Bercow (2008) A review of services for Children and Young People with Speech, Language and Communication needs.
- Hamer, C (2011) Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol, Talk to your Baby: Guidance for developing a strategic approach to speech, language and communication in the early years.
- Llywodraeth Cymru (2014a) 'A review of practice in the implementation of the early language development support element within Flying Start' (Saesneg yn unig) Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 62/2014
- Llywodraeth Cymru (2014b) 'A review of the research evidence on the effectiveness of different approaches to promoting early speech and language development' (Saesneg yn unig) Rhif Ymchwil Gymdeithasol 61/2014


## *SGC cysylltiedig*

- SCD CCLD 0301: Hybu cyfathrebu effeithiol
- SCD CCLD 303: Hybu datblygiad plant
- SCD CCLD 0307: Hybu iechyd a datblygiad corfforol plant

- SCD CCLD 0312: Creu amgylcheddau cadarnhaol i fabanod a phlant
- SCD CCLD 0321: Cefnogi gofal, dysgu a datblygiad plant â gofynion ychwanegol mewn partneriaeth â'u teuluoedd
- SCD CCLD 0327: Cefnogi plant sydd wedi profi trawma
- SCD CCLD 0345: Hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant, mewn partneriaeth â'u teuluoedd

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Close, R (2004) Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol: Television and Language Development in the Early Years, A review of the literature
- Gridley, N, Hutchings, J a H. Baker-Henningham (2014) The Incredible Years Parent-Toddler Programme and parental language: a randomised controlled study. Child: care, health and development
- Talk to your baby 2017: Early Language in a Connected World. Yr Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol **https://literacytrust.org.uk/resources/talk-your-baby-2017-presentations/**
- Rhaglen Plant Iach Cymru **https://gov.wales/docs/dhss/publications/160926healthy-childrency.pdf**
- Yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu. Talking About a Generation **https://www.thecommunicationtrust.org.uk/media/540327/tct_talkingaboutageneration_report_online.pdf**
- Dechrau Da **http://www.bookstart.org.uk**
- The Communication Friendly Spaces **http://www.elizabethjarmantraining.co.uk/**
- Hanen **http://www.hanen.org/Home.aspx**
- Llyfrau: The Perfect Language- Learning Tool **http://www.hanen.org/Helpful-Info/Articles/Promoting-Language-with-Books.aspx**
- I Can **http://www.ican.org.uk/**
- Talking Point **http://www.talkingpoint.org.uk/**
- Canllawiau Dechrau'n Deg – **https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?skip=1**&lang=cy
  - Canllawiau Allgymorth
  - Canllawiau Trawsnewid
  - Canllawiau Gofal Plant o Ansawdd Da
  - Rhaglen Graidd Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan
  - Canllawiau Cefnogi Rhianta
  - Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu.
  - Taflen ffeithiau cefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
  - Pecyn Dechrau'n Deg i Rieni – Hwiangerddi
  - Poster Cyfnodau Datblygu Lleferydd ac Iaith
- Every Child a Talker **http://www.foundationyears.org.uk/2011/10/every-child-a-talker-guidance-for-early-language-lead-practitioners**
- Naw Mis a Mwy **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/**861/Naw%20Mis%20a%20Mwy%20Fersiwn%202%20April%202015.pdf

- Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol
  **http://www.literacytrust.org.uk/talk_to_your_baby/resources/418_q**
- Amddifadedd chwarae (2003)
  **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%**
  20SHEETS/amddifadiad%20chwarae.pdf
- Chwarae: iechyd a lles (2012)
  **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf**
- Arfer myfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018)
  **https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol**

**Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar y gwefannau canlynol:**

**https://www.nidcd.nih.gov/health/speech-and-language**

**http://www.maternal-and-early-years.org.uk/topic/0-3-years/speech-language-and-communication-development**

**https://www.hacw.nhs.uk/our-services/speech-language-therapy/childrens/introduction-to-the-slcn-pathway/what-is-slcn/**

## Uned 511 Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 18 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Bydd yr uned hon yn helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol. |

### Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer i adlewyrchu ymchwil, deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol yn ymwneud ag anghenion ychwanegol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Yr ymchwil a'r dystiolaeth werthusol sy'n sail i ddeddfwriaeth, canllawiau ac ymarfer cyfredol

1.2 Sut y mae deddfwriaeth a chanllawiau yn dylanwadu ar y broses o ddatblygu darpariaeth genedlaethol a lleol ar gyfer anghenion ychwanegol a sut y mae hyn yn effeithio ar systemau, polisïau a gweithdrefnau'r gweithle/lleoliad

1.3 Pwysigrwydd y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a sut y mae'n effeithio ar ymarfer

1.4 Y systemau, y polisïau, y gweithdrefnau a'r ymarfer sydd eu hangen yn eich lleoliad mewn perthynas â chefnogi plant ag anghenion ychwanegol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 Nodi gwaith ymchwil cyfredol, myfyrio arno a'i ddefnyddio i gefnogi ymarfer wrth ofalu am blant ag anghenion ychwanegol

1.6 Datblygu ac adolygu systemau, polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi plant ag anghenion ychwanegol

1.7 Cefnogi eraill i gael gafael ar wybodaeth am ddeddfwriaeth, polisïau ac ymchwil sy'n cefnogi eu gwaith gyda phlant ag anghenion ychwanegol

1.8 Cydymffurfio â'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a chefnogi eraill i gydymffurfio ag ef

## Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Yr amrywiaeth o anghenion ychwanegol a nodweddion diffiniedig a'u cyffredinrwydd fel y'u hamlinellir o fewn deddfwriaeth gyfredol

2.2 Y sail ymchwil a thystiolaeth sy'n cefnogi'r broses o nodi anghenion ychwanegol yn gynnar ac ymyrryd

2.3 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:
- effeithiau posibl anghenion ychwanegol ar ddysgu, twf a datblygiad cyfannol plant
- Pwysigrwydd nodi anghenion ychwanegol ac ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi dysgu, twf a datblygiad cyfannol parhaus plant

2.4 Pwysigrwydd annog eraill i fynd ati i herio rhagfarn, canfyddiadau ystrydebol ac achosion o wahaniaethu yn erbyn plant ag anghenion ychwanegol

2.5 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:
- Sut i gynnal sesiynau arsylwi a dulliau asesu amserol a phriodol er mwyn cefnogi'r broses o nodi anghenion ychwanegol yn gynnar
- Proses atgyfeirio'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol pan gaiff anghenion ychwanegol eu nodi
- Y rhwydweithiau y gall plant a'u teuluoedd/gofalwyr gysylltu â nhw er mwyn cael cefnogaeth

2.6 Pwysigrwydd cydweithio ag **eraill** er mwyn nodi Darpariaeth Ychwanegol briodol y gall fod ei hangen

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.7 Rhoi polisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith ar gyfer adnabod ac atgyfeirio

2.8 Sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau ac ymarfer ar gyfer adnabod ac atgyfeirio

2.9 Arwain a rheoli'r broses o gwblhau sesiynau arsylwi ac asesiadau priodol ac amserol er mwyn casglu tystiolaeth i ategu argymhellion ac atgyfeiriadau.

2.10 Sicrhau cydweithrediad ag eraill er mwyn nodi Darpariaeth Ychwanegol briodol y gall fod ei hangen

2.11 Hybu hawliau, dewisiadau, llesiant a chyfranogiad gweithredol i blant ag anghenion ychwanegol

2.12 Cyflawni neu gefnogi rôl a chyfrifoldebau'r arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eich gweithle/lleoliad

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli'r drefn gynllunio a'r gefnogaeth i blant ag anghenion ychwanegol

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Pwysigrwydd defnyddio canlyniadau sesiynau arsylwi ac asesiadau amserol a phriodol:
- i gefnogi atgyfeiriadau ac argymhellion
- er mwyn datblygu cynlluniau plentyn-ganolog

3.2 Pwysigrwydd cydweithio er mwyn datblygu cynlluniau unigol plentyn-ganolog a'u rhoi ar waith

3.3 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:
- yr angen i fabwysiadu trefniadau cynllunio plentyn-ganolog a phwysigrwydd llais y plentyn
- yr angen i fonitro ac adolygu cynlluniau ar y cyd â'r plentyn, teulu/gofalwyr ac **eraill**
- sut y gall **ffactorau** effeithio ar blant a'u teuluoedd/gofalwyr a'r gefnogaeth y gallant gael gafael arni

3.4 Yr angen i'r ddarpariaeth esblygu'n unol ag anghenion y plentyn a'i deulu/gofalwr

3.5 Pwysigrwydd cefnogi a grymuso teuluoedd/gofalwyr ac eraill fel eiriolwyr dros blant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.6 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau mai plant a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n llywio gwaith cynllunio plentyn-ganolog

3.7 Arwain a rheoli'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw ddarpariaeth ychwanegol y gall fod ei hangen er mwyn diwallu anghenion plant a'u teuluoedd/gofalwyr

3.8 Arwain a rheoli'r canlynol ar y cyd ag eraill:
- y broses o ddatblygu a gweithredu cynlluniau unigol plentyn-ganolog yn y gweithle/lleoliad
- rhoi darpariaeth ychwanegol ar waith
- trefniadau parhaus ar gyfer monitro ac adolygu'r cynlluniau unigol plentyn-ganolog a'r ddarpariaeth ychwanegol

### Amrediad

**Eraill:** Cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys iechyd ac addysg

**Ffactorau:** Ethnigrwydd, amgylcheddau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol

---

### Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli sut y mae ymarfer cynhwysol yn cael ei hybu yn y gweithle/lleoliad

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Sut i arwain, rheoli a hybu ymarfer cynhwysol yn eich gweithle/lleoliad

4.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol
- Effeithiau labelu a stereoteipio ar blant ag anghenion ychwanegol a sut i herio hyn yn y gweithle/lleoliad

- Gwerth a phwysigrwydd ymarfer cynhwysol wrth weithio gyda phlant
- Ffactorau sy'n atal cynwysoldeb wrth weithio gyda phlant a sut y gellid eu goresgyn

4.3 Sut i gefnogi gweithwyr i fyfyrio ar eu hymarfer wrth weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

4.4 Pwysigrwydd darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth effeithiol i weithwyr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Arwain, rheoli a hybu ymarfer cynhwysol yn eich gweithle/lleoliad

4.6 Cefnogi gweithwyr i fyfyrio ar eu hymarfer wrth weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

4.7 Cefnogi ac annog gweithwyr i fyfyrio a herio'r ffordd y mae eu credoau, eu gwerthoedd a'u sgiliau eu hunain yn dylanwadu ar ymarfer

4.8 Darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth effeithiol i weithwyr sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol

---

## Deilliant dysgu:

5. Arwain a rheoli ymarfer i gefnogi ymddygiad cadarnhaol wrth weithio gyda phlant

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i gefnogi eraill i ddeall y canlynol:

- Beth yw ystyr ‘cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol' ac 'ymddygiad heriol'
- Y **modelau a'r fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol**
- Pam y mae'n bwysig deall ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad
- Y gwahaniaeth rhwng ffurf yr ymddygiad a'r ffactor sy'n sbarduno'r ymddygiad
- Amrywiaeth o **strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar** y gellir eu defnyddio i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
- Sut i **ddadansoddi ymddygiad a'r ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad** er mwyn nodi'r strategaethau atal sylfaenol a'r ymyriadau cynnar mwyaf priodol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol
- Pwysigrwydd ystyried ymddygiad mewn cynlluniau plentyn-ganolog
- Pwysigrwydd myfyrio ar eich ymatebion eich hun ac ymatebion **eraill** i ymddygiad

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.2 Rhoi polisïau, gweithdrefnau a phrosesau ar waith

- er mwyn cydnabod a chefnogi ymddygiad cadarnhaol gan blant
- defnyddio strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar i gefnogi ymddygiad plant

5.3 Cefnogi gweithwyr i fyfyrio ar eu hymatebion eu hunain ac ymatebion **eraill** i ymddygiad

## Amrediad

**Modelau a fframweithiau sy'n cefnogi dulliau cadarnhaol:** Cefnogaeth Weithredol, Ymarfer Adferol, Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol

**Strategaethau atal sylfaenol ac ymyriadau cynnar:** Ailfynegi, tawelu, ailgyfeirio, tynnu sylw, achub y blaen ac anwybyddu

**Dadansoddi ymddygiad a ffactorau sy'n sbarduno ymddygiad:** dulliau casglu data, rhoi'r model ymddygiadol ar waith, casglu a chyflwyno data sy'n hwyluso gwaith dadansoddi.

**Eraill:** Plant eraill, teuluoedd/gofalwyr, cydweithwyr

# Uned 511 Arwain a rheoli gwasanaethau i blant ag anghenion ychwanegol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae **anghenion dysgu ychwanegol** fel y'u diffinnir yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018, sef:

- Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw’r anhawster dysgu neu’r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy’n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
- Mae gan blentyn sydd o’r oedran ysgol gorfodol neu berson sy’n hŷn na’r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—
    - os yw’n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na’r mwyafrif o’r rhai eraill sydd o’r un oedran, neu
    - os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) sy’n ei atal neu’n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- Mae gan blentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw’r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan fydd o’r oedran ysgol gorfodol, neu y byddai’n debygol o fod felly pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud.
- Os yw’r iaith (neu’r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy’n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny’n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

**Arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol** yw'r person sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eich gweithle/lleoliad.

Mae **Darpariaeth Dysgu Ychwanegol** yn cyfeirio at gefnogaeth ychwanegol, a nodwyd ac y cytunwyd arno gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg a gwasanaethau eraill i gefnogi dysgu a datblygiad cyfannol parhaus plant.

**Ffactorau ysgogi** – yn yr ystyr bod y dull yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'r teulu nawr ac yn y dyfodol, a'u bod wedi gallu cymryd rhan yn y broses

Gallai **darpariaeth ychwanegol** gyfeirio at ddarpariaeth dysgu ychwanegol fel y'i hamlinellir yn Neddf 2018, neu gefnogaeth ac adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen ar blentyn/plant fel addasiadau rhesymol neu dasgau estynedig ar gyfer plant mwy abl a thalentog.

Mae **Cynlluniau Datblygu Unigol** yn cyfeirio at y cynllun unedig a ddatblygir ar gyfer plant yn dilyn adolygiad person-ganolog. Byddant yn cynnwys cynllun gweithredu ac unrhyw ddarpariaeth dysgu ychwanegol a nodwyd

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDCCLD 0414:** Arwain gwaith i adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion ar gyfer plant ag anghenion cymorth ychwanegol
- **CCLD 0415:** Arwain o ran cynghori a chefnogi ymarferwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion cymorth ychwanegol
- **SCDCCLD 0403:** Arwain rhaglenni i hybu datblygiad plant a phobl ifanc
- **SDCCLD 0339:** Hybu gofal, dysgu a datblygiad plant ag anghenion cymorth ychwanegol mewn lleoliadau addysg gynnar
- **SCDCCLD 0321:** Hybu gofal, dysgu a datblygiad plant â gofynion ychwanegol mewn partneriaeth â'u teuluoedd
- **TDASTL44:** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cymorth personol
- **TDASTL38:** Cefnogi plant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd
- **SCD HSC 0315:** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc â gofynion ychwanegol er mwyn diwallu eu hanghenion cymorth personol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- **www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2018/2/contents//welsh**
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru
- **https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/cod-drafft-anghenion-dysgu-ychwanegol-cymru_0.pdf**
- Nodiadau esboniadol
- **https://llyw.cymru/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-nodiadau-esboniadol**
- Canllaw gweithredu ar gyfer cynlluniau datblygu unigol
- **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-ar-gyfer-cynlluniau-datblygu-unigol.pdf**
- Cefnogi disgyblion mwy abl a dawnus mewn ysgolion cynradd, Estyn, 2011 **https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Cefnogi%**20disgyblion%20mwy%20abl%20a%20dawnus%20mewn%20ysgolion%20cynradd%20-%20Gorffennaf%202011.pdf
- Arolwg i ganfod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog drwy Gymru, Llywodraeth Cymru, 2015

- **https://gov.wales/docs/dcells/publications/160106-mat-report-cy.pdf**
- SNAP CYMRU **http://www.snapcymru.org/**
- Anabledd Dysgu Cymru **https://www.ldw.org.uk/cy/**
- Cyswllt Teulu Cymru **https://contact.org.uk/wales**
- Canllawiau Dechrau'n Deg
- **http://gov.wales/topics/people-andcommunities/people/children-and-young-people/parenting-supportguidance/help/flyingstart/?skip=1&lang=cy**
- Chwarae a Risg (2013)
- https://issuu.com/playwales/docs/chwarae_a_risg • Amddifadiad chwarae (2003) **https://issuu.com/playwales/docs/amddifadiad_chwarae?e=5305098/5155797**
- Chwarae: iechyd a lles (2012) https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/chwarae%20iechyd%20a%20lles.pdf
- Chwarae: darpariaeth gynhwysol (2013) **https://issuu.com/playwales/docs/play_inclusive_provision?e=5305098/5307437**
- Cynyddu gwytnwch – pwysigrwydd chwarae (2015) **http://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%20SHEETS/Cynyddu%20gwytnwch.pdf**
- Hybu gweithgarwch corfforol trwy chwarae'r tu allan mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2016) **https://www.chwaraecymru.org.uk/login/uploaded/documents/INFORMATION%** 20SHEETS/Hybu%35gweithgarwch%010783corfforol%20blynyddoedd%20cynnar.pdf
- Arfer myfyriol – beth ydi o a pham ei fod mor bwysig? (2018) **https://issuu.com/playwales/docs/arfer_myfyriol**
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- **http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf**
- **https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/codau-deddfsswb**
- **https://www.cypnow.co.uk/cyp/news/1075034/welsh-childrens-commissioner-calls-for-child-centred-approach-to-tackling-poverty**
- **https://www.asdinfowales.co.uk/early-years**

# Uned 512 Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 30 |
| **Credyd:** | 6 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i roi gofynion rheoleiddiol ar waith yng Nghymru. Mae'n ymdrin ag ymwybyddiaeth o rôl arolygiaethau. |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli lleoliadau i sicrhau eu bod yn bodloni ac yn mewnblannu safonau a gofynion rheoleiddiol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Y gofynion rheoleiddiol a'r safonau y mae'n rhaid i'r gweithle/lleoliad gydymffurfio â nhw a'ch cyfrifoldebau wrth eu cyflawni

1.2 Rôl yr arolygiaethau a sut y maent yn bwrw ati â'u gwaith

1.3 Rôl arolygiadau yn y cylch gwelliant parhaus yn eich gweithle/lleoliad

1.4 Eich rôl wrth gefnogi eraill i ddeall y canlynol:

- y gofynion rheoleiddiol a'r safonau y mae'n rhaid i'r gweithle/lleoliad gydymffurfio â nhw a'ch cyfrifoldebau wrth eu cyflawni
- rôl yr arolygiaethau a sut y maent yn bwrw ati â'u gwaith
- rôl arolygiadau yn y cylch gwelliant parhaus yn eich gweithle/lleoliad

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.5 Arwain a rheoli'r broses o roi systemau, polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y gweithle/lleoliad a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiol a chyrraedd safonau

1.6 Arwain a rheoli'r broses hunanasesu er mwyn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn y gweithle/lleoliad

1.7 Arwain a rheoli'r defnydd o'r broses hunanasesu er mwyn cefnogi'r cylch gwelliant parhaus yn eich gweithle/lleoliad

1.8 Arwain a rheoli gweithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus o ran eu gwybodaeth a'r trefniadau ar gyfer rhoi systemau, polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau gwelliant parhaus

### Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli'r ymateb i ofynion ac argymhellion

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Y broses a ddefnyddir gan yr arolygiaeth i rannu ei chanfyddiadau

2.2 Eich rôl wrth ymateb i ganfyddiadau arolygiad

2.3 Y broses y mae'n rhaid ei dilyn os bydd angen gwella'r gweithle/lleoliad

2.4 Pwysigrwydd defnyddio adborth parhaus gan eraill er mwyn gwella ansawdd yn barhaus

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.5 Arwain a rheoli'r broses o gyfathrebu a thrafod canfyddiadau â gweithwyr

2.6 Arwain a rheoli'r broses o fyfyrio a chyfathrebu ag eraill mewn perthynas â meysydd o gryfder, arferion da a gwelliant a nodwyd.

2.7 Myfyrio ar gynlluniau i ymdrin ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad a'u rhoi ar waith

2.8 Monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y cynllun

# Uned 512 Arwain a rheoli gwelliant parhaus drwy'r prosesau rheoleiddio

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Cylch Gwelliant Parhaus:** Pwysigrwydd parhau i nodi ac adnabod ymarfer dyddiol parhaus i wella'r canlyniadau i blant y gellid ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn ystod arolygiad

**Canfyddiadau:** gallai gynnwys barn a/neu radd

**Bwrw ati â'u gwaith:** Y gwahanol adnoddau a dulliau y gallai'r arolygiaeth eu defnyddio i lywio ei gwerthusiad

**Gwelliant:** gallai gwelliant gynnwys gweithgarwch dilynol neu AGC yn sicrhau polisi gwella a gorfodi a "gweithgarwch dilynol"

**Gallai'r arolygiad gynnwys:** AGC, ESTYN, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, arolygiadau ar y cyd gan AGC ac ESTYN, AGIC

**Eraill:** Sefydliad (perchenogion, aelodau'r bwrdd, uwch-reolwyr/unigolyn cyfrifol, gweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, plant, teuluoedd/gofalwyr)

**Safonau rheoleiddiol** yw'r safonau hynny y caiff eich lleoliad penodol ei reoleiddio a'i arolygu yn eu herbyn yn eich gwlad gartref

Mae **gofynion rheoleiddiol** yn cynnwys tystiolaeth o gydymffurfio â rheolau iechyd a diogelwch, fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoliadau iechyd yr amgylchedd a thân, Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru

**Rôl yr Arolygiaethau:** gwerthuso'r lleoliad a'i systemau barnau/graddau, eu pŵer a sut y gallant gydweithio. Gallai hyn gynnwys arolygiadau ar y cyd neu arolygiadau ar y cyd lle ceir maes penodol o bryder, e.e. tân, diogelwch bwyd, iechyd yr amgylchedd

**Fel mater o drefn** gall gynnwys cyfarfodydd tîm, bob chwarter ac ati. Yn hanfodol, mae'n golygu na ddylid defnyddio'r system arolygu fel y catalydd ar gyfer sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio. Dylai arferion gorau gael eu hystyried bob dydd.

**Y broses hunanasesu:** mae'r dogfennau hyn yn galluogi arolygiaethau i asesu barn gweithleoedd/lleoliadau am eu hansawdd yn erbyn pedair thema allweddol y fframwaith

arolygu cyn cynnal arolygiad.  Mae hefyd yn galluogi'r lleoliad i werthuso ei ddarpariaeth a'i safonau.

Gall **systemau** gynnwys adeiladau a chyfarpar; polisïau; y bwyd a diod a ddarperir, gan gynnwys y canllawiau ar gyfer bwyta'n iach; iechyd a diogelwch, gan gynnwys cymorth cyntaf a diogelwch tân; niferoedd/cymarebau cydweithwyr, eu haddasrwydd a'u cymwysterau; rheoli systemau a chofnodion gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol; gofynion y cwricwlwm ar gyfer babanod a phlant cyn oed ysgol; cofnodion goruchwylio; cynlluniau datblygiad personol ar gyfer staff

# *Deddfwriaeth gysylltiedig*

- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwyso) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Eithriadau) (Cymru) 2010
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed
- **https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf**
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2005.
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) **http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-youngpeople/rights/uncrc/?lang=cy**

## *SGC cysylltiedig*

SCDCCLD0418: **Arwain y gwaith o ddiwygio polisïau/gweithdrefnau/arferion ar gyfer cofrestru**
SCDCCLD0422: **Arwain y gwaith o fonitro gweithdrefnau, polisïau ac arferion**
CFAMLD6: **Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd gwaith**
SCDCCLD0433: **Paratoi'r lleoliad gofal plant ar gyfer arolygiadau rheoleiddiol**

## *Adnoddau*

- Fframwaith arolygu gofal plant Arolygiaeth Gofal Cymru:
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-03/160613childcareframeworkcy.pdf
- Canllaw arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer gofal plant a chwarae:
- **https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-03/160608childcareinspectionguidecy.pdf**
- Arolygiaeth Gofal Cymru: Codau ymarfer ar gyfer arolygu gwasanaethau gwarchod plant, gwasanaethau gofal dydd a gwasanaethau chwarae mynediad agored. *(Caiff y ddolen ei hychwanegu pan fydd y ddogfen ar gael)*
- Polisi ar sicrhau gwelliant a gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru.

- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180601-polisi-ar-sicrhau-gwelliant-a-gorfodi-cy.pdf
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2011
- **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2**
- ESTYN ac AGC
- **https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Guidance%20handbook%20for%20the%20inspection%20of%20non-maintained%20nursery%20settings%20September%202019%20cy.pdf**
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-01/190103-llawlyfr-arweiniad-cy.pdf
- Arweiniad gweithgarwch dilynol ESTYN ac AGC
- **https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Follow-up%20guidance%20for%20settings%20and%20inspectors%20cy_0.pdf**
- Adrannau 41 a 42 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Gweler Atodiad D a **http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/part/2/crossheading/inspection**
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- **https://www.food.gov.uk/safety-hygiene/food-hygiene-rating-scheme#businesses-with-poor-ratings**
- https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-01/190103-arweiniad-gweithgarwch-dilynol-cy.pdf

# Uned 543 Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 10 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant.<br>Mae timau rhyngbroffesiynol yn cynnwys gwahanol broffesiynau a grwpiau galwedigaethol sy'n cydweithio i wneud asesiadau a phenderfyniadau |

## Deilliant dysgu:

1. Deall pwrpas ac egwyddorion trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Rôl trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol i unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr

1.2 Sut y mae fframweithiau deddfwriaethol, rheoliadau, polisïau cenedlaethol a lleol, codau ymddygiad proffesiynol a safonau ymarfer/proffesiynol ac amcanion gwasanaeth yn effeithio ar drefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

1.3 Cymhlethdodau a chyfyngiadau trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

1.4 **Trefniadau llywodraethu** a **phrotocolau** sydd angen bod ar waith ar gyfer trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol effeithiol

1.5 Pwysigrwydd cefnogi aelodau tîm i gydnabod a pharchu:

- Y codau ymddygiad proffesiynol a'r safonau ymarfer/proffesiynol sy'n gymwys i aelodau timau rhyngbroffesiynol
- Gwahanol sgiliau ac arbenigedd aelodau tîm

## Amrediad

**Trefniadau llywodraethu:** rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pob aelod o'r tîm, llinellau cyfathrebu, goruchwyliaeth broffesiynol, goruchwyliaeth weithredol, adolygiadau o berfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus, mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad

**Protocolau:** cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion, dyrannu adnoddau, mynd i'r afael â phryderon a chwynion

Deilliant dysgu:

2. Arwain a rheoli'r defnydd o drefniadau gweithio rhyngbroffesiynol i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Sicrhau bod aelodau tîm yn cael eu cefnogi i gyfrannu at bennu a gwerthuso diben ac amcanion y tîm rhyngbroffesiynol

2.2 Sicrhau bod aelodau tîm yn deall sut y mae eu gwaith, yn unigol ac ar y cyd, yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau gwasanaeth

2.3 Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu **trefniadau** a **phrotocolau llywodraethu** o fewn trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

2.4 Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer:
- Gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth ryngbroffesiynol
- **Goruchwyliaeth broffesiynol a gweithredol**
- Mynd i'r afael â chyfyng-gyngor neu wrthdaro sy'n deillio o weithio rhyngbroffesiynol

**Amrediad**

**Trefniadau llywodraethu:** rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd pob aelod o'r tîm, llinellau cyfathrebu, goruchwyliaeth broffesiynol, goruchwyliaeth weithredol, adolygiadau o berfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus, mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad

**Protocolau:** cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, cadw cofnodion, dyrannu adnoddau, mynd i'r afael â phryderon a chwynion

**Goruchwyliaeth broffesiynol a gweithredol:** y ffiniau rhwng goruchwyliaeth broffesiynol a gweithredol, llinellau cyfathrebu clir, sut i ddatrys cyfyng-gyngor proffesiynol neu foesegol, problemau o ran ffiniau neu wrthdaro lle maent yn dod i law ar wahân

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli'r gwaith o gyflwyno cynlluniau y cytunwyd arnynt

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.1 Cefnogi aelodau tîm i nodi'r ymarferwyr arweiniol ar gyfer datblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

3.2 Cefnogi aelodau tîm i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau y rhai sy'n ymwneud â gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau

3.3 Sicrhau bod unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddeall rôl a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'u cynlluniau

3.4 Sicrhau y cymerir camau cydgynhyrchiol gydag unigolion a/neu eu teuluoedd/gofalwyr ym mhob agwedd ar eu cynlluniau

3.5 Rheoli'r broses o gyfnewid gwybodaeth sy'n berthnasol i weithredu cynlluniau rhwng y rhai dan sylw

---

Deilliant dysgu:

4. Gwerthuso'n feirniadol pa mor effeithiol yw gwaith tîm rhyngbroffesiynol

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.1 Monitro, cofnodi ac adrodd ar gyflawni canlyniadau gwasanaeth a nodwyd a sut y mae'r rhain wedi cael eu cefnogi gan:
- Trefniadau llywodraethu
- Protocolau
- Aelodau'r tîm rhyngbroffesiynol
- Trefniadau goruchwylio

4.2 Dadansoddi effeithiolrwydd canlyniadau gwasanaeth a nodwyd

4.3 Gwneud argymhellion i lywio a gwella ymarfer a darpariaeth gwasanaeth y tîm rhyngbroffesiynol yn y dyfodol

# Uned 543 Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth ryngbroffesiynol:** fframweithiau, fforymau, trafodaethau gwaith achos, cyfarfodydd amlddisgyblaethol, rhannu arfer gorau

**Timau rhyngbroffesiynol** lle mae aelodau'r tîm yn cynnwys gwahanol broffesiynau a grwpiau galwedigaethol (y byddent yn gweithio gyda nhw fel arfer) a phobl sy'n cydweithio fel tîm er mwyn gwneud asesiadau a phenderfyniadau

**Cynlluniau:** gallai gynnwys cynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau personol, cynlluniau cefnogaeth ymddygiad

## *SGC cysylltiedig*

- **SCDLMCD3** Arwain a rheoli timau rhyngbroffesiynol

## *Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig*

- Integrated and Inter-professional Working: A review of the evidence. **https://gov.wales/topics/health/socialcare/working/ifst/ifsspublications/tools/?lang=en**

# Uned 544 Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 10 |
| **Credyd:** | 9 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr yn y maes darparu gwasanaethau |

## Deilliant dysgu:

1. Deall rôl gwirfoddoli wrth ddarparu gwasanaethau

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Rôl gwirfoddolwyr a gwerth ychwanegol posibl defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau

1.2 Pwysigrwydd deall y rhesymau pam y mae pobl yn dewis gwirfoddoli

1.3 Manteision posibl darparu gwasanaeth i wirfoddolwyr

1.4 Sut i gyfrifo cost gwirfoddolwyr a'u cydbwyso yn erbyn y gwerth ychwanegol a nodwyd

1.5 Pwysigrwydd defnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi gweithwyr, ac nid yn lle gweithwyr

1.6 Sut y gellir defnyddio'r Cod Ymarfer i Wirfoddolwyr i gefnogi ac arwain y defnydd o wirfoddolwyr

1.7 Diben a chynnwys polisi ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y lleoliad gwasanaeth

1.8 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer defnyddio gwirfoddolwyr yn y lleoliad gwasanaeth

## Deilliant dysgu:

2. Paratoi i ddefnyddio gwirfoddolwyr wrth ddarparu gwasanaethau

### Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.1 Nodi'r gofyn am wirfoddolwyr i ddarparu gwasanaeth

2.2 Nodi rolau sy'n addas i wirfoddolwyr ag amrediad eang o alluoedd, dulliau o weithio a chymhelliant

2.3 Cefnogaeth ychwanegol y gall fod ei hangen ar wirfoddolwyr a all fod yn agored i niwed ynddynt eu hunain

2.4 Datblygu disgrifyddion rôl ar gyfer gwirfoddolwyr sydd:

- yn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, a pholisi'r sefydliad ar gyfer gwirfoddolwyr
- yn nodi diben, cyfrifoldebau, cyfyngiadau a chydberthnasau gwaith y rôl

2.5 Sicrhau nad yw rolau gwirfoddolwyr yn tanseilio gwaith gweithwyr â thâl nac yn cymryd ei le

2.6 Nodi'r sgiliau personol a'r agweddau sydd eu hangen ar wirfoddolwyr ar gyfer y rôl

2.7 Sicrhewch fod:

- asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer rolau gwirfoddoli
- diogelwch gwirfoddolwyr wedi cael ei ystyried
- unrhyw ofynion o ran yswiriant ar waith
- y gyllideb sydd ei hangen ar gyfer gwirfoddolwyr wedi'i chyfrifo a'i sicrhau
- y cyfarpar a'r adnoddau sydd eu hangen ar wirfoddolwyr i gyflawni eu rôl ar gael
- trefniadau yn cael eu gwneud i sefydlu, hyfforddi a goruchwylio gwirfoddolwyr

---

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli'r broses o recriwtio a dethol gwirfoddolwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Arfer da ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr

3.2 **Dulliau** a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr

3.3 Pwysigrwydd datblygu disgrifyddion rôl ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n nodi disgwyliadau'n glir

3.4 Diben a chynnwys cytundeb gwirfoddolwr

3.5 Pwysigrwydd cyflawni **cyfrifoldebau cyfreithiol** wrth recriwtio gwirfoddolwyr

3.6 Pam y mae amrywiaeth yn bwysig a sut i gynyddu hyn wrth recriwtio

3.7 Y rhesymau pam na fydd gwirfoddolwyr yn cael eu hystyried yn addas efallai a sut i ddarparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr yn ddiogel

3.9 Sicrhau yr eir ati i ddenu gwirfoddolwyr o amrediad eang o gefndiroedd a galluoedd

3.10 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn dod yn ymwybodol o'r canlynol:

- y rolau gwirfoddoli rydych yn recriwtio ar eu cyfer a'r gweithgareddau dan sylw
- y ffordd y mae'r rolau gwirfoddoli yn cyfrannu at weledigaeth strategol y gwaith o ddarparu gwasanaethau
- y wybodaeth, y sgiliau, y profiad, y rhinweddau personol a'r argaeledd sy'n ofynnol
- y gofynion hyfforddi
- geirdaon neu wiriadau swyddogol y bydd eu hangen ar ymgeiswyr ar gyfer y rôl

- ffactorau a fyddai'n eu hatal rhag cael eu hystyried ar gyfer rhai rolau gwirfoddoli
- yr ymrwymiad y byddai angen iddynt ei wneud
- manteision posibl gwirfoddoli i'r unigolyn
- cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus
- sut y gallant gael cefnogaeth ychwanegol

3.11 Helpu darpar wirfoddolwyr i gyfleu eu rhesymau dros wirfoddoli a deall sut y gallai rolau gwirfoddoli ddiwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau

3.12 Darparu digon o wybodaeth i ddarpar wirfoddolwyr er mwyn iddynt allu asesu eu haddasrwydd i gyflawni rolau gwirfoddoli penodol, a fydd y rolau yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni eu disgwyliadau, a pha gefnogaeth y gall fod ei hangen

3.13 Rhoi gwirfoddolwyr mewn rolau sy'n cydweddu'n dda â'r canlynol:
- eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad
- rhinweddau personol
- argaeledd
- eu hanghenion a'u disgwyliadau

3.14 Sicrhau bod ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cytundebau gwirfoddoli ac yn eu deall

## Amrediad

**Dulliau:** targedu cynulleidfa allweddol, canolfannau gwirfoddoli, gwefannau, ar lafar gwlad, taflenni/posteri, cyfarfodydd agored, ystyried yr angen am amrywiaeth

**Cyfrifoldebau cyfreithiol:** sgrinio ymgeiswyr (datgeliad DBS os yw'n gymwys, geirdaon), cydymffurfio â GDPR, cyllid (treuliau, budd-daliadau, treth), gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol darparu gwasanaethau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

4. Arwain a rheoli cefnogaeth i wirfoddolwyr

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Y **gefnogaeth** sydd ei hangen ar wirfoddolwyr i gyflawni eu rolau

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i **gefnogi** gwirfoddolwyr

4.3 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi i ddeall:
- eu cyfrifoldebau a'r disgwyliadau
- y camau y dylent eu cymryd os gofynnir iddynt weithio y tu allan i gyfrifoldebau neu ddisgwyliadau cytûn
- llinellau cyfathrebu
- trefniadau diogelu
- ffiniau proffesiynol

4.4 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu rôl, profiadau a'r ffordd y maent yn cael eu cefnogi
4.5 Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod am eu rolau a pha mor werthfawr ydynt o ran darparu gwasanaethau

### Amrediad

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Cefnogaeth:** sefydlu, hyfforddi, mentora, adborth adeiladol, cydnabod eu gwerth o ran darparu gwasanaethau, goruchwylio

# Uned 544 Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Cynnwys cytundeb gwirfoddolwr:** y rôl wirfoddoli, y gweithgareddau dan sylw, ffiniau'r rôl, safonau perfformiad a'r ymddygiad a ddisgwylir, y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth y gall y gwirfoddolwr eu disgwyl, asesiadau risg ar gyfer y rôl a thelerau unrhyw yswiriant, y treuliau a ad-delir gan y gwasanaeth, polisïau sefydliadol sy'n berthnasol i'r rôl wirfoddoli

**Rhesymau pam y mae pobl yn cynnig gwirfoddoli:**

- dangos ymrwymiad i achos neu grŵp o gleientiaid; sbarduno newid; bod yn eiriolwr neu'n gorff gwarchod
- helpu pobl; er budd rhywun maent yn ei adnabod; traddodiad teuluol; gosod esiampl dda
- rhannu sgiliau proffesiynol neu brofiad; meithrin neu gynnal sgiliau
- ystyried gyrfa bosibl; ennill achrediad neu brofiad
- teimlo'n dda; ennill bri; meithrin gwybodaeth fewnol neu gael mynediad at wasanaethau
- gwneud ffrindiau; gweithio fel tîm; mwynhau; bod gyda grŵp gwahanol o bobl; dod i adnabod eu cymuned; gwneud rhywbeth gyda ffrind neu aelod o'r teulu
- dyletswydd; ad-dalu dyled
- gwneud rhywbeth heblaw gwaith beunyddiol arferol; esgus i wneud rhywbeth pleserus; byw bywyd iachach; therapi
- gadael y tŷ; cael strwythur a threfn arferol; cael ystyr neu ddiben; dianc; cadw'n brysur
- am ei fod yn gyfleus; am fod rhywun wedi gofyn iddynt; oherwydd y sawl a wnaeth ofyn; am eu bod yn y man iawn ar yr adeg iawn; am nad oedd neb arall i'w wneud

**Rhesymau pam y gall ymgeiswyr / gwirfoddolwyr fod yn amhriodol ar gyfer y rôl:**

- Gwiriad DBS yn nodi nad ydynt yn addas ar gyfer y rôl – yn unol â pholisi'r sefydliad.
- Methu â darparu geirdaon (os oes angen geirdaon)
- Angen cefnogaeth na all y sefydliad ei darparu
- Cael cefnogaeth bersonol barhaus a allai ddynodi nad yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y rôl
- Methu ag ymgysylltu â'r hyfforddiant sydd ei angen, neu gyrraedd safonau wedi'u hasesu, neu wirfoddoli o fewn polisïau gwirfoddoli'r sefydliad. Gallai hyn gynnwys anallu i fodloni gofynion polisi allweddol e.e. ymddygiad neu agweddau sy'n groes i'r polisi Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth.
- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd sy'n:

- cael ei gyflawni'n rhydd, drwy ddewis
- cael ei gyflawni mewn ffordd sydd o fudd i'r cyhoedd/ y gymuned
- cael ei gyflawni mewn ffordd nad yw er budd ariannol

**Cod Ymarfer Gwirfoddolwyr:** CGGC
**https://www.wcva.org.uk/media/58792/wcva_volunteering_code_of_practice_a2_poster_4_final_proof.pdf**

**Gwirfoddolwyr a all fod yn agored i niwed eu hunain:** er enghraifft, oedolion ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg o ganlyniad i'w hamgylchiadau personol neu eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain

## *SGC cysylltiedig*

- SFTMVC1 Rheoli'r gwaith o recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr
- SFTMVD1 Cynllunio, trefnu a monitro gweithgareddau gwirfoddoli
- SFTMVC3 Recriwtio a lleoli gwirfoddolwyr

## *Adnoddau*

**DBS – making barring referrals: https://www.gov.uk/guidance/making-barring-referrals-to-the-dbs**

**CGGC Recriwtio Gwirfoddolwyr: Llawlyfr ymarfer da**
**https://www.wcva.org.uk/media/627518/finalrecruiting_volunteers_manual_e__5_.pdf**

**Taflenni gwybodaeth CGGC**
Meddwl am wirfoddoli
Datblygu strategaeth gwirfoddolwyr
Creu polisi gwirfoddoli
Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr
Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y maes gwirfoddoli
Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth i wirfoddolwyr
Sut i sicrhau bodlonrwydd gwirfoddolwyr
Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel
Asesiadau risg – gwirfoddolwyr sy'n gweithio o'u cartrefi
Arferion diogelu a rheoli da
Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Gwirfoddolwyr a'r gyfraith
Gwirfoddolwyr a budd-daliadau lles
Treuliau gwirfoddolwyr
Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr
Cefnogi gwirfoddolwyr anos eu lleoli
Cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr
Deall iechyd meddwl a gwirfoddoli
Gyrwyr Gwirfoddol
Gwerth economaidd cyfraniad gwirfoddolwyr
Gwirfoddoli â Chymorth Cyflogwr

Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn ei wneud yng Nghymru?
Rheoli ymadawiadau gwirfoddolwyr
Gwirfoddolwyr ac yswiriant
Cynnwys gwirfoddolwyr o dramor
Iaith gwirfoddoli – termau cyffredin
Rheoli pryderon yn ymwneud â gwirfoddolwyr
Hybu'r Gymraeg drwy wirfoddoli
Croesawu gwirfoddolwyr sy'n geiswyr lloches neu'n ffoaduriaid
Gofalwyr a gwirfoddoli
Cefnogi Gwirfoddolwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
**https://www.wcva.org.uk/advice-guidance/volunteers?seq.lang=cy-GB**

# Uned 545 Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 20 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw cefnogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli gwaith cynllunio a phrosesau busnes<br><br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a /neu blant |

## Deilliant dysgu:

1. Cymhwyso egwyddorion cynllunio busnes

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Diben cynllunio busnes

1.2 Pwysigrwydd cael gweledigaeth glir ar gyfer yr hyn y bwriedir ei gyflawni

1.3 Rôl **gwybodaeth am y farchnad** wrth gynllunio busnes

Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.4 Nodi gweledigaeth gyffredinol darparu gwasanaeth a'r system **lywodraethu** y mae'n gweithredu ynddi

1.5 Nodi prif ddiben, nodau ac amcanion darparu gwasanaeth

1.6 Gwerthuso'r ffordd y mae gweledigaeth darparu gwasanaeth, ei ddiben, a'i nodau a'i amcanion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i unigolion a/neu deuluoedd/gofalwyr

1.7 Dadansoddi **gwybodaeth am y farchnad** er mwyn nodi risgiau, marchnadoedd posibl a chyfleoedd busnes ar gyfer datblygiad parhaus a **hyfywdra** darparu gwasanaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir

1.8 Dadansoddi goblygiadau **anghenion mewnol newidiol** i ddatblygiad parhaus a hyfywdra darparu gwasanaeth yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir

1.9 Nodi agweddau unigryw ar ddarparu gwasanaeth

## Amrediad

**Llywodraethu:** y ffordd y mae'r ddarpariaeth yn cael ei llywodraethu a'i chyfarwyddo fel sy'n ofynnol gan y sefydliad, deddfwriaeth, rheoliadau, safonau, a pholisïau cenedlaethol a lleol

**Gwybodaeth am y farchnad**: tueddiadau mewn galw, marchnad/cynulleidfa darged, demograffeg, cystadleuaeth, rhagamcanion twf, technoleg, dulliau newidiol o brynu a darparu gwasanaethau sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaeth, gofynion a chyfyngiadau deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi

**Hyfywdra:** gallu'r ddarpariaeth i gynnal ei gweithgareddau o ran gofynion a gwasanaethau ariannol, dynol ffisegol ac amgylcheddol mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym ac sydd wedi'u cynllunio

**Anghenion mewnol newidiol:** anghenion newidiol unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ad-drefnu sefydliadol, cyfansoddiad staff

---

## Deilliant dysgu:

2. Meithrin, gweithredu, adolygu a gwerthuso cynlluniau strategol a gweithredol ar gyfer darparu gwasanaethau

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Diben gwaith cynllunio strategol a gweithredol

2.2 Sut i bennu nodau tymor byr, tymor canolig a thymor hir yng nghyd-destun costau, risgiau a manteision

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.3 Arfarnu opsiynau ar gyfer cynlluniau strategol a gweithredol o ran costau, risgiau, manteision a chanlyniadau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir

2.4 Blaenoriaethu amcanion strategol ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n gyson â'i ddiben a'i weledigaeth a chefnogi ei ddatblygiad parhaus a'i **hyfywdra**

2.5 Arwain y gwaith o ddatblygu cynlluniau gweithredol ar gyfer darparu gwasanaeth

2.6 Sicrhau bod eraill yn deall yn glir y cysylltiad rhwng cynlluniau gweithredol a gweledigaeth gyffredinol darparu gwasanaeth a'r system lywodraethu y mae'n gweithredu ynddi

2.7 Sicrhau bod cynlluniau gweithredol yn hyblyg ac yn agored i newid

2.8 Cydbwyso syniadau newydd ag atebion hirsefydledig ar gyfer gwaith cynllunio gweithredol

2.9 Dyrannu adnoddau i gyflawni amcanion ar gyfer cynlluniau strategol a gweithredol, a chymryd camau lle na chaiff adnoddau eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon

2.10 Datblygu a defnyddio mesurau a dulliau o fonitro a gwerthuso cynlluniau strategol a gweithredol

2.11 Datblygu cynlluniau wrth gefn er mwyn rheoli unrhyw risgiau a nodwyd i hyfywdra darparu gwasanaeth

## Amrediad

**Hyfywdra:** gallu'r ddarpariaeth i gynnal ei gweithgareddau o ran gofynion a gwasanaethau ariannol, dynol ffisegol ac amgylcheddol mewn amgylchiadau sy'n newid yn gyflym ac sydd wedi'u cynllunio

# Uned 545 Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Cynlluniau strategol a chynlluniau gweithredol:**
Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys sawl cam. Defnyddir cynllun strategol i amlinellu amcanion y gwasanaeth a nodi'r dulliau o gyflawni'r amcanion hynny. Cynllun gweithredol yw'r ffordd gynhwysfawr y bydd y gwasanaeth neu'r tîm yn defnyddio ei adnoddau i gyflawni nodau'r cwmni. Mae angen cysylltiadau cryf rhwng y cynllun strategol a'r cynllun gweithredol er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n effeithlon.

**Ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd iechyd clinigol, darperir y canllawiau canlynol ar gyfer ystod term 'Gwybodaeth am y farchnad' yn neilliant dysgu 1:**

**Cystadleuaeth** byddai'n cyfeirio at achos o orgyffwrdd neu ddyblygu posibl mewn perthynas â gwasanaethau lleol
**Dulliau prynu** byddai'n cyfeirio at rôl Cydwasanaethau a'u protocolau

## *SGC cysylltiedig*

- SCDLMCE5 Datblygu cynlluniau gweithredol a rheoli adnoddau i ateb gofynion ar y ddarpariaeth gwasanaethau gofal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- SCDLMCE7 Datblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau busnes strategol sy'n cefnogi datblygiad parhaus a hyfywdra darparu gwasanaethau gofal

## *Adnoddau*

Mind Tools 'The planning cycle': https://www.mindtools.com/pages/article/newPPM_05.htm

# Uned 546 Arwain a rheoli tîm therapi

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 80 |
| **Credyd:** | 20 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i arwain tîm therapi, neu is-arbenigedd<br>Bydd y gwasanaeth yn ymdrin yn uniongyrchol â chleifion, a bydd yr unigolyn yn gyfrifol am dîm sy'n darparu gofal.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, gall cleifion gynnwys plant a/neu oedolion gan ddibynnu ar ffocws y tîm therapi |

## Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol penodol, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol ar gyfer proffesiynau therapi

## Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

3.1 **Gofynion penodol** ar gyfer ymarfer therapi

3.2 **Fframweithiau deddfwriaethol,** polisïau Llywodraeth Cymru sy'n annog unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i wireddu'r canlynol:

- Bywyd llawn a gwerthfawr
- Eu hawliau
- Cydraddoldeb
- Llais a rheolaeth
- Llesiant
- Cydgynhyrchu
- Cynhwysiant a chyfranogiad
- Dewisiadau bywyd
- Canlyniadau sy'n adlewyrchu 'beth sy'n bwysig' i'r unigolyn

3.3 **Cwmpas** y gwasanaeth a gaiff ei ariannu

### Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.4 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodol ar gyfer ymarfer therapi

3.5 Cefnogi staff i ddeall sut i wneud y canlynol:

- defnyddio gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol er mwyn llywio a datblygu ymarfer
- sut y gall y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol effeithio ar ryddid rhai unigolion

- Y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael mynediad iddynt a'u defnyddio

3.6 Sicrhau bod unigolion yn gallu cael mynediad i gefnogaeth eirioli

3.7 Sicrhau bod arwyddocâd treftadaeth a diwylliant unigolyn yn cael ei gydnabod

**Ystod:**

**Gofynion penodol:** Canllawiau NICE, Llwybrau Cleifion, Safonau Cenedlaethol, Safonau Gofal Iechyd (2015), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018), Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2018), y Ddeddf Iechyd (2007), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) gan gynnwys y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Safonau Proffesiynol, Cynlluniau Cyflawni Lleol

**Fframweithiau deddfwriaethol:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, **Rheoliad yr UE ar Ddyfeisiau Meddygol 2017/745**

**Cwmpas**, gan gynnwys demograffeg a chyffredinrwydd clefydau mewn perthynas â'r maes gwasanaeth penodol

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

2 Arwain a rheoli'r broses o gynnwys gwerthoedd ac ymddygiadau sefydliadol o fewn ymarfer y tîm therapi

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Gwerthoedd y sefydliad a'r ffordd y maent yn gysylltiedig â llesiant staff.

2.2 Pwysigrwydd arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol

2.3 Goblygiadau ymddygiad amhroffesiynol yn y gweithle a'r tu allan i'r gweithle

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.4 Cefnogi eraill i ddeall gwerthoedd y sefydliad a sut y maent yn berthnasol i lesiant staff

2.5 Adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad ac yn eu rhoi ar waith yn ymarferol

2.6 Modelu arweinyddiaeth dosturiol a chydweithredol

2.7 Modelu ymddygiadau proffesiynol a sicrhau bod staff yn arddangos yr ymddygiadau hyn wrth ymarfer

2.8 Hyfforddi staff yn eich tîm mewn ffordd gadarnhaol

2.9 Galluogi staff i fodelu gwerthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad

2.10 Galluogi aelodau o'r staff i fynegi pryderon o fewn diwylliant "di-fai"

---

Deilliant dysgu:

3. Arwain a rheoli taith unigolyn drwy'r gwasanaeth

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i arwain a rheoli'r canlynol:

- **atgyfeiriadau** a gaiff eu derbyn gan eich gwasanaeth
- y broses o bennu anghenion clinigol drwy ddefnyddio protocol asesu priodol
- y broses o ddatblygu cynlluniau triniaeth unigol sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol fel y cytunwyd arnynt â'r claf
- Rhoi'r cynllun triniaeth ar waith a chynnal gwerthusiadau parhaus ohono
- Trefniadau dilynol a threfniadau ar gyfer rhyddhau'r claf

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n cynnwys dull cydgynhyrchiol gydag unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr yn ystod y **broses gynllunio**

3.3 Arwain a rheoli'r gwaith o ddatblygu cynlluniau triniaeth ar y cyd â'r unigolyn er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol y cytunwyd arnynt

3.4 Arwain a rheoli'r gwaith o gwblhau asesiadau o angen ar y cyd â'r unigolyn / teuluoedd / gofalwyr

3.5 Arwain a rheoli trosglwyddiadau gofal llyfn rhwng gwahanol dimau, lleoliadau a gwasanaethau

3.6 Cefnogi staff/unigolion a'u teuluoedd/gofalwyr i ddeall y canlynol

- Yr angen i gael cydsyniad penodol a'i oblygiadau
- goblygiadau posibl asesiadau galluedd meddyliol a phenderfyniadau budd pennaf
- y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael mynediat iddynt a'u defnyddio

3.7 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu dulliau gweithredu cydgynhyrchiol sy'n seiliedig ar hawliau sy'n cefnogi unigolion i wneud y canlynol:

- Rheoli achosion o gyfyng-gyngor sy'n codi wrth gydbwyso eu hawliau i gymryd risgiau â'u diogelwch a'u llesiant

3.8 Arwain ymarfer sy'n mynd ati i herio sefyllfaoedd lle na chaiff hawliau unigolion eu parchu

3.9 Gwerthuso llwybr y claf er mwyn asesu effeithiolrwydd wrth gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt

### Ystod

**Atgyfeiriadau:** gan gynnwys rheoli rhestrau aros, effaith targedau perfformiad, gallu'r gwasanaeth, defnyddio llwybrau cleifion

**Proses gynllunio:** byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a galluogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

4 Arwain a rheoli gofynion gweithredol y gwasanaeth

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Yr angen i gydbwyso cyllideb y gwasanaeth, gan fodloni gofynion clinigol ar yr un pryd

4.2 Y broses gwerthuso swyddi fel y mae'n berthnasol i ddatblygu rolau newydd a newidiol

4.3 Y broses caffael a thendro ar gyfer archebu cyfarpar

4.4 Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer y gwasanaeth

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Cefnogi eraill i ddeall yr angen i gydbwyso cyllideb y gwasanaeth gan fodloni gofynion clinigol ar yr un pryd

4.6 Arwain a rheoli trefniadau ar gyfer **defnyddio cyfarpar a dyfeisiau yn ddiogel,** gan gydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol

4.7 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r broses o gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol eich gwasanaeth

### Ystod

**Defnyddio cyfarpar yn ddiogel**, gan gynnwys rheoli stoc, Stocrestr, storio a chynnal a chadw, gofynion o ran rheoli heintiau a diheintio, Gwaredu, Hygyrchedd cyfarpar a dyfeisiau, Rôl peirianneg glinigol, defnyddio "llyfrgelloedd" cyfarpar

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

### Deilliant dysgu:

5 Arwain a rheoli llwyth gwaith y tîm therapi

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall

5.1 Goblygiadau cymysgedd sgiliau a lefelau cymhwysedd ar rotâu dyletswydd

5.2 Y broses o ddirprwyo'n effeithiol

5.3 Sut y mae dirprwyo yn gysylltiedig ag atebolrwydd a chyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig

5.4 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas ag effaith y llwyth gwaith er mwyn cydbwyso'r canlynol:

- Dyletswydd Gofal
- Gofynion llwythi achosion
- Blaenoriaethu anghenion clinigol
- Y gallu i ddarparu'r gwasanaeth
- Amseroedd rhwng atgyfeirio achosion a darparu triniaeth
- Rhestrau aros

5.5 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas ag effaith y llwyth gwaith ar staff, gan gynnwys:

- Diwallu anghenion therapi unigolion
- Iechyd a llesiant staff
- Diwylliant di-fai mewn perthynas â chamgymeriadau
- Dysgu o gamgymeriadau, cwynion, a chanmoliaeth
- Polisi Seibiannau Bwyd a Hydradu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.6 Cefnogi eraill i ddeall

- Goblygiadau cymysgedd sgiliau a lefelau cymhwysedd ar rotâu dyletswydd
- sut y mae dirprwyo yn gysylltiedig ag atebolrwydd a chyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig

5.7 Arwain a rheoli'r tîm er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn adlewyrchu'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar gyfer y llwyth gwaith

5.8 Arwain a rheoli'r tîm er mwyn diwallu anghenion therapi unigolion fel y'u rhagnodir yn eu cynlluniau gofal

5.9 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hybu ac yn cefnogi iechyd a llesiant staff

Ystod

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

6 Arwain a rheoli ymarfer sy'n sicrhau y caiff iechyd unigolyn ei ystyried mewn ffordd gyfannol

### Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

6.1 Yr angen i gymryd cyfrifoldeb am roi gwybod am/atgyfeirio unrhyw gyflyrau a nodir sy'n effeithio ar unigolyn sydd y tu hwnt i gwmpas eich ymarfer

6.2 Bod y canlynol yn hanfodol er mwyn cynllunio a darparu gofal cyfannol i glaf:

- Trefniadau cydgynhyrchu â'r unigolyn, teulu/gofalwyr
- dull seiliedig ar gryfderau
- canlyniadau cadarnhaol y cytunwyd arnynt sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, teulu/gofalwr
- trafodaethau ag unigolion o ran dewisiadau ffordd o fyw iach a hunanreolaeth

6.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael mynediad iddynt er mwyn cefnogi unigolion

6.4 Sut i liniaru unrhyw ffactorau risg a all effeithio ar lesiant unigolyn

### Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.5 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol i bob unigolyn, gan gyfeirio at wasanaethau eraill lle y bo angen

6.6 Arwain a rheoli'r gwaith o gydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi unigolion

6.7 Sut i arwain ymarfer sy'n cefnogi hawliau unigolion

- i gymryd risgiau cadarnhaol
- i ymdrin â heriau y gall unigolion eu hwynebu wrth arfer eu hawliau

---

### Deilliant dysgu:

7 Arwain a rheoli cefnogaeth i'r Gymraeg yn y gwasanaeth therapi

### Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

7.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, polisi a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn y maes therapi

7.2 Nodweddion gwasanaethau sy'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol a Safonau'r Gymraeg

7.3 Sut i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog

7.4 Ffyrdd ymarferol o ddatblygu a hybu'r Gymraeg yn y gweithle

### Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.5 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol', Safonau'r Gymraeg ac ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle

---

Deilliant dysgu:

8 Arwain a rheoli cyfarfodydd

Meini prawf asesu

Rydych yn deall

8.1 Diben, amcanion a chylch gorchwyl y cyfarfod
8.2 Diben a strwythur agenda
8.3 sut i ddewis a gwahodd y bobl gywir i fynychu'r cyfarfod mewn modd amserol
8.4 sut i benodi cadeirydd
8.5 rolau a chyfrifoldebau'r cadeirydd, yr ysgrifennydd ac unigolion yn y cyfarfod
8.6 dilyn protocol a gweithdrefnau, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda
8.7 yr angen i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn cael y cyfle i gyfrannu
8.8 Strategaethau ar gyfer rheoli sefyllfaoedd heriol yn ystod cyfarfod
8.9 dibenion cofnodion a chynlluniau gweithredu
8.10 Dosbarthu papurau mewn modd amserol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.11 Sicrhau bod pob aelod yn cael y cyfle i gyfrannu

8.12 sicrhau bod **papurau** yn cael eu dosbarthu'n amserol cyn ac ar ôl y cyfarfod

# Uned 546 Arwain a rheoli tîm therapi

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

**Contractau:** contractau ag unigolion ac awdurdodau lleol/byrddau iechyd/sefydliadau yn y Trydydd Sector

**Cydsyniad:** Yng nghyd-destun yr uned hon lle mae'r gwasanaeth yn cynnwys plant, meysydd penodol plant sy'n derbyn gofal, cyfrifoldeb rhieni, y gwahaniaeth o ran gofynion cydsyniad ar gyfer y rheini rhwng 0 a 15 oed a'r rheini sy'n 16 ac 17 oed a chanllawiau Frasier

Yn ystod **trosglwyddiadau gofal**, bydd pob gweithiwr proffesiynol yn gweithio gydag unigolyn mewn modd cydgynhyrchiol er mwyn sicrhau proses ddiogel wrth ei ryddhau/trosglwyddo ei ofal. Yn ogystal â'r unigolyn gall hyn gynnwys gofalwyr, staff y GIG, staff ALl, asiantaethau, y trydydd sector, gwirfoddolwyr ac eraill.
Y rheini sy'n gysylltiedig â gofalu am unigolyn ar ôl ei ryddhau; unigolyn, teulu/gofalwyr, timau cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau lleol, asiantaethau gofal, cartrefi gofal, gwasanaeth ambiwlans, gwasanaethau plentyn i oedolyn

**Gofal Cyfannol:** yn ystyried pob agwedd ar iechyd a llesiant unigolyn, gan gynnwys agweddau cymdeithasol ac economaidd, ac unrhyw gyflyrau sy'n bodoli eisoes fel iechyd meddwl gwael, anabledd dysgu, anabledd corfforol, awtistiaeth, dementia, clefyd fasgwlaidd, cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a chyflyrau tymor hir

Canllawiau pellach oddi wrth:

1000 o fywydau
**http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/How%20to%20%289%29%20falls%20%28Feb%202011%29%20Web.pdf**
**http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/FRATtool.pdf**
E-lawlyfr Llywodraethu'r GIG
**http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards-supporting-gui-17**
**NICE**
**https://www.nice.org.uk/guidance/cg161/documents/falls-full-version2**

**Ystyriaethau cyllido:** systemau lleol gan gynnwys broceriaeth, Gofal Iechyd Parhaus, gwaith asesu a chymhwysedd, y Ddeddf Iechyd Meddwl adran 117 ôl-ofal

**Trafodaethau ynghylch ffyrdd iach o fyw,** gan gynnwys Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif, agenda Iechyd y Cyhoedd, ffactorau ffordd o fyw

**Diwylliant di-fai:** dylai ymdrin â sut i godi pryderon gyda'r rheolwr lleol, yn ogystal â gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn GIG Cymru yn ôl polisi Cymru gyfan

**Llwybrau Cleifion:** dylai gynnwys y broses o bersonoleiddio'r llwybrau ar gyfer cleifion penodol a'r rhesymau pam y gall therapydd benderfynu gwyro oddi ar y llwybr er mwyn darparu gofal person-ganolog

**Safonau Proffesiynol**
Fel y maent yn berthnasol i broffesiwn/arbenigedd yr unigolyn: gan gynnwys Codau Ymddygiad, llwybrau clinigol penodol, canllawiau cysylltiedig gan NICE, cynlluniau cyflawni lleol

Mae **Amgylchedd Cefnogol** yn un sy'n mynd ati mewn ffordd ragweithiol i gydnabod a herio rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, achosion o wahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at unigolion

Gall **cyfleusterau fideogynadledda** gynnwys fideogynadledda, Skype, Google Chats. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

***Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig***
Safonau Gofal Iechyd (2015),
Dyletswydd Gofal,
Dyletswydd Gonestrwydd (deddf newydd),
Deddf Galluedd Meddyliol,
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid,
Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

- Gwerthoedd a Safonau'r GIG
- Gwerthoedd Sefydliadol
- Canllawiau Dirprwyo
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- **www.nice.org.uk/guidance**
    - Deddf yr Iaith Gymraeg 1993
    - Deddf Cydraddoldeb 2010
    - Safonau'r Gymraeg 2018 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh
    - Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation,
    - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI 2018) http://www.waspi.org/hafan

Deddf ADY
**Rheoliad yr UE ar Ddyfeisiau Meddygol 2017/745; https://www.gov.uk/guidance/medical-devices-eu-regulations-for-mdr-and-ivdr#health-institutions-and-the-regulations**

# Uned 547 Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 50 |
| **Credyd:** | 30 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Mae'r uned hon yn ymdrin â'r sgiliau sydd eu hangen i reoli ac arwain gwasanaeth iechyd plant. Yng nghyd-destun yr uned hon, mae plant yn cyfeirio at y rheini rhwng 0 a 19 oed (gan gynnwys y rheini sy'n cael gofal gan wasanaethau cynenedigol, gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau yn y gymuned). |

## Deilliant dysgu:

1. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol penodol, canllawiau polisi a safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd plant.

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- **Gofynion penodol** ar gyfer gwasanaethau iechyd plant
- **Gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol** sy'n dylanwadu ar y gofynion ar gyfer gwasanaethau iechyd plant ac yn cefnogi ymarfer seiliedig ar dystiolaeth
- **Fframweithiau deddfwriaethol,** polisïau Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr a'u heffaith ar y canlynol:

8. Bywyd llawn a gwerthfawr
9. Hawliau
10. Cydraddoldeb
11. Llais a rheolaeth
12. Llesiant
13. Cydweithio
14. Cynhwysiant a chyfranogiad

## Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

1.2 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n cydymffurfio â'r gofynion penodol ar gyfer gwasanaethau iechyd plant

1.3 Defnyddio gwaith ymchwil a fframweithiau damcaniaethol er mwyn llywio a datblygu ymarfer

1.4 Cefnogi staff i ddeall sut y gall Canllawiau Frasier 1995, Cyfrifoldeb Rhieni a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) effeithio ar y broses o gael cydsyniad i roi triniaeth:

- y mathau o eiriolaeth sydd ar gael a sut y gellir cael mynediad iddynt a'u defnyddio

1.5 Sicrhau bod plant a'u teuluoedd/gofalwyr yn gallu cael mynediad i gefnogaeth eirioli
1.6 Sicrhau bod arwyddocâd treftadaeth a diwylliant plentyn yn cael ei gydnabod

**Ystod:**

**Gofynion penodol:** Safonau Gofal Iechyd (2015), y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018), Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (2018), Plant Iach Cymru (2016), CCUHP (Cymru) 2011, Deddf Plant 2004

**Fframweithiau deddfwriaethol:** y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

Deilliant dysgu:

2 Arwain a rheoli ymarfer sy'n rhoi gwerthoedd sefydliadol ar waith o fewn gwasanaethau iechyd plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- Gwerthoedd y sefydliad a'r ffordd y maent yn gysylltiedig â llesiant staff.
- Pwysigrwydd Arweinyddiaeth Dosturiol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

2.2 Adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad ac yn eu rhoi ar waith yn ymarferol
2.3 Arwain mewn ffordd dosturiol
2.4 Hyfforddi staff yn eich tîm mewn ffordd gadarnhaol
2.5 Galluogi staff i roi gwerthoedd a ffyrdd o ymddwyn y sefydliad ar waith
2.6 Galluogi staff i fynegi pryderon o fewn diwylliant "di-fai"

---

Deilliant dysgu:

3 Arwain a rheoli cefnogaeth barhaus er mwyn diwallu anghenion gofal corfforol plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- anghenion gofal corfforol plant
- manteision chwarae a dysgu fel rhan o gefnogaeth barhaus
- pwysigrwydd darparu cyfleoedd i chwarae o fewn meysydd gwasanaethau iechyd plant

- pwysigrwydd cynnwys teuluoedd/gofalwyr yng ngofal y plentyn
- pwysigrwydd defnyddio dull seiliedig ar gryfderau er mwyn meithrin sgiliau, hyder a hunan-barch
- arwyddocâd perthnasoedd, rhwydweithiau a chymunedau wrth gefnogi iechyd a llesiant plant

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

3.2 Arwain a rheoli ymarfer sy'n gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod anghenion gofal corfforol yn cael eu diwallu
- cynnwys chwarae fel agwedd ar ofal parhaus
- cefnogi plant/teuluoedd/gofalwyr i gaffael sgiliau a'u meithrin ymhellach er mwyn hybu twf a datblygiad parhaus plant

3.3 Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu cydweithrediad wrth gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr, gan gynnwys yn ystod y broses gynllunio

3.4 Arwain ymarfer sy'n mynd ati i herio sefyllfaoedd lle na chaiff hawliau plant a'u teuluoedd/gofalwyr eu parchu

3.6 Sicrhau y caiff teuluoedd/gofalwyr eu hannog i gymryd rhan mewn gofal a chymorth

3.7 Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith sy'n sicrhau y caiff arferion cyfyngol eu defnyddio mewn ffordd ddiogel a moesegol

Ystod:

**Proses gynllunio:** byddai'n cynnwys pennu nodau neu ganlyniadau a galluogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu twf, dysgu a datblygiad; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau a throsglwyddiadau

---

Deilliant dysgu:

4 Arwain a rheoli'r gwaith o gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion mewn modd cyfannol

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

4.1 Pwysigrwydd dechrau **cynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion** o'r adeg y cânt eu derbyn gan wasanaethau iechyd plant

4.2 Rôl y tîm amlddisgyblaethol wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion

4.3 Dull rheoli achos y tîm amlddisgyblaethol o gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion

4.4 Goblygiadau dull gwael o gynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion o ran:

- **Hyd yr Arhosiad**
- Aildderbyn
- Oedi o ran cludiant
- **newid a throsglwyddiadau** i blant a'u teuluoedd/gofalwyr
- llesiant plant a’u teuluoedd/gofalwyr

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

4.5 Arwain a rheoli'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cyfannol ar gyfer rhyddhau unigolion ar y cyd â'r plentyn a'i deulu/gofalwyr er mwyn cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt
4.6 Sicrhau y caiff asesiadau o angen eu cwblhau ar y cyd â'r plentyn a'i deulu/gofalwyr
4.7 Arwain a rheoli'r gwaith o ryddhau plant yn ddiogel, gan sicrhau bod pob atgyfeiriad a phenderfyniad yn cael ei rannu â'r rhai sy'n ymwneud â'r broses ryddhau mewn modd amserol.
4.8 Arwain a rheoli arferion a gweithdrefnau sy'n cefnogi trosglwyddiadau llyfn rhwng gwahanol dimau, lleoliadau a gwasanaethau

### Ystod

**Cynllunio ar gyfer rhyddhau unigolion,** gan gynnwys trosglwyddo i wasanaethau oedolion

**Hyd yr Arhosiad**, gan gynnwys ystyriaethau cyllido, atgyfeiriadau cynnar at wasanaethau yn y gymuned

**Newid a throsglwyddiadau**, gan gynnwys trosglwyddo gofal i wasanaethau eraill, gofal maeth, ysgolion, cartref

---

### Deilliant dysgu:

5 Arwain a rheoli gofal y plentyn sy'n gwaethygu

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

5.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol
- Rolau a chyfrifoldebau pob gweithiwr o ran cydnabod plentyn sy'n gwaethygu

5.2 Eich rôl chi a rôl y tîm ehangach o ran penderfyniadau *Peidiwch â Dadebru*
5.3 Pwysigrwydd parchu Penderfyniadau Blaengynllunio Gofal
5.4 Eich rôl wrth reoli achosion o wrthdaro â phlant/teuluoedd/gofalwyr a'r angen i weithredu fel eiriolwr.

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

5.5 Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf er mwyn ymateb i:
- Sepsis
- Dadebru
- Penderfyniadau Blaengynllunio Gofal
- Materion Diogelu

5.6 Arwain a rheoli ymateb i'r plentyn sy'n gwaethygu
5.7 Sicrhau bod anghenion emosiynol teuluoedd/gofalwyr yn cael eu cydnabod a bod cefnogaeth ar gael
5.8 Arwain a rheoli'r gwasanaeth iechyd plant er mwyn sicrhau y caiff dewisiadau Blaengynllunio eu parchu
5.9 Cefnogi gweithwyr i ddeall a pharchu'r dewisiadau Blaengynllunio

Deilliant dysgu:

6 Arwain a rheoli llwyth gwaith ac adnoddau'r gwasanaeth iechyd plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

6.1 Goblygiadau cymysgedd sgiliau a lefelau cymhwysedd ar rotâu dyletswydd

6.2 Dyrannu amser a chyfleoedd datblygu i bob aelod o'r staff yn deg

6.3 Y broses o ddirprwyo ar draws y tîm iechyd plant a rhwng y tîm hwnnw

6.4 Sut y mae dirprwyo yn gysylltiedig ag atebolrwydd a chyfrifoldeb am dasgau dirprwyedig

6.5 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas ag effaith y llwyth gwaith ar staff, gan gynnwys:

- Diwallu anghenion gofal corfforol ac emosiynol plan
- Iechyd a llesiant staff
- Diwylliant di-fai mewn perthynas â chamgymeriadau
- Dysgu o gamgymeriadau, cwynion, a chanmoliaeth
- Polisi Seibiannau Bwyd a Hydradu
- Gofynion y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith

6.6 Sut a ble i uwchgyfeirio pryderon ynghylch **adnoddau** annigonol o ran llwyth gwaith

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6.7 Arwain a rheoli'r tîm er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn adlewyrchu'r cymysgedd sgiliau sydd ei angen ar y gwasanaeth iechyd plant

6.8 Arwain a rheoli'r tîm er mwyn diwallu anghenion gofal corfforol ac emosiynol plant fel y'u rhagnodir yn eu cynlluniau gofal

Ystod

**Adnoddau:** gan gynnwys staff

Deilliant dysgu:

7. Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi trefniadau ar gyfer ystyried llesiant plant mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys parch tuag at ddewisiadau ***LGBTQ+***

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

7.1 Yr ystod o derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â LGBTQ +

7.2 Eich cyfrifoldebau mewn perthynas â dewisiadau'r plentyn ar gyfer LGBTQ +

7.3 Yr addasiadau y gallai fod eu hangen i gynorthwyo plentyn i gael ei ddewisiadau LGBTQ +

- Ffurfiau ar gyfeiriad
- Adnabod cleifion yn gadarnhaol

- Cadw cofnodion

7.4 ow i fynd i'r afael ag unrhyw heriau teuluol a allai ddeillio o ddewisiadau LGBTQ + y plenty

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

7.5 Arwain a rheoli amgylchedd cyfeillgar LGBTQ + sy'n agored, nad yw'n stigmateiddio ac sy'n helpu plant i fynegi eu dewisiadau LGBTQ +

7.6 Helpu eraill i ddeall sut i gefnogi plentyn, a'u teuluoedd/gofalwyr gyda'u dewisiadau LGBTQ +

7.7 Y gwasanaethau lleol y gellir cael gafael arnynt i gefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr ac eraill mewn perthynas ag LGBTQ +

---

Deilliant dysgu:

8 Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi trefniadau ar gyfer ystyried iechyd plant mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys y rheini â chyflyrau iechyd meddwl

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

8.1 Cyffredinrwydd a demograffeg achosion o salwch meddwl ymhlith plant a'r goblygiadau i wasanaethau iechyd plant

8.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- gwahanol broblemau iechyd meddwl y gall plant eu profi
- pwysigrwydd ystyried iechyd plentyn mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys ei iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar y plentyn ac nid dim ond ei symptomau
- ystyr y termau trallod meddwl a salwch meddwl
- y ffyrdd gwahanol y gall plant brofi a chyfleu trallod meddwl a salwch meddwl

8.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael mynediad iddynt er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n byw gyda salwch meddwl

8.4 Effaith bosibl salwch meddwl aelodau'r teulu/gofalwr ar blant

8.5 Y llwybr asesu ar gyfer plentyn sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

8.6 Cefnogi eraill i ddeall effaith bosibl salwch meddwl

8.7 Cefnogi staff i gydnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd a ffactorau demograffig salwch meddwl ymhlith plant yng Nghymru ar wasanaethau iechyd plant

8.8 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol i bob plentyn

8.9 Arwain a rheoli trefniadau ar gyfer cydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi plant

---

Deilliant dysgu:

9 Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi trefniadau ar gyfer ystyried iechyd plant mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys y rhai sy'n byw gydag anabledd dysgu ac awtistiaeth

Rydych yn deall:

9.1 Beth yw ystyr y term anabledd, a yw'r anabledd hwnnw yn weledol neu'n gudd.

9.2 **Cyffredinrwydd anabledd dysgu ac awtistiaeth** a'u goblygiadau i'r maes clinigol

9.3 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- gwahanol anableddau dysgu a sbectrymau awtistiaeth y gall plant eu profi a'u hachosion posibl
- pwysigrwydd ystyried iechyd plentyn mewn ffordd gyfannol gan ystyried ei anabledd dysgu a'i awtistiaeth, gan ganolbwyntio ar y plentyn a'i deulu/gofalwr ac nid dim ond symptomau'r plentyn wrth ddarparu gofal
- y gall anabledd dysgu/awtistiaeth guddio problemau iechyd corfforol sylfaenol
- efallai na fydd plant sy'n byw gydag anabledd dysgu/awtistiaeth yn ei chael hi'n hawdd cyfathrebu, yn arbennig pan fyddant mewn poen neu wedi cynhyrfu

9.4 Sut i arwain ymarfer sy'n cefnogi hawliau plant i gymryd risgiau cadarnhaol

9.5 Y gwasanaethau lleol y gellir cael mynediad iddynt er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n byw gydag anabledd dysgu ac awtistiaeth

9.6 Strategaethau i gynnal diogelwch plentyn heb ddefnyddio arferion cyfyngol

9.7 Yr angen i ddilyn cynllun gofal unigol plentyn

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

9.8 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** sy'n hybu'r defnydd o ddulliau cefnogaeth i blant a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n ystyried y canlynol:

- nodweddion yr anabledd
- unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu
- eu hunigoliaeth a'u hoff ddewisiadau

9.9 Cefnogi staff i gydnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd anabledd dysgu ac awtistiaeth yng Nghymru ar wasanaethau iechyd plant

9.10 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol i bob plentyn a'i deulu/gofalwyr

9.11 Arwain a rheoli trefniadau ar gyfer cydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr

Amrediad:

**Cyffredinrwydd anableddau dysgu ac awtistiaeth:** unigolion ag anabledd dysgu sy'n awtistig, unigolion awtistig sydd ag anabledd dysgu, unigolion awtistig heb unrhyw anabledd dysgu, unigolion ag anabledd dysgu nad ydynt yn awtistig
**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

Deilliant Dysgu

10 Arwain a rheoli ymarfer sy'n cefnogi trefniadau ar gyfer ystyried iechyd plentyn mewn ffordd gyfannol, gan gynnwys y rhai sy'n byw gydag anabledd

### Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

10.1 Cyffredinrwydd a demograffeg **gwahanol fathau o anabledd** ymhlith y boblogaeth a'r goblygiadau i'r maes clinigol

10.2 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- sut y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cefnogi dull seiliedig ar hawliau ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd/gofalwyr
- Beth yw ystyr y termau 'nam' ac 'anabl' a phwysigrwydd gweld y plentyn yn gyntaf, nid y nam
- natur a nodweddion **mathau gwahanol o anabledd**
- nodweddion allweddol amgylchedd hygyrch

10.3 Y gwasanaethau lleol y gellir cael mynediad iddynt er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr sy'n byw gyda gwahanol fathau o anabledd

### Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

10.4 Cefnogi eraill i ddeall effaith bosibl gwahanol fathau o anabledd

10.5 Cefnogi staff i gydnabod effaith cyfraddau cyffredinrwydd a ffactorau demograffig gwahanol fathau o anabledd yng Nghymru ar wasanaethau iechyd plant

10.6 Arwain a rheoli amgylchedd cefnogol a hygyrch i bob plentyn a'i deulu/gofalwyr

10.7 Arwain a rheoli trefniadau ar gyfer cydweithio ag arbenigwyr proffesiynol er mwyn cefnogi plant a'u teuluoedd/gofalwyr

### Amrediad:

**Gwahanol fathau o anabledd:** gan gynnwys anaf a gafwyd i'r ymennydd, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), nam corfforol, nam ar y synhwyrau

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

**Proses gynllunio:** byddai'n cynnwys nodi nodau neu ganlyniadau a galluogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau; monitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau, trosglwyddo gofal

---

## Deilliant dysgu:

11 Arwain a rheoli'r broses o gynllunio cefnogaeth i blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd

### Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

11.1 Y term cyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd

11.2 Gofal lliniarol mewn perthynas â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd plentyn

11.3 Sut i gefnogi dealltwriaeth gweithwyr o'r canlynol:

- Pwysigrwydd gwaith cynllunio cynnar ar gyfer cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a gofal lliniarol
- Y gefnogaeth sydd ar gael i blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a'u teuluoedd/gofalwyr
- Pwysigrwydd Blaengyfarwyddebau a ddatblygir ar y cyd â'r plentyn, teulu/gofalwyr a'r defnydd ohonynt
- Sut i fynd ati mewn ffordd sensitif i reoli unrhyw achosion o wrthdaro a all godi â theuluoedd/gofalwyr, unigolion a/neu weithwyr proffesiynol lle na fydd trefniadau blaengynllunio ar waith
- Yr angen i ddiwallu anghenion corfforol (gan gynnwys yr amgylchedd), cymdeithasol, seicolegol ac ysbrydol plant a'u teuluoedd/gofalwyr

---

Deilliant dysgu
12 Arwain a rheoli trefniadau i gefnogi'r agenda rheoli meddyginiaethau yn y maes clinigol

## Meini prawf asesu

### Rydych yn deall:

12.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:
- Y polisi rheoli meddyginiaeth cenedlaethol a lleol cyfredol
- Y goblygiadau cyfreithiol a'r gweithdrefnau/camau i'w cymryd pan fo staff:

12.2 yn gwneud camgymeriad o ran meddyginiaeth
12.3 yn camddefnyddio cyffuriau/ meddyginiaeth
12.4 yn defnyddio cyffuriau/meddyginiaeth yn amhriodol
- Y goblygiadau cyfreithiol a'r gweithdrefnau/camau i'w cymryd pan fo adwaith andwyol i gyffur.

### Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n:

12.5 **Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith** i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol

12.6 Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cyfredol ar reoli meddyginiaethau, gan gynnwys:
- Storio meddyginiaethau yn ddiogel
- Rhoi meddyginiaethau mewn ffordd gudd

### Amrediad:

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant Dysgu

13 Arwain a rheoli trefniadau i gefnogi'r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd plant

Meini prawf asesu

Rydych yn deall

13.1 Sut i gefnogi dealltwriaeth eraill o'r canlynol:

- Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, polisi a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg a'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn y gwasanaeth iechyd plant
- Nodweddion gwasanaethau sy'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol a Safonau'r Gymraeg
- Sut i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog
- Ffyrdd ymarferol o ddatblygu a hybu'r Gymraeg yn y gweithle

Rydych yn gweithio mewn ffyrdd sy'n:

13.2 **Rhoi systemau, prosesau ac ymarfer ar waith** sy'n cefnogi'r 'Cynnig Rhagweithiol', Safonau'r Gymraeg ac ymdrechion i ddatblygu'r Gymraeg yn y gweithle

Amrediad:

**Rhoi systemau, gweithdrefnau ac ymarfer ar waith:** yn unol â chyd-destunau deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol

---

## Deilliant dysgu:

14 Arwain a rheoli cyfarfodydd

Meini prawf asesu

Rydych yn deall

14.1 Diben, amcanion a chylch gorchwyl y cyfarfod

14.2 Diben a strwythur agenda

14.3 Sut i ddewis a gwahodd y bobl gywir i fynychu'r cyfarfod mewn modd amserol

14.4 Sut i benodi cadeirydd

14.5 Rolau a chyfrifoldebau'r cadeirydd, yr ysgrifennydd ac unigolion yn y cyfarfod

14.6 Dilyn protocol a gweithdrefnau, gan gynnwys defnyddio cyfleusterau fideogynadledda

14.7 Yr angen i sicrhau bod pob aelod o'r grŵp yn cael y cyfle i gyfrannu

14.8 Strategaethau ar gyfer rheoli sefyllfaoedd heriol yn ystod cyfarfod

14.9 Dibenion cofnodion a chynlluniau gweithredu

14.10 Dosbarthu papurau mewn modd amserol

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

14.11 Sicrhau bod pob aelod yn cael y cyfle i gyfrannu

14.12 sicrhau bod **papurau** yn cael eu dosbarthu'n amserol cyn ac ar ôl y cyfarfod

Amrediad:

Mae **papurau** yn cynnwys agendâu, cofnodion, pwyntiau gweithredu, dogfennau trafod a chyflwyniadau

# Uned 547 Arwain a rheoli gwasanaethau iechyd plant

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Mae angen i **Blaengynllunio Gofal a Phenderfyniadau Budd Pennaf** gynnwys:
Yr angen i drafod (cael sgyrsiau anodd) â'r unigolyn, teuluoedd/gofalwyr am ddewisiadau'r unigolyn os bydd yn gwaethygu, Marwolaeth ddisgwyliedig ac annisgwyl, Rhoi'r gorau i driniaeth a beth y mae hyn yn ei olygu gan gynnwys trafod y goblygiadau moesegol, Atwrneiaeth

**Meysydd gofal corfforol:** rheoli heintiau, maeth – deiet a hylif, bwydo ymatebol, symudedd a throsglwyddo diogel, hybu ymataliaeth, gofal croen a hyfywdra meinweoedd, iechyd y geg, iechyd gweledol a chlywedol, iechyd rhywiol, asesu patrymau cwsg a rheoli poen

Mae **ymddygiadau** (cadarnhaol a negyddol) yn ffordd o gyfathrebu

**Gofalu am y claf sy'n gwaethygu:** byddai cydnabod claf sy'n gwaethygu yn cynnwys arsylwadau ffisiolegol, ac yng nghyd-destun Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ysgol, byddai'n cynnwys plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd.

**Contractau:** contractau ag awdurdodau lleol/byrddau iechyd/sefydliadau yn y Trydydd Sector

Mae'r **Broses ar gyfer Rhyddhau Unigolion** yn cynnwys pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd/gofalwyr yn cydweithio er mwyn hwyluso'r broses o'u rhyddhau'n ddiogel. Yn ogystal â'r plentyn/teulu/gofalwyr, gall hyn gynnwys gweithwyr allweddol, staff y GIG a gwasanaethau iechyd plant, nyrs cyswllt rhyddhau, staff yr ALl, Gwasanaethau Cymdeithasol, timau cymunedol, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgol, asiantaethau, addysg, y trydydd sector, gwirfoddolwyr ac eraill.

**Ystyriaethau cyllido:** systemau lleol gan gynnwys broceriaeth, Gofal Iechyd Parhaus, gwaith asesu a chymhwysedd,

**Rhwydweithiau a Chymunedau sy'n cefnogi iechyd a llesiant plant:** gall gynnwys ysgolion, ffrindiau, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Plant Cymunedol, gweithwyr allgymorth.

**Iechyd, salwch a thrallod meddwl:** gall gynnwys iselder, anhwylderau gorbryder, anhwylder deubegynol, anhwylderau personoliaeth, anhwylderau bwyta, anhwylder straen ar ôl trawma, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, camddefnyddio sylweddau, hunan-niweidio

Mae **Amgylchedd Cefnogol** yn amgylchedd sy'n cydnabod rhagfarn, tybiaethau ystrydebol, gwahaniaethu ac agweddau negyddol tuag at blant a'u teuluoedd/gofalwyr ac yn mynd ati i'w herio

***SGC cysylltiedig***

**SCDHSC0415** Arwain y broses o gynllunio darpariaeth gwasanaethau er mwyn sicrhau canlyniadau i unigolion

**SFHGEN28** Rhyddhau a throsglwyddo unigolion o wasanaeth neu'ch gofal

**SFHCHS163** Rheoli Argyfyngau

**SFHCHS98** Trefnu gwasanaethau a chymorth gyda darparwyr gofal iechyd eraill

**SFHCHS122** Paratoi cynllun rhyddhau gydag unigolion

**CFASAA411** Cynllunio a threfnu eich cyfarfodydd eich hun

**SCDLDSS408** Datblygu diwylliant a systemau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth

**SFHGEN42** Darparu cymorth seicolegol i aelodau o'r tîm

**SCDHSC0385** Cefnogi unigolion ar ddiwedd eu hoes

**SFHMH90** Cefnogi eraill i hyrwyddo dealltwriaeth a helpu i wella iechyd meddwl pobl

***Deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig***

Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. 2018 dogfen gan Lywodraeth Cymru

Cymru Gyfan Canllawiau ar gyfer Dirprwyo (2010) NLIAH
**https://weds.heiw.wales/assets/Uploads/41636a0b88/Cymru-Gyfan-Canllawiau-ar-Gyfer-Dirprwyo.pdf**

Polisi Rhoi Cofnodi Adolygu Storio a Gwaredu Meddyginiaeth Cymru Gyfan (2014)
**http://www.awmsg.org/awmsgonline/docs/awmsg/medman/All%20Wales%20Policy%20for%20Medicines%20Administration,%20Recording,%20Review,%20Storage%20and%20Disposal.pdf**

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)** (Mehefin 2019), **https://llyw.cymru/bil-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-crynodeb**

Deddf Cydraddoldeb (2010)

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-the-general-data-protection-regulation,

Safonau Iechyd a Gofal (2015) **http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/health-and-care-standards**

Plant Iach Cymru

Deddf Galluedd Meddyliol (2005) – Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: **https://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=744&pid=34352**

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal: **www.nice.org.uk/guidance**

Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad GIG Cymru: **http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/fframwaith-gwerthoedd-a-safonau-ymddygiad**

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016,

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: **https://futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf**

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI 2018) http://www.waspi.org/hafan
Safonau'r Gymraeg 2018 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh

***Adnoddau: Pecynnau e-ddysgu Dysgu@Cymru:***

- **000 GIG Cymru – Rheoli Absenoldebau**
- **000 GIG Cymru – Blaengynllunio Gofal Sylfaen**
- **000 GIG Cymru – Siart Cofnodi Bwyd**
- **000 GIG Cymru – Rhoi, Cofnodi, Adolygu, Storio a Gwaredu Meddyginiaeth**
- **000 GIG Cymru – Nam ar y Synhwyrau**
- **000 GIG Cymru – Y Gymraeg**
- **000 GIG Cymru – Poen, Aflonyddwch Meddwl a Deliriwm**
- **000 GIG Cymru – Rheoli Newid**
- **Trais ac Ymosod**
- **Diogelu**

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r holl fodiwlau sydd ar gael

# Uned 415 Sgiliau astudio

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 4 |
| **ODA:** | 30 |
| **Credyd:** | 8 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall sut i ddefnyddio sgiliau astudio a'u cymhwyso er mwyn cefnogi eu gwaith. |

## Deilliant dysgu:

1. Deall offer a thechnegau ar gyfer datblygu sgiliau dysgu ac astudio

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Sut i nodi eich arddull dysgu eich hun

1.2 Sut y mae eich arddull dysgu yn dylanwadu ar y defnydd o sgiliau astudio ac yn cefnogi'r broses honno

1.3 Sut i ddewis deunyddiau ffynhonnell a'u defnyddio

## Deilliant dysgu:

2. Cymhwyso'r defnydd o sgiliau astudio

### Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

2.1 Ffactorau sy'n effeithio ar eich gallu i astudio

Rydych yn gallu:

2.2 Defnyddio dull trefnus o gynllunio eich astudiaethau personol

2.3 Defnyddio amrywiaeth o adnoddau a thechnegau ar gyfer astudiaethau personol

2.4 Defnyddio amrywiaeth o arddulliau academaidd effeithiol

## Deilliant dysgu:

3. Defnyddio  tystiolaeth ymchwil drwy adolygu gwybodaeth gyhoeddedig

## Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

3.1 Gwahanol fathau o dystiolaeth ymchwil
3.2 Yr amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth ymchwil
3.3 Ffynonellau cefnogaeth wrth gynnal chwiliadau llenyddiaeth
3.4 Ystyriaethau moesegol wrth ddefnyddio tystiolaeth ymchwil o'ch ymarfer chi eich hun
3.5 Yr amrywiaeth o ddulliau casglu data
3.6 Y gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i ddadansoddi data
3.7 Sut i asesu dilysrwydd, dibynadwyedd a thuedd ymchwil bosibl ffynonellau
3.8 Pam y mae llên-ladrad wrth ysgrifennu gwaith academaidd yn anfoesegol
3.9 Canlyniadau posibl llên-ladrad

Rydych yn gallu:

3.10 Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu tystiolaeth ymchwil gyhoeddedig
3.11 Dadansoddi addasrwydd y dystiolaeth a gasglwyd
3.12 Cyflwyno canlyniadau eich gwaith astudio ac ymchwil

# Uned 415 Sgiliau astudio

Gwybodaeth Ategol

## *Canllawiau cyflwyno*

Bydd **arddulliau academaidd** yn amrywio ond fel arfer, ysgrifennir gan ddefnyddio'r trydydd person. Mae angen gwahanol arddulliau ar gyfer fformatau cyfathrebu ysgrifenedig fel; llythrennedd digidol; ysgrifennu myfyriol, ysgrifennu adroddiadau, ysgrifennu traethodau. Mae angen strwythurau penodol ar gyfer y rhan fwyaf ohonynt, a amlinellir fel arfer yn y fanyleb.

I gael rhagor o wybodaeth am arddulliau academaidd penodol, gweler:
**https://help.open.ac.uk/academic-writing-style**

**Ystyriaethau moesegol wrth ymarfer:** er mwyn diogelu preifatrwydd a chyfrinachedd unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, ni ddylai unrhyw dystiolaeth o'ch ymarfer ddatgelu manylion adnabod personol am unrhyw unigolyn, plentyn na gweithiwr. Cyn cyfeirio at unrhyw unigolion neu dynnu lluniau ohonynt, **rhaid** cael cydsyniad gwybodus penodol.

**Ffactorau sy'n effeithio ar eich gallu i astudio**:

- amser,
- lle i weithio,
- amgylchedd tawel,
- straen,
- mynediad at adnoddau,
- diffyg cwsg

**Arddulliau dysgu:** yn cyfeirio at y ffordd y mae'n well gan unigolyn ddysgu/astudio, drwy nodi arddull dysgu benodol, gall dysgwr addasu ei sgiliau astudio. I gael rhagor o wybodaeth, gweler
https://help.open.ac.uk/making-the-most-of-your-learning-style

**Llên-ladrad:** cyflwyno gwaith rhywun arall fel eich gwaith chi. Mae angen sicrhau mai eich geiriad chi eich hun a ddefnyddir gennych wrth ddefnyddio deunyddiau cyfeirio, yn hytrach na chopïo'r testun. Lle defnyddir y testun gwreiddiol, dylid defnyddio dyfynodau a phrint italig, a dylid cyfeirio at y ffynhonnell. Lle defnyddir eich geiriau chi eich hun (aralleirio), dylid cyfeirio at enw'r awdur gwreiddiol ar ddiwedd y frawddeg.
**https://www.ox.ac.uk/students/academic/guidance/skills/plagiarism?wssl=1**

**Rhagfarn o fewn gwaith ymchwil:** Yn cynnwys cadarnhau rhagfarn pan fydd y person sy'n ymgymryd â'r gwaith o ddadansoddi'r data am brofi rhagdybiaeth a bennwyd ymlaen llaw. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ddylanwad gan gyllidwyr yr ymchwil; bydd rhagfarn dethol yn digwydd pan gaiff data eu dewis mewn ffordd oddrychol gan felly ddylanwadu ar y canlyniad.

**Ffynonellau Gwybodaeth:**

Gall y rhain fod:

- yn sylfaenol (er enghraifft erthygl mewn cyfnodolyn a ysgrifennwyd gan yr ymchwilydd ei hun),
- yn eilaidd (er enghraifft adolygiad o lenyddiaeth, neu werslyfr sy'n cyfeirio at waith ymchwil sylfaenol gan awduron eraill)

I gael rhagor o wybodaeth, gweler:

**https://hsl.lib.umn.edu/biomed/help/primary-secondary-and-tertiary-sources-health-sciences**

**Adnoddau a thechnegau**

- chwiliadau llenyddiaeth,
- defnydd effeithiol o adnoddau electronig,
- cyfnodolion a chrynodebau ar-lein,
- aralleirio,
- cymryd nodiadau,
- cyfeirio (e.e. dyfynnu, mynegeio, tudalennau cynnwys, defnyddio llyfryddiaethau);
- darllen beirniadol a gwerthusol,
- rheoli amser;
- cynllunio effeithiol a digonol,
- prawfddarllen a golygu.

**Mathau o ymchwil:**

- Mae gwaith ymchwil sylfaenol yn cynnwys casglu data newydd na chawsant eu casglu o'r blaen. Er enghraifft, arolygon gan ddefnyddio holiaduron neu gyfweliadau â grwpiau o bobl mewn grŵp ffocws.
- Mae gwaith ymchwil eilaidd yn cynnwys casglu data sy'n bodoli eisoes ac a luniwyd eisoes. **https://www.bbc.com/bitesize/guides/zd4kq6f/revision/3**

## *Adnoddau*

BBC **https://www.bbc.com/bitesize/learn**

# Atodiad 1 Cysylltiadau â chymwysterau eraill

## Cysylltiadau â chymwysterau eraill

Mae cysylltiadau rhwng y cymhwyster hwn a'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 1/2 Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 4 Paratoi ar gyfer cymwysterau Arwain a Rheoli Gofal, Proses Chwarae a Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant